Gweithredu dros Abertawe Well

Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/17

Wedi'i ddiweddaru 2014/15

Cynnwys

1	**Cyflwyniad**	**Tudalen** 4
2	**Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol**	**Tudalen 24**
3	**Rhan 2 - Gweithredu dros Abertawe Well**	**Tudalen 30**
4	**Amcan Gwella A: Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.**	**Tudalen 31**
5	**Amcan Gwella B: Cefnogi gwell presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr 3 i 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial**	**Tudalen 40**
6	**Amcan Gwella C: Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)**	**Tudalen 51**
7	**Amcan Gwella Ch: Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol**	**Tudalen 65**
8	**Amcan Gwella D: Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau.**	**Tudalen 75**
9	**Amcan Gwella Dd: Gwella Tai a Chyflenwad Tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da.**	**Tudalen 91**
10	**Amcan Gwella E: Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd**	**Tudalen 102**

11	**Amcan Gwella F: Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion)**	**Tudalen 118**
12	**Amcan Gwella Ff: Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu drwy hyrwyddo, gweithio gydag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel**	**Tudalen 129**
13	**Ble i gael mwy o wybodaeth**	**Tudalen 138**

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gofyniad bod pob cyngor yn cyhoeddi ei gynlluniau i wella'r hyn mae'n ei wneud a sut mae'n gwneud hynny. Diben y cynllun hwn yw amlinellu blaenoriaethau allweddol y cyngor ar gyfer gwella dros y pedair blynedd nesaf; gelwir y rhain yn 'Amcanion Gwella'.

Mae'r Cynllun hefyd yn dangos sut mae Amcanion Gwella'r cyngor yn cyfrannu at wella lles pobl yn Abertawe fel y nodir yng *Nghynllun Un Abertawe* ac mae'n cyflwyno'r ymrwymiadau polisi perthnasol a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Gorffennaf 2012.

Gan weithio drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, mae'r cyngor a'i bartneriaid yn rhannu uchelgais a gweledigaeth ar gyfer Abertawe:

Ein Huchelgais i Abertawe

- Dinas unigryw ar lan y môr yw Abertawe. Mae'n ddinas werdd, ddiogel, ofalgar a chyfeillgar, sy'n gwerthfawrogi dysgu a'i gwasanaethau cyhoeddus ac rydym am iddi barhau fel hyn.
- Mae Abertawe'n ddinas sy'n teimlo'n gryf iawn am ei chwaraeon, ei hanes a'i diwylliant ac mae'r rhain yn werth eu dathlu.
- Ond rydym hefyd am i Abertawe fod yn lle iachach a thecach, sy'n fwy gweithgar yn economaidd, dinas sy'n cynnig mwy i blant a phobl ifanc.
- Rydym am gydweithio i wneud Abertawe'n lle gwell a gwella lles cymunedol mewn modd sy'n ddemocrataidd, sy'n cynnwys pawb ac nid yw'n peryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Ein gweledigaeth yw y bydd Abertawe'n ddinas y bydd pobl yn dewis byw a gweithio ynddi ac ymweld â hi sy'n:

- Manteisio i'r eithaf ar y berthynas drawiadol rhwng ei hardaloedd trefol bywiog a'i chefn gwlad a'i harfordir rhagorol
- Cefnogi economi gystadleuol a ffyniannus sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer Dinas-ranbarth ehangach Bae Abertawe
- Cyrchfan canol dinas ffyniannus sy'n cynnig cyfleusterau siopa ardderchog ac yn cefnogi cyfleoedd hamdden a busnes, gan fanteisio i'r eithaf ar ei agosatrwydd at y glannau
- Hybu cymunedau cynaliadwy penodol, mewn lleoliadau trefol a gwledig, sy'n elwa o ddigon o lety o safon, isadeiledd cefnogi, cyfleusterau cymunedol a chyfleoedd hamdden
- Dathlu ac yn cadw ei threftadaeth naturiol unigryw a'i hamgylchedd diwylliannol a hanesyddol

Canlyniadau Poblogaeth

I ategu'r weledigaeth hon ar gyfer Abertawe fel lle, mae'r cyngor a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol am ganolbwyntio ar y canlyniadau canlynol a rennir drwy *Gynllun Un Abertawe*; yr amodau rydym yn dymuno eu cael yn ein cymunedau:

A. Dechrau da mewn bywyd i blant
B. Mae pobl yn dysgu'n llwyddiannus
C. Swyddi da i bobl ifanc ac oedolion

Ch. Safon byw dda i bobl
D. Mae pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol
Dd Lleoedd da i bobl fyw a gweithio ynddynt

Heriau

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi nodi'r heriau canlynol fel y pethau pwysicaf i ganolbwyntio arnynt drwy ei *Gynllun Un Abertawe* er mwyn gwneud cynnydd at y canlyniadau poblogaeth

Canlyniadau Poblogaeth	**Heriau**
A. Dechrau Da mewn Bywyd i Blant	1. Pwysau Geni Isel 2. Cam-drin yn y Cartref 3. Parodrwydd i Ddechrau'r Ysgol
B. Mae Pobl yn Dysgu'n Llwyddiannus	1. Presenoldeb Ysgol 2. Cyflawniad yn yr Ysgol 3. Cymwysterau Oedolion
C. Swyddi Da i Bobl Ifanc ac Oedolion	1. Diweithdra Ieuenctid 2. Anweithgarwch Economaidd 3. Enillion Cyfartalog 4. Perfformiad Economaidd
Ch. Safonau Byw Da i Bobl	1. Tlodi Plant 2. Incwm Aelwydydd 3. Dyled Bersonol
D. Mae Pobl yn Iach, yn Ddiogel ac yn Annibynnol	1. Marwolaethau Cynnar y Gellir eu Hatal 2. Disgwyliad Oes 3. Annibyniaeth Pobl Hŷn 4. Troseddu
Dd. Lleoedd Da i Bobl Fyw a Gweithio Ynddynt	1. Cludiant Cyhoeddus 2. Allyriadau Carbon 3. Ansawdd Dŵr 4. Ansawdd Tai

Ymrwymiadau Polisi [1]

Mabwysiadodd y cyngor ei ymrwymiadau polisi yng nghyfarfod y cyngor ar 26 Gorffennaf 2012. Yr ymrwymiadau polisi yw'r addewidion polisi allweddol a nodwyd gan y cyngor i'w gwireddu yn ystod y cylch etholiadol hwn.

Ymrwymiadau Polisi
1. Gweithredu dros Gyllid Cryf yn y Cyngor
2. Gweithredu dros Ddemocratiaeth yn y Cyngor • Safonau ymddygiad cynrychiolwyr etholedig
3. Gweithredu dros Ddinas Dysg • Dinas Dysg • Uchelgeisiol dros Abertawe • Ysgolion sy'n Perfformio'n Dda • Dechrau Iach i'n Holl Blant • Dyfodol i'n Pobl Ifanc
4. Gweithredu dros Swyddi ac Adfywio • Dinas Gwyddoniaeth Greadigol • Canol Dinas Iach • Canolfannau Maestrefol • Adfywio a Gwrthdlodi • Sectorau Allweddol
5. Gweithredu dros Gysylltiadau Trafnidiaeth Cryf • Trafnidiaeth Gynaliadwy • Abertawe Iachach, a Gwyrddach • Cludiant Cyhoeddus • Canol Dinas Bywiog • Diogelwch Cymunedol
6. Gweithredu dros Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol o Safon • Atal, nid Methu • Gwasanaethau Lleol • Gweithio gyda'n Gilydd • Budd Cyhoeddus cyn Elw Preifat • Buddsoddi yn Ein Pobl

[1]Mabwysiadwyd yr Ymrwymiadau Polisi gan y cyngor ar 26 Gorffennaf 2012.

Ymrwymiadau Polisi
7. Gweithredu dros Dai Gwell • Tai Fforddiadwy • Rhoi Pobl yn Gyntaf • Gwella Ansawdd Tai • Eiddo Gwag • Adfywio Cymunedau
8. Gweithredu dros y Gorau ym myd y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon • Prifddinas Ddiwylliannol Cymru • Dinas Chwaraeon • Dinas Greadigol • Canmlwyddiant Dylan Thomas • Treftadaeth
9. Gweithredu dros Gymunedau Cryfach a Diogelach • Gweithredu yn y Gymuned • Dinasyddiaeth Ifanc • Dathlu Amrywiaeth • Hyrwyddo Diogelwch Cymunedol • Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
10. Gweithredu dros Amgylchedd Gwell a Chynllunio Gwell • Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd • Abertawe Wyrddach a Chynaliadwy • Gwerthfawrogi ein Parciau a'n Mannau Agored • Gwneud ein Dinas yn Wyrddach • Cynnwys Dinasyddion a Chymunedau

Amcanion Gwella a Mesurau Perfformiad Corfforaethol

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn disgrifio blaenoriaethau gwella'r cyngor a elwir yn 'Amcanion Gwella'. Mae amcanion gwella'r cyngor yn cyflwyno'r ymrwymiadau polisi perthnasol a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Gorffennaf 2012 ac yn dangos cyfraniad y cyngor at wella lles pobl yn Abertawe fel yr amlinellwyd yng *Nghynllun Un Abertawe*.

Lluniwyd nifer o fesurau perfformiad i ddarparu tystiolaeth o gyflwyno pob amcan gwella. Mae'r mesurau perfformiad yn mesur faint mae'r cyngor yn ei wneud, pa mor dda mae'r cyngor yn cyflwyno ei wasanaethau a, lle gellir mesur hyn ac os mai hwn yw'r mesur llwyddiant mwyaf priodol, a yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r cyngor yn well eu byd:

Amcan Gwella	Mesurau Perfformiad
1. **Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.**	1. % presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg 2. % Plant Dechrau'n Deg yr aseswyd eu bod yn perfformio yn ôl y norm datblygiadol neu'n well 3. % y rhieni/gofalwyr sy'n nodi cynnydd cadarnhaol (gwelliant) ar ddiwedd rhaglen magu plant Dechrau'n Deg.
2. **Cefnogi gwell presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr rhwng 3 a 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial**	1. EDU/016 a a b - % presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd 2. Cyrhaeddiad mewn Cymraeg neu Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 3. EDU/017 - % disgyblion sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg
3. **Mae Pobl yn Ddiogel, yn lach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Plant a Theuluoedd)**	1. Nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal 2. Nifer y plant sy'n derbyn gofal 3. Cyfradd Plant sy'n Mynd i'r System Gofal (fesul 1000 o'r boblogaeth 0-17 oed) 4. Cyfradd Plant sy'n Derbyn Gofal (fesul 1000 o'r boblogaeth 0-17 oed) 5. SSC/010 - % cyfeiriadau sy'n ail gyfeiriadau o fewn 12 mis 6. Cyfanswm plant mewn angen (achosion agored) mewn blwyddyn 7. % plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a gafodd eu tynnu o'r gofrestr ac yna eu cofrestru eto. 8. % y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am fwy na blwyddyn 9. % y plant sy'n derbyn gofal maeth prif ffrwd gyda Maethu Abertawe 10. Nifer y plant mewn gofal preswyl 11. % y plant sy'n derbyn gofal mewn teulu
4. **Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol.**	1. BBMA1 - Cynnydd yn nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol (*Tu Hwnt i Frics a Morter)* yn eu contractau 2. WWC1 - Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiect gweithffyrdd 3. % yr ymgeiswyr a thrydydd partïon sy'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth ceisiadau cynllunio 4. % yr holl geisiadau sylweddol a bach sy'n cael eu cymeradwyo a chanddynt ysgogiad economaidd

Amcan Gwella	Mesurau Perfformiad

5. **Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau.**	1. Nifer y staff/gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w rôl ym maes cyngor ar hawliau lles/budd-daliadau 2. Nifer staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd 3. Nifer tenantiaid y cyngor sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd 4. % y gwarantau troi allan yn erbyn tenantiaid y cyngor oherwydd ôl-ddyledion rhent a gafodd eu hatal o ganlyniad i gefnogaeth a chymorth ariannol 5. HHA/013 - % yr aelwydydd mewn perygl o ddigartrefedd y llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 chwe mis
6. **Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.**	1. % y plant 11 i 16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ysgol 2. % y plant ysgol ym mlwyddyn 6 (11 oed) sy'n cymryd rhan yn rhaglen dysgu nofio'r ysgol ond nad ydynt yn gallu nofio i'r safon ofynno. 3. Nifer/% y bobl sy'n dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol 12 mis ar ôl cael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu ac sy'n nodi bod eu hiechyd wedi gwella 4. Nifer y lleoedd tyfu 5. % y disgyblion a nodwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol am ddim - ysgolion cynradd ac uwchradd
7. **Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion)**	1. % yr achosion lle mae'r risg wedi cael ei rheoli (diogelu oedolion diamddiffyn) 2. %. y bobl a gefnogwyd i fod yn annibynnol 3. SSA2 - Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng cwblhau cynllun gofal a darparu a/neu osod cymhorthion neu offer. 4. % y cleientiaid sy'n dychwelyd adref yn dilyn ailalluogi
8. **Gwella tai a chyflenwad tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da**	1. Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd/y mae eu hangen 2. HSG2 - Nifer y cartrefi cyngor gwag 3. % tenantiaid y cyngor sy'n aros yn eu tenantiaeth am fwy na 2 flynedd.
9. **Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu drwy hyrwyddo, gweithio gydag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel**	1. WMT/004b - % y gwastraff dinesig a anfonir i safleoedd tirlenwi. 2. WMT/009b - % y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio 3. STS/006 - % y tipio anghyfreithlon sy'n cael ei glirio o fewn 5 niwrnod gwaith

Mae Tabl 1 ar y dudalen nesaf yn dangos y cysylltiadau a'r dibyniaethau rhwng *Cynllun Un Abertawe*, ymrwymiadau polisi'r cyngor ac amcanion gwella'r cyngor.

Tabl 1 - cyd-ddibyniaeth rhwng y canlyniadau a'r heriau a amlinellwyd yng *Nghynllun Un Abertawe*, ymrwymiadau polisi'r cyngor a'r amcanion gwella a ddisgrifiwyd yng Nghynllun Gwella Corfforaethol y cyngor.

Cynllun Un Abertawe		**Cynllun Gwella Corfforaethol**		
Canlyniadau Poblogaeth	**Her a Rennir**	**Ymrwymiadau Polisi**	**Amcan Gwella**	**Mesurau Perfformiad**
A. Dechrau Da mewn Bywyd i Blant	1. Pwysau Geni Isel 2. Cam-drin yn y Cartref **3. Parodrwydd i Ddechrau'r Ysgol**	**Para 6 - Gweithredu dros ddinas dysg - Dechrau Da ac lach i'n Holl Blant**	1. **Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol**	1. % presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg 2. % Plant Dechrau'n Deg yr aseswyd eu bod yn perfformio yn ôl y norm datblygiadol neu'n well 3. % y rhieni/gofalwyr sy'n nodi cynnydd cadarnhaol (gwelliant) ar ddiwedd rhaglen magu plant Dechrau'n Deg.
		Para 9 - Gweithredu dros Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol o Safon - Atal, nid Methu	2. **Mae Pobl yn Ddiogel, yn lach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Plant a Theuluoedd)**	1. Nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal 2. Nifer y plant sy'n derbyn gofal 3. % Plant sy'n Mynd i'r System Gofal (fesul 1000 o'r boblogaeth 0-17 oed). 4. Cyfradd Plant sy'n Derbyn Gofal (fesul 1000 o'r boblogaeth 0-17 oed) 5. SSC/010 - % cyfeiriadau sy'n ail gyfeiriadau o fewn 12 mis 6. Cyfanswm y plant mewn angen (achosion agored) mewn blwyddyn 7. % y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a gafodd eu tynnu o'r gofrestr ac yna eu cofrestru eto 8. % y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am fwy na blwyddyn 9. % y plant sy'n derbyn gofal maeth prif ffrwd gyda Maethu Abertawe 10. Nifer y plant mewn gofal preswyl 11. % y plant sy'n derbyn gofal mewn teulu

DS - mae **teip trwm** yn cynrychioli cydberthynas uniongyrchol rhwng *Cynllun Un Abertawe* a'r Cynllun Gwella Corfforaethol.

Cynllun Un Abertawe		Cynllun Gwella Corfforaethol		
Canlyniad Poblogaeth	**Her a Rennir**	**Ymrwymiadau Polisi**	**Amcan Gwella**	**Mesurau Perfformiad**
B. Mae Pobl yn Dysgu'n Llwyddiannus	**1. Presenoldeb Ysgol** **2. Cyflawniad yn yr Ysgol** 3. Cymwysterau Oedolion	**Para 6 - Gweithredu dros ddinas dysg - Yn Uchelgeisiol dros Abertawe**	3. **Cefnogi gwell presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr rhwng 3 a 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial**	1. EDU/016 a a b - % presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd 2. Cyrhaeddiad mewn Cymraeg neu Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 3. EDU/017 - % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg
C. Swyddi Da i Bobl Ifanc ac Oedolion	1. Diweithdra Ieuenctid 2. **Anweithgarwch Economaidd** 3. Enillion Cyfartalog 4. **Perfformiad Economaidd**	**Para 7 - Gweithredu dros Swyddi ac Adfywio**	**4. Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol**	1. BBMA1 - Cynnydd yn nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol (Tu Hwnt i Frics a Morter) yn eu contractau 2. WWC1 - Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiect Gweithffyrdd 3. % yr ymgeiswyr a thrydydd partïon sy'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth ceisiadau cynllunio 4. % yr holl geisiadau sylweddol a bach sy'n cael eu cymeradwyo a chanddynt ysgogiad economaidd
Ch.Safonau Byw Da i Bobl	1. Tlodi Plant **2. Incwm Aelwydydd** **3. Dyled Bersonol**	**Para 7 - Gweithredu dros Swyddi ac Adfywio - Adfywio a Gwrthdlodi**	**5. Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau**	1. Nifer y staff/gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w rôl mewn cyngor ar hawliau lles/budd-daliadau 2. Nifer staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd 3. Nifer tenantiaid y cyngor sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd 4. % y gwarantau troi allan yn erbyn tenantiaid y cyngor oherwydd ôl-ddyledion rhent a gafodd eu hatal o ganlyniad i gefnogaeth a chymorth ariannol 5. HHA/013 % yr aelwydydd mewn perygl o ddigartrefedd y llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 chwe mis

Cynllun Un Abertawe		Cynllun Gwella Corfforaethol		
Canlyniadau Poblogaeth	**Her a Rennir**	**Ymrwymiadau Polisi**	**Amcan Gwella**	**Mesurau Perfformiad**
D. Mae Pobl yn Iach, yn Ddiogel ac yn Annibynnol	**1. Marwolaethau Cynnar y Gellir eu Hatal** **2. Disgwyliad Oes** **3. Annibyniaeth Pobl Hŷn** 4. Troseddu	**Para 11 - Gweithredu dros y Gorau ym Myd y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon - Dinas Chwaraeon** **Para 13 - Gweithredu dros Amgylchedd Gwell a Chynllunio Gwell - Gwerthfawrogi ein Parciau a'n Mannau Agored**	6. **Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd**	1. % y plant 11 i 16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ysgol 2. % y plant ysgol ym mlwyddyn 6 (11 oed) sy'n cymryd rhan yn rhaglen dysgu nofio'r ysgol ond nad ydynt yn gallu nofio i'r safon ofynnol 3. Nifer/% y bobl sy'n dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol 12 mis ar ôl cael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu ac sy'n nodi bod eu hiechyd wedi gwella 4. Nifer y lleoedd tyfu 5. % y disgyblion a nodwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol am ddim - ysgolion cynradd ac uwchradd
		Para 9 - Gweithredu dros Wasanaethau Iechyd a Chymdeithasol o Safon - Atal, nid Methu	7. **Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion)**	1. % yr achosion lle mae'r risg wedi cael ei rheoli (diogelu oedolion diamddiffyn 2. %. y bobl a gefnogir i fod yn annibynnol 3. SSA2 - Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng cwblhau cynllun gofal a darparu a/neu osod cymhorthion neu offer 4. % y cleientiaid sy'n dychwelyd adref yn dilyn ailalluogi

Cynllun Un Abertawe		**Cynllun Gwella Corfforaethol**		
Canlyniadau Poblogaeth	**Her a Rennir**	**Ymrwymiadau Polisi**	**Amcan Gwella**	Mesurau Perfformiad
Dd. Lleoedd da i bobl fyw a gweithio ynddynt	1. Cludiant Cyhoeddus 2. Allyriadau Carbon 3. Ansawdd dŵr **4. Ansawdd Tai**	**Para 10 - Gweithredu dros Dai Gwell** **Para 13 - Gweithredu dros Amgylchedd Gwell a Chynllunio Gwell**	**8. Gwella tai a chyflenwad tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da** **9. Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu drwy hyrwyddo, gweithio gydag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel**	1. Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd/y mae eu hangen 2. HSG2 - Nifer y cartrefi cyngor gwag 3. % tenantiaid y cyngor sy'n aros yn eu tenantiaeth am fwy na 2 flynedd. 1. WMT/004b - % y gwastraff dinesig a anfonir i safleoedd tirlenwi 2. WMT/009b - % y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio 3. STS/006 - % y tipio anghyfreithlon sy'n cael ei glirio o fewn 5 niwrnod gwaith

Cydraddoldeb

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Ddyletswydd Gydraddoldeb newydd ar y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys Amcanion Cydraddoldeb penodol.

Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dinas a Sir Abertawe (ar gyfer y cyfnod 2012-2016 i ddechrau) ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y cyngor ar 15 Mawrth 2012 ac mae'n nodi sut byddwn yn adeiladu ar ein Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth blaenorol a'n trefniadau ar gyfer bodloni'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd.

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb (sydd yn y Cynllun) yn seiliedig ar wybodaeth gan ffynonellau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac maent yn amlygu meysydd anghydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau, defnyddio gwasanaethau neu gyrhaeddiad ar gyfer neu gan grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffiniwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Dyma'r nodweddion

- **Oedran**
- **Anabledd**
- **Ailbennu Rhywedd**
- **Priodas a Phartneriaeth Sifil**
- **Beichiogrwydd a Mamolaeth**
- **Hil**
- **Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred)**
- **Rhyw**
- **Tueddfryd Rhywiol.**

Ymdrinnir â materion ynghylch defnyddio'r **iaith Gymraeg** dan Gynllun Iaith Gymraeg y cyngor.

Mae pob Amcan Cydraddoldeb yn cynnwys camau gweithredu i gyflawni canlyniadau penodol mesuradwy i leihau anghydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

Mae Tabl 2 ar y dudalen nesaf yn dangos y cysylltiadau rhwng amcanion gwella'r cyngor a'r amcanion cydraddoldeb perthnasol.

Datblygu Cynaliadwy

Mae Cyngor Abertawe'n ymrwymedig i ddatblygu cynaliadwy ac Abertawe wyrddach a mwy cynaliadwy.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y cyngor, www.abertawe.gov.uk

Tabl 2 - cyd-ddibyniaeth rhwng amcanion gwella'r cyngor a'r amcanion cydraddoldeb perthnasol

Ein Hamcanion Gwella	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.	**Amcan Cydraddoldeb 14 -** lleihau'r anghydraddoldeb o ran canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r rhai tlotaf.
Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Plant a Theuluoedd)	**Amcan Cydraddoldeb 18** - Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth wrth wraidd yr holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu.
Cefnogi gwell presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr 3 i 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial	**Amcan Cydraddoldeb 10 -** Cynnal tueddiadau gwella wrth asesu bechgyn a merched yn ystod Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched. **Amcan Cydraddoldeb 14** - Cynyddu presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardaloedd targed. Gwella sgorau cyfartalog Prawf Darllen Cymru Gyfan ar gyfer plant 6-7 oed a 10-11 oed yn yr ardaloedd targed. Cynyddu cyfran y disgyblion 15-16 oed sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg.
Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol.	**Amcan Cydraddoldeb 1** - Sefydlu grŵp penodol o swyddogion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a'r Adran Adfywio Economaidd a Chynllunio er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y rhaglenni gwaith parhaus.
Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau.	**Amcan Cydraddoldeb 2 -** Darparu llinell gyngor ar hawliau lles am 3 diwrnod yr wythnos i siarad â staff DASA a sefydliadau partner er mwyn mynd i'r afael â'r newidiadau sylweddol yn y system fudd-daliadau yn sgîl y diwygiadau lles.

Ein Hamcanion Gwella	Ein Hamcanion Cydraddoldeb
Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.	**Amcan Cydraddoldeb 17** - Gwella mynediad i wasanaethau/cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon ac annog mwy o bobl i fanteisio arnynt.
Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion)	**Amcan Cydraddoldeb 18** -Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'r holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu.
Gwella tai a chyflenwad tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da.	**Amcan Cydraddoldeb 15** - Gwella mynediad i wasanaethau tai ar gyfer cwsmeriaid.
Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu drwy hyrwyddo, gweithio gydag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel	**Amcan Cydraddoldeb 26** - Casgliadau â chymorth ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.

Negeseuon Allweddol o Ymgynghori ar y Cynllun Gwella yn 2013

Mae'r negeseuon allweddol canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r ymgynghoriad:

- Bu'r cyngor yn ymgynghori ar ei amcanion gwella arfaethedig gan ddefnyddio dau brif ddull:

  1. Arolwg ar-lein.
  2. Cyfarfodydd grwpiau ffocws gyda grwpiau o ddefnyddwyr penodol.

- Dangosodd yr ymgynghoriad ar-lein fod cefnogaeth helaeth i holl amcanion gwella arfaethedig y cyngor; roedd rhwng 57% a 94% yn cytuno â'r amcanion gwella a gafodd eu cynnwys yn y cynllun hwn.

- Dyma'r Amcanion Gwella a ddenodd y gefnogaeth fwyaf yn yr ymgynghoriad ar-lein:

Amcanion Gwella Arfaethedig	**Cytuno'n Gryf neu Gytuno**
1. Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol.	94%
2. Gwella presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr rhwng 3 a 19 oed fel y gall pob unigolyn gyflawni ei botensial.	93%
3. Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.	89%
4. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol.	86%
5. Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.	84%

- Canran isel iawn o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn anghytuno ag amcanion gwella arfaethedig y cyngor, rhwng 0% (neb yn anghytuno) a 7% yn unig.

- Roedd canran yr ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r amcanion arfaethedig yn amrywio rhwng 4% a 36%.

- Ymgynghorodd y cyngor â'r canlynol hefyd:

  1. Rhwydwaith 50+ - grŵp â'r nod o sicrhau llais effeithiol i bobl hŷn ar amrywiaeth eang o faterion cyfranogi a chynllunio.
  2. Fforwm Busnes Abertawe - fforwm sy'n rhoi cyfle i'r cyngor a'r sectorau busnes feithrin cysylltiadau.
  3. Grŵp o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) a oedd yn arfer derbyn gofal gan y cyngor.

Dyma'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgîl y broses ymgynghori hon:

Ymgynghori â'r Rhwydwaith 50+

- Mae cwnsela dyled yn bwysig
- Hyrwyddo hunangynhaliaeth
- Mae angen monitro effaith y diwygiadau lles
- Mae angen hyrwyddo'r Undeb Credyd i fynd i'r afael ag effaith cwmnïau benthyciadau diwrnod tâl.
- Blaenoriaethu cyflwyno'r cyflog byw
- Rhewi treth y cyngor
- Gwerthuso a monitro llwyddiant mentrau sy'n mynd i'r afael â thlodi
- Annog twf economaidd
- Gwella diogelwch swyddi
- Gwella cludiant lleol
- Gwario arian wrth gefn
- Dylid addysgu hyfforddiant a sgiliau mewn ysgolion
- Caniatâd cynllunio cyflym ar gyfer tai fforddiadwy
- Peidiwch â thorri chwaraeon/cerddoriaeth mewn ysgolion
- Mae angen hyrwyddo mynediad am ddim i ganolfannau hamdden a'i hysbysebu mewn cysodfannau bysus
- Dylid gweithio'n gynnar gyda theuluoedd plant sy'n derbyn gofal pan nodir bod y plentyn mewn perygl
- Dylai'r cyngor ddarparu cynifer o gartrefi preswyl a nyrsio â phosib
- Blaenoriaethu cefnogaeth i helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd
- Darparu addasiadau ar yr adeg gywir i alluogi pobl i fyw gartref yn ddiogel
- Gwell cyfathrebu rhwng adrannau, gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal i wella problemau a phryderon
- Mae angen rhagor o'r math iawn o staff cymunedol sy'n cael eu talu'n dda a sydd â'r amser angenrheidiol i wneud eu gwaith
- Mae angen mwy o ddarpariaeth meithrin
- Hyrwyddo cyfrifoldeb rhieni
- Hyrwyddo modelau rôl cadarnhaol i blant
- Gwella presenoldeb mewn ysgolion
- Estyn casgliadau ailgylchu i gynnwys mathau ychwanegol o wastraff
- Adolygu'r newidiadau i'r casgliadau gwastraff - eitemau mawr
- Helpu pobl anabl a phobl hŷn gyda'u casgliadau gwastraff/ailgylchu
- Targedu grwpiau penodol nad ydynt yn ailgylchu a'u hannog i ailgylchu
- Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o gynlluniau effeithlonrwydd ynni

Ymgynghoriad â Fforwm Busnes Abertawe

- Canolbwyntio ymdrechion ar yr hyn mae'r cyngor yn gallu effeithio arno a'i newid
- Gweithio gydag eraill, gan gynnwys y sector preifat, i gyflawni amcanion
- Nid gofal cartref yw'r opsiwn gorau bob amser - weithiau mae angen gofal preswyl
- Mae angen mwy o gydweithio â'r sector preifat i weld pa gymorth addysgol y gall y Brifysgol a busnes ei gynnig i blant oedran ysgol
- Dylai canolfannau ailgylchu fod ar agor am oriau hwy i helpu pobl sy'n gweithio.

Ymgynghoriad â'r grŵp ffocws pobl ifanc (NEET/derbyn gofal gynt)

- Dyma'r 5 amcan gwella a gefnogwyd fwyaf gan y grŵp hwn.

1. Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.

2. Gwella tai a'r cyflenwad tai er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy o safon sydd ar gael a darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl.

3. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol.

4. Gwella presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr rhwng 3 a 19 oed fel y gall pob unigolyn gyflawni ei botensial.

5. Targedu adnoddau ar ardaloedd tlotaf Abertawe er mwyn helpu i leihau effaith tlodi.

- Mae angen mwy o gefnogaeth i helpu pobl gyda'u tenantiaethau ac i ddod yn annibynnol
- Mae angen mwy o lety sy'n addas i bobl ifanc.
- Roedd y grŵp yn ystyried bod atal ac ymyrryd yn gynnar yn bwysig iawn.
- Mae'n rhaid lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn modd diogel.
- Mae angen gwella rheolaeth y system gofal a darparu cefnogaeth briodol beth bynnag fo oedran yr unigolyn.
- Mae rheoli effaith y diwygiadau lles, darparu cyngor ar ddyledion a budd-daliadau a chyflog byw yn bwysig.
- Ceir canfyddiad bod bwyd iach yn rhy ddrud.
- Presenoldeb ysgol - mae angen i bobl ifanc, yn ogystal â rhieni, dderbyn cyfrifoldeb.
- Er bod hyn yn bwysig, ni ddylid gorfodi pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriadau'n gyson ag amcanion y Cynllun Corfforaethol ac nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun o ganlyniad i'r ymgynghori. Ni chafodd yr amcan arfaethedig o ran lleihau carbon ei gynnwys yn y cynllun eleni, oherwydd bod rhagor o waith datblygu yn yr arfaeth. Rhoddwyd canlyniadau'r ymgynghori i benaethiaid gwasanaeth hefyd er gwybodaeth ac i'w hystyried.

Arolwg 2014

Cynhaliwyd ymgynghoriad dilynol ar-lein ynghylch amcanion gwella'r cyngor yn 2014. Yn ôl canlyniadau'r arolwg, nodwyd 4 o'r 5 amcan gwella yr oedd pobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â hwy yn 2013 fel yr amcanion gwella pwysicaf unwaith eto yn 2014. Yr eithriad oedd yr amcan ynghylch ffyrdd iach o fyw y barnwyd ei fod yr un lleiaf pwysig y tro hwn. Cafodd ei ddisodli yn y 5^{ed} safle gan yr amcan gwella ynghylch hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau.

Sut bydd y cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd i wella?

Mae dyletswydd ar y cyngor i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r cyngor ystyried y canlynol:

- Gwneud cynnydd tuag at amcanion cymunedol.
- Gwella safon gwasanaethau.
- Gwella argaeledd gwasanaethau.

- Gwella tegwch.
- Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardaloedd.
- Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a swyddogaethau.
- Blaengaredd a newid sy'n cyfrannu at welliant.

Bydd pob un o flaenoriaethau gwella'r cyngor yn cyflawni un neu fwy o'r agweddau hyn. Manylir ar hyn yn y tudalennau sy'n dilyn.

Sut aethom ati i ddewis amcanion gwella'r cyngor?

Pennwyd amcanion gwella'r cyngor gan gyfeirio at *Gynllun Un Abertawe* ac ymrwymiadau polisi'r cyngor a chan ymgynghori â staff y cyngor, aelodau etholedig a'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys arolwg ar-lein ac ymgynghoriadau wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr grwpiau amrywiol.

Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau

Datblygwyd y Cynllun Gwella Corfforaethol gan ddefnyddio'r dull Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (RBA). Datblygwyd pob amcan gwella a nodwyd mesurau perfformiad drwy ateb y cwestiynau canlynol:

1. **Sut gallwn fesur faint rydym yn ei wneud?**
2. **Sut gallwn fesur a ydym yn cyflwyno gwasanaethau'n dda?**
3. **Sut gallwn fesur a yw ein cwsmeriaid yn well eu byd?**
4. **Beth yw'r mesurau pwysicaf a sut rydym yn perfformio?**
5. **Beth sy'n gweithio'n dda nawr y gallwn ei wella?**
6. **Beth rydym yn bwriadu ei wneud i wella?**

Mae *Cynllun Un Abertawe'n* ymwneud yn bennaf â'r heriau cymunedol y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn mynd i'r afael â hwy drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Ar y llaw arall, mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn ymwneud yn bennaf ag atebolrwydd perfformiad ar gyfer y gwasanaethau a gyflwynir gan y cyngor yn bennaf. Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn sôn yn bennaf am wella gwasanaethau'r cyngor i'w gwsmeriaid uniongyrchol neu ei gyfraniad at yr heriau a rennir sy'n cael eu hamlinellu yng *Nghynllun Un Abertawe*.

Nodyn ar fesur 'canlyniadau' sy'n gysylltiedig â gwasanaethau - drwy ddefnyddio RBA, mae'r cyngor wedi ceisio nodi mesurau perfformiad priodol, yn enwedig er mwyn canfod *'a yw pobl yn well eu byd?'* Mewn rhai meysydd mae'r ymagwedd hon yn eithaf syml a gellir nodi a mesur y 'canlyniad'. Serch hynny, mae angen ystyried nifer o faterion wrth geisio mesur canlyniadau ym maes gwasanaethau.

Yn gyntaf, mae'n anodd mesur 'canlyniad' rhai o wasanaethau'r cyngor sy'n strategol ac yn galluogi, a chyflwynir y gwasanaeth sy'n effeithio ar y defnyddiwr terfynol gan asiantaeth arall neu nifer o asiantaethau'n cydweithio. Er enghraifft, er bod gan y cyngor rôl wrth ddatblygu sectorau allweddol yr economi leol, mae'r cyngor yn cyflawni hyn yn bennaf drwy fframweithiau strategol, drwy ei waith cynllunio a thrwy weithio ar y cyd ag eraill. Felly, mae'n anodd ynysu a mesur effaith y cyngor ar y canlyniad; serch hynny, ni fyddai llawer o bobl yn dadlau na ddylai'r cyngor wneud datblygu'r economi leol yn flaenoriaeth.

Yn ail, oherwydd natur gymhleth rhai o'r gwasanaethau sy'n ymwneud â 'phobl', nid yw o angenrheidrwydd yn rhwydd mesur canlyniadau na darparu a llunio rhagamcaniadau ar gyfer gwella'n gynyddol. Er enghraifft, er y gall fod yn ddymunol

ac yn bosib mesur cynnydd datblygiadol plant Dechrau'n Deg pan fyddant yn 2 oed ac eto wrth iddynt gyrraedd 3 oed, mae'n anodd pennu a rhagweld meincnodau a gwelliannau cynyddol bob blwyddyn pan fydd pob carfan plant a fesurir yn cynnwys unigolion gwahanol â mannau cychwyn ac anghenion gwahanol.

Yn drydydd, mae rhai gwasanaethau'n destun cyfeiriad ac arweiniad strategol sy'n pennu blaenoriaethau gwasanaeth. Er enghraifft, mae gan gynghorau yng Nghymru dargedau statudol ar gyfer lleihau tirlenwi a chynyddu ailgylchu gwastraff a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd rhaid i gynghorau nad ydynt yn cyflawni'r targedau statudol hyn dalu treth tirlenwi a dirwyon. O ganlyniad, mae gwasanaethau rheoli gwastraff y cyngor wedi'u cynllunio i gyflawni'r targedau statudol hyn. Felly, blaenoriaeth y cyngor yw cyflawni'r targedau hyn yn hytrach nag ystyried a yw unrhyw un yn well ei fyd (er bod hyn yn rhan o'r strategaeth i argyhoeddi pobl i ailgylchu).

Yn bedwerydd, mae'n anodd weithiau ganfod effaith y cyngor ar gyflwyno gwasanaeth os na fydd y canlyniadau'n amlwg am beth amser. Gall ffactorau eraill, sydd y tu hwnt i reolaeth y cyngor, effeithio arnynt neu efallai fod y canlyniadau'n amlwg ac nid yw'n werth eu mesur. Er enghraifft, mae'r cyngor yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd tyfu a rhandiroedd fel y gall pobl dyfu eu llysiau ffres eu hunain. Yn ogystal â bod yn weithgaredd hamdden iach, mae hyn yn darparu bwyd iach a gall arbed arian. Gall fod yn anodd mesur effaith y polisi hwn ar iechyd pobl yn y tymor byr a gall ffactorau eraill, sy'n gysylltiedig â ffyrdd o fyw, effeithio ar y canlyniad. Ond ychydig fyddai'n dadlau na fydd cynyddu nifer y lleoedd tyfu'n arwain at nifer o fanteision gan gynnwys rhai iechyd.

Sut byddwn yn monitro ac yn adrodd am gynnydd?

Caiff y mesurau perfformiad yn y cynllun hwn eu monitro'n fisol, bob chwarter ac yn flynyddol, mewn cyfarfodydd adrannol, gan y Bwrdd Gwella Corfforaethol a chan aelodau etholedig. Caiff amcanion gwella'r cyngor eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gwasanaethau a chynlluniau busnes adrannau. Defnyddir y data diweddaraf i werthuso perfformiad. Caiff cefndir y perfformiad presennol a chynnydd ers y cylch adrodd diwethaf eu hystyried. Byddwn yn ceisio deall y rhesymau dros y perfformiad presennol er mwyn i ni geisio gwella. Bydd y cyngor yn cyhoeddi Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn 2014-15 i adrodd ar ei lwyddiant yn 2013-14 wrth gyflawni'r amcanion gwella a amlinellir yn y cynllun hwn.

Diwygiadau i'r Cynllun

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys mesurau perfformiad lleol newydd a bydd y gwaith parhau i'w mireinio ymhellach a'u hymgorffori yn systemau rheoli perfformiad y cyngor yn parhau. Yn ystod y broses hon, ac oherwydd dylanwadau allanol eraill, mae'n bosib y bydd angen ychwanegu at yr amcanion, eu newid neu eu mireinio eto ac mae hyn yn berthnasol i'r mesurau perfformiad, y rhagamcaniadau a'r cynnwys arall yn y cynllun hwn hefyd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu nodi yn adolygiad blynyddol y Cynllun Gwella Corfforaethol a chyhoeddir y diwygiadau.

Blaenoriaethau busnes eraill

Mae gan y cyngor nifer o bryderon eraill sy'n flaenoriaethau busnes, megis ymdrin â baw cŵn a gwelliannau i gynnal a chadw priffyrdd. Eir i'r afael â'r rhain drwy gynlluniau busnes gwasanaethau a chânt eu monitro drwy raglen strategol y cyngor.

Ceir digon o dystiolaeth i awgrymu bod gwahaniaethau sylweddol rhwng cymunedau yn y Ddinas a'r Sir o ran cyfoeth, incwm, iechyd a dyheadau. Mae'r datganiad o ymrwymiadau polisi a fabwysiadwyd gan y cyngor ar 26 Gorffennaf yn nodi'r bwriad i ddatblygu ymagwedd 'Ardaloedd Targed', “gydag adrannau'r cyngor, y GIG ac asiantaethau eraill yn rhannu adnoddau a chyllid ac yn cydweithio ar draws ffiniau i fynd i'r afael ag achosion tlodi ac amddifadedd sy'n pontio cenedlaethau." Mae'r amcanion gwella a amlinellir yn y cynllun hwn yn berthnasol i bob agwedd ar ein gwaith er y byddwn yn hollol gyson â'r ymagwedd dargedu hon wrth eu rhoi ar waith.

Sut gallwch chi gymryd rhan a chynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn?

Mae'r cyngor wedi creu cronfa ddata ymgynghori bartneriaeth i'w gwneud yn hwylus i drigolion gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau a gynhelir gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'i bartneriaid, neu ar eu rhan. Yma gallwch weld yr ymgynghoriad a chael mwy o fanylion am sut gallwch ddarparu adborth. Pan fydd ymgynghoriad wedi'i gwblhau, gallwch lawrlwytho unrhyw ganlyniadau/gylchlythyron perthnasol.

Dilynwch y ddolen i gael mynediad i'r Gronfa Ddata Ymgynghori: Cronfa Ddata Ymgynghori

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y Gronfa Ddata Ymgynghori, neu os ydych yn cael trafferth wrth ei defnyddio, cysylltwch â'r Cydlynydd Ymgynghoriadau ar 01792 636732, drwy ffacs 01792 637206 neu e-bost consultation@swansea.gov.uk

Gallwch gyfranogi hefyd drwy Fyrddau Craffu'r cyngor, sy'n agored i'r cyhoedd (Craffu yn Abertawe) neu gallwch gysylltu â Thîm Mynediad i Wasanaethau'r cyngor drwy ffonio 636907 neu e-bostio accesstoservices@swansea.gov.uk

Os hoffech gynnig Amcanion Gwella newydd ar gyfer 2013-17, gallwch gysylltu â'r cyngor unrhyw bryd drwy: E-bostio: improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 63685252.

Gweithredu dros Abertawe Well

Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/17

Wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2014/15

Rhan 1 - Crynodeb Gweithredol

Crynodeb Gweithredol - Amcanion Gwella

A. Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• O leiaf cynnal lefelau presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. • Mesur sut mae canfyddiadau rhieni/gofalwyr o'u sgiliau magu plant wedi newid yn ystod yr ymyriad. • Deall % y plant Dechrau'n Deg yr aseswyd eu bod yn perfformio yn ôl eu norm datblygiadol neu'n well.	• Fel y bydd cynifer o blant cymwys a'u teuluoedd â phosib yn elwa o'r gefnogaeth addysgol a chymdeithasol. • Mesur pwysig o ganfyddiad rhieni a gofalwyr o sut mae eu sgiliau magu plant, ymddygiad eu plant, a'u hunan-barch a'u hyder wedi gwella yn ystod yr ymyriad. • Fel y bydd ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd yn gallu ymateb mewn modd priodol er mwyn helpu i wella canlyniadau.

B. Cefnogi gwell presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr 3 i 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial.

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Gwella presenoldeb mewn ysgolion. • Gwella sgiliau llythrennedd a darllen plant. • Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.	• Os nad yw plant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, ni fyddant yn cyflawni eu potensial addysgol. • Os llwyddir i gynyddu canran y disgyblion sy'n perfformio'n dda yn yr asesiad Cymraeg neu Saesneg, bydd hyn yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pob dysgwr o ran gallu darllen, ysgrifennu a bod yn rhifog er mwyn llwyddo yn yr ysgol a'r tu hwnt. • Darparu cyfleoedd i ddisgyblion sy'n eu helpu i wella'r sgiliau sylfaenol y mae eu hangen ar bob darllenwr fel y bydd pob disgybl yn gallu darllen, ysgrifennu a bod yn rhifog.

C. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd).

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Lleihau nifer y plant sy'n dod i'r system gofal mewn modd diogel. • Lleihau cyfradd ailgyfeiriadau at Wasanaethau Plant a Theuluoedd a nifer y plant y mae angen ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol arnynt. • Gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl o ddod i mewn i'r system gofal. • Cynyddu canran y plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe a gefnogir mewn lleoliad teulu a gofal maeth yn hytrach na gofal preswyl.	• Fel na fydd plant yn dod i'r system gofal oni bai mai hwn, mewn gwirionedd, yw'r opsiwn gorau neu'r unig opsiwn i ddiogelu neu hyrwyddo eu hiechyd neu eu lles. • I sicrhau bod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gwneud eu gwaith mwyaf effeithiol gyda'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sydd yn yr angen mwyaf. • Er mwyn i blant osgoi'r angen am ddod i'r system gofal a chael eu cefnogi drwy opsiynau diogel a phriodol. • I sicrhau'r lleoliad cywir ar yr adeg gywir a chyflawni canlyniadau gwell i blant.

Ch. Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol.

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Cynyddu nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol a'r Tu Hwnt i Frics a Morter yn eu contractau. • Cynyddu nifer y bobl sy'n cael swyddi o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiect Gweithffyrdd. • Cynyddu boddhad â'r gwasanaeth caniatâd cynllunio ymhlith ymgeiswyr a thrydydd partïon. • Cynyddu canran yr holl geisiadau sylweddol a bach sy'n cael eu cymeradwyo a chanddynt ysgogiad economaidd.	• Er mwyn rhoi cyfleoedd profiad gwaith, hyfforddiant a chyflogaeth i'r di-waith a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd. • I ymgysylltu â'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd a'r di-waith tymor hir a helpu i'w cefnogi i ddychwelyd i gyflogaeth. • Mae gwasanaeth cynllunio o safon yn bwysig wrth feithrin hyder datblygwyr a buddsoddwyr i fuddsoddi yn Abertawe er mwyn datblygu sectorau allweddol yr economi leol. • Er mwyn cyflawni cynlluniau sy'n cynorthwyo datblygiad economaidd yn llwyddiannus.

D. Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau.

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Rhagor o staff y cyngor i dderbyn hyfforddiant priodol i'w rôl mewn cyngor ar hawliau lles/budd-daliadau.	• Er mwyn i ganran fwy o drigolion Abertawe dderbyn cyngor a chefnogaeth i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i dderbyn y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.
• Cynyddu nifer staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd.	• Er mwyn helpu i gynyddu gallu ariannol yr Undeb Credyd ac annog mwy o drigolion Abertawe i ymaelodi ag ef fel y gall mwy o bobl fanteisio ar opsiynau credyd a chynilo cynaliadwy a fforddiadwy ac elwa ohonynt.
• Annog mwy o denantiaid y cyngor i ymaelodi â'r Undeb Credyd.	• I helpu tenantiaid i reoli eu harian a thalu eu rhent neu eu biliau'n brydlon mewn ymgais i'w hatal rhag mynd i ôl-ddyledion rhent ac anawsterau ariannol.
• Lleihau canran y gwarantau a weithredir yn erbyn tenantiaid y cyngor drwy gynnig cefnogaeth a chymorth ariannol.	• I helpu tenantiaid sydd mewn perygl o gael eu troi allan o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent sy'n waeth oherwydd dyled.
• Cynyddu nifer yr aelwydydd a oedd mewn perygl o fod yn ddigartrefedd y llwyddwyd i atal digartrefedd am 6 mis.	• I helpu pobl i gynnal sefydlogrwydd a diogelwch ar gyfer eu teuluoedd, diogelu eu hiechyd a'u lles ac atal eithrio cymdeithasol, gan leihau'r costau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwely a brecwast dros dro.

Dd. Gwella tai a chyflenwad tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da.

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Cynyddu nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd.	• I ddiwallu'r angen hysbys am dai fforddiadwy a chyfrannu at leihau digartrefedd a nifer y bobl sy'n parhau i fyw mewn llety anaddas a/neu anfforddiadwy.
• Lleihau nifer cartrefi'r cyngor sy'n wag.	• Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei stoc dai fel bod cynifer ohonynt â phosib yn cael eu meddiannu, gan helpu i

• Cynyddu canran tenantiaid y cyngor sy'n aros yn eu tenantiaethau am fwy na 2 flynedd.	ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy. • Er mwyn helpu i fanteisio i'r eithaf ar y stoc dai a helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau, gan wella sefydlogrwydd eu teuluoedd a chreu cymunedau mwy cydlynol i fyw ynddynt.

E. Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Cynyddu canran y bobl ifanc 11-16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ysgol.	• Er mwyn annog mwy o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed i barhau â'u gweithgareddau corfforol neu chwaraeon y tu allan i gwricwlwm yr ysgol er mwyn gwella cyfranogiad parhaus a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.
• Cynyddu canran y disgyblion blwyddyn 6 sy'n gallu nofio i'r safon ofynnol erbyn 11 oed.	• Bydd plant yn ddiogelach ger dŵr a byddant yn dysgu sgil bywyd a fydd yn hwyl ac yn cyfrannu at fabwysiadu ffordd iach o fyw.
• Cynyddu canran y bobl sy'n parhau'n actif 12 mis ar ôl cael eu cyfeirio at y cyngor gan ymarferwyr iechyd ac sy'n nodi bod eu hiechyd wedi gwella.	• I ddangos bod cyfranogwyr wedi mabwysiadu ffordd iachach fyw.
• Cynyddu nifer y lleoedd tyfu sydd ar gael.	• I annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain, ymdopi â phrisiau bwyd sy'n cynyddu a helpu i fynd i'r afael â thlodi. Bydd hyn yn hybu hunangynhaliaeth, cryfhau cymunedau a darparu gweithgaredd iach wrth hyrwyddo bwyta'n iachach.
• Cynyddu canran y disgyblion a nodwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol am ddim.	• I gynorthwyo dysgu a helpu i sicrhau lles disgyblion yn y dyfodol.

F. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion).

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Cynyddu canran yr achosion lle mae'r risg wedi cael ei rheoli wrth ddiogelu oedolion diamddiffyn. • Cynyddu canran y bobl sy'n cael eu cefnogi i fod yn annibynnol. • Lleihau'r amser rhwng cwblhau cynllun gofal a darparu/gosod cymhorthion/cyfarpar. • Helpu cleientiaid i ddychwelyd adref ar ôl cyfnod o ailalluogi.	• Er mwyn meithrin cyfrifoldeb ar y cyd am ddiogelu ymhlith ein holl aelodau staff a chynyddu'r gallu i ymdopi â galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio. • I hyrwyddo annibyniaeth, diogelwch ac urddas defnyddwyr gwasanaeth. • I lleihau'r angen am dderbyniad i'r ysbyty neu ofal preswyl. • I ddarparu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y person a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd hefyd yn fwy cynaliadwy yn ariannol na gofal preswyl tymor hir.

Ff. Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu drwy hyrwyddo, gweithio ar y cyd ag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel

1. Beth rydym am ei gyflawni?	2. Pam mae hyn yn bwysig?
• Cynyddu canran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. • Cynyddu canran yr achosion o dipio sbwriel yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 niwrnod gwaith ar ôl adrodd amdanynt	• I gyflawni targedau gwastraff Llywodraeth Cymru, osgoi cosbau ariannol a helpu i gyfrannu at ddiogelu adnoddau prin. • Dylai gwella trefniadau casglu ac ailgylchu gwastraff gael effaith gadarnhaol ar leihau'r achosion o dipio anghyfreithlon a chyflymu'r broses o fynd i'r afael â digwyddiadau o'r fath.

Gweithredu dros Abertawe Well

Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/17

Wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2014/15

Rhan 2

A. Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol.

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Ceir tystiolaeth bod gofal ac addysg dda yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at ganlyniadau buddiol i blant a'u teuluoedd.

1. **Darpariaeth y blynyddoedd cynnar**

- Fel y nodir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan blant yr hawl i dderbyn darpariaeth sy'n eu galluogi i ddatblygu eu personoliaethau, eu doniau a'u galluoedd, ni waeth beth yw eu hethnigrwydd, eu diwylliant neu grefydd, iaith y cartref, cefndir y teulu, anawsterau dysgu, anabledd neu ryw.

- Ceir tystiolaeth ymchwil sylweddol sy'n amlygu'r buddion addysgol a chymdeithasol mae darpariaeth dda yn y blynyddoedd cynnar yn eu cynnig i blant a chymdeithas, yn enwedig plant o ardaloedd difreintiedig

- Mae canfyddiadau ymchwil yn awgrymu bod gofal ac addysg dda yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at welliannau o ran datblygiad iaith plant, eu perfformiad addysgol mewn mathemateg a darllen a gostyngiad o ran ymddygiad ymosodol.

- Mae plant sy'n mynd i leoliadau'r blynyddoedd cynnar yn fwy annibynnol ac yn canolbwyntio'n hwy ar chwarae ac, wrth ddechrau'r ysgol, maent yn fwy bodlon cydweithredu ac yn fwy parod am yr heriau maent yn eu hwynebu.

- Mae ymchwil hefyd yn dangos bod ansawdd darpariaeth yn cael effaith amlwg ar y canlyniadau i blant.

- Mae plant sy'n derbyn darpariaeth dda yn y blynyddoedd cynnar yn fwy tebygol o fynd i sefydliadau addysg uwch a chael swyddi da.

2. **Dechrau'n Deg**

- Rhaglen amlasiantaeth yw Dechrau'n Deg a'i nod yw gwella canlyniadau ar gyfer plant dan 4 oed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

- Gall plant a'u teuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd cymwys dderbyn amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

    - Ymweliadau iechyd ychwanegol;
    - Cefnogaeth Partneriaeth Teulu drwy raglenni grŵp a/neu ymyriadau unigol;
    - Cefnogaeth datblygiad iaith cynnar;
    - Gofal plant rhan-amser o safon am ddim i bob plentyn 2 oed, am 2.5 awr y dydd, 5 niwrnod yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn, ynghyd â 15 niwrnod o ofal plant/gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol.

- Mae model cyflwyno Abertawe'n seiliedig ar sefydlu lleoliadau Dechrau'n Deg penodol o fewn ysgolion cynradd, gan sicrhau bod staff yn cael eu cydleoli a bod darpariaeth ddi-fwlch i'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Fel y nodwyd yng Ngwerthusiad Interim Dechrau'n Deg - SQW 2010.

"mae gwaith amlasiantaeth/gweihio ar y cyd wedi gwella effeithiolrwydd yn sylweddol ac wedi cynorthwyo wrth gyflawni nodau cyffredinol y rhaglen. Yn ogystal â gwella mynediad i wasanaethau drwy gydleoli a chyflwyno ar y cyd, llwyddwyd hefyd i gydlynu a dod â'r ystod o sgiliau, gwybodaeth a safbwyntiau ynghyd sy'n angenrheidiol i alluogi'r rhaglen i nodi a diwallu anghenion - darparu ymyriadau ac atebion wedi'u teilwra er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a'r gefnogaeth fwyaf addas ar waith."

- Ar hyn o bryd mae rhaglen Dechrau'n Deg yn mynd drwy gam ehangu sylweddol, a fydd yn dyblu nifer y plant a fydd yn elwa ohono. Erbyn 2015, bydd 2,659 o blant 0-3 oed yn Abertawe sy'n byw yn yr ardaloedd cymwys yn elwa o fenter Dechrau'n Deg, a darperir tua 600 o leoedd gofal i blant 2 oed. Rhagwelir y bydd trydydd cam ehangu hefyd ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r holl fanylion eto.

- Oherwydd graddfa'r ehangu, mae gwella canlyniadau neu gynnal y canlyniadau presennol hyd yn oed yn her anferth. Mae rhagamcanion gwasanaethau wedi cael eu diwygio i adlewyrchu hyn.

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Mae'r Blynyddoedd Cynnar yn un o flaenoriaethau'r cyngor ac mae o fewn cylch gorchwyl Cynllun Un Abertawe (Canlyniad A: dechrau da mewn bywyd i blant; Canlyniad B: mae plant a phobl ifanc yn dysgu'n llwyddiannus) a'n cytundeb canlyniadau (Canlyniad 2: Gwella Profiad y Blynyddoedd Cynnar) gyda Llywodraeth Cymru.

- Rhaglen Llywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg ac mae'n cyfrannu at yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir i gefnogi plant yn ystod y blynyddoedd cynnar.

- Y cyngor sy'n arwain y gwaith o gydlynu rhaglen Dechrau'n Deg gan gynnwys:

    - dod â'r gwahanol wasanaethau a disgyblaethau ynghyd ar draws yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd, ysgolion a'r trydydd sector er mwyn datblygu rhaglenni wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol plant ifanc a'u teuluoedd.
    - Sefydlu ac estyn rhaglen Dechrau'n Deg i ardaloedd newydd.
    - Darparu rhai o'r gwasanaethau yn uniongyrchol.

- Mae'r cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i annog cynifer o deuluoedd cymwys â phosib i fanteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg, gan gynnwys gofal plant i bob plentyn 2 oed, oherwydd drwy sicrhau presenoldeb uchel mewn lleoliad gofal plant, gallwn gefnogi plant i gyflawni eu potensial datblygu.

A1. Presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg

Nod: O leiaf cynnal presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg.

Mesur: % presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg

Perfformiad Blaenorol					Rhagamcaniad		
2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
-	-	-	79%	**i'w gadarnhau**	**80%**	**80%**	**80%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae cynnal presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg a'i wella'n raddol yn bwysig er mwyn i gynifer â phosib o blant cymwys a'u teuluoedd elwa o'r gefnogaeth addysgol a chymdeithasol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Nid yw mynd i leoliad gofal plant Dechrau'n Deg yn orfodol; fodd bynnag, mae'n rhoi cyfle i blant ifanc wella eu datblygiad yn y flwyddyn cyn dechrau yn y Dosbarth Meithrin.

- Yn yr ardaloedd lle mae lleoliadau Dechrau'n Deg newydd wedi'u sefydlu, yr her gychwynnol fydd ymgysylltu â theuluoedd yn yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, drwy ehangu i ardaloedd llai defreintiedig/â chanran uwch o rieni sy'n gweithio na'r ardaloedd cam 1, rhagwelir y bydd trefniadau gofal plant eisoes gan lawer o rieni ac felly ni fydd angen iddynt fanteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg neu ni fyddant yn dewis gwneud hynny.

- Y prif reswm dros absenoldeb yw salwch, yn enwedig afiechydon â chyfnod heintus megis brech yr ieir a'r frech goch, diwrnodau HMS ysgolion a gwyliau'r haf.

- Ni ddisgwylir y bydd presenoldeb yn gwella bob blwyddyn gan y bydd plant gwahanol sy'n gymwys oherwydd oedran (2 - 3 oed) yn mynd i'r lleoliad gofal plant bob blwyddyn.

- Gwelwyd gostyngiad arall mewn absenoldeb heb ganiatâd yn y flwyddyn ddiwethaf.

  - Yn ystod 2012/13, roedd 4% o'r lleoedd gwag ar gael oherwydd absenoldeb heb ganiatâd. Nodwyd bod hyn yn broblem mewn rhai lleoliadau ac aed i'r afael â hyn yn uniongyrchol gan yr holl reolwyr mewn cyfarfodydd rheolaidd. Y canlyniad oedd rhannu arfer da a mabwysiadu proses gyson.
  - Erbyn tymor cyntaf 2013/14, roedd hyn wedi gostwng i 3%.
  - Erbyn ail dymor 2013/14, roedd wedi gostwng eto i 2%.

- Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon ar gyfraddau presenoldeb mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn Abertawe. Credwn fod hyn yn deillio'n bennaf o'r model o

leoliadau arbenigol sy'n cyflawni darpariaeth o safon uchel, yn ogystal â'r ffaith bod gwasanaethau eraill ar gael yn yr un lleoliad.

- Oherwydd y ffactorau disgwyliedig sy'n effeithio ar bresenoldeb mewn lleoliadau cyn-ysgol ac ehangu i ardaloedd newydd, y pwyslais yn y dyfodol fydd ar geisio cynnal y presenoldeb a gyflawnwyd yn ystod 2014/15. Yn ddelfrydol, y cynllun fyddai cymryd camau bach i wella'r perfformiad, gan gynnwys targedu'r rhai sy'n absennol yn fynych.

- Fodd bynnag, rhagwelwn na fydd modd cyflawni hyn nes bod y rhaglen wedi'i sefydlu'n llwyr ac mae pob lleoliad gofal plant yn gwbl weithredol. Er enghraifft, yn y lleoliadau sydd newydd gael eu hehangu, mae lleoedd gofal plant yn cael eu cynnig i rieni yn raddol; oherwydd hyn mae'n cymryd amser i leoliadau gofal plant weithredu i'r eithaf, gan gynnwys amser i staff a rhieni addasu i'r gwasanaethau newydd sy'n cael eu cynnig. Wrth i leoliadau gofal plant newydd gael eu sefydlu, mae staff o leoliadau gofal plant sefydledig yn ceisio am y swyddi newydd sy'n cael eu hysbysebu yn y lleoliadau newydd. Mae hyn yn effeithio ar sefydlogrwydd y lleoliadau gofal plant hyn pan fydd staff newydd yn cael eu recriwtio.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Lleoliadau gofal plant arbenigol mewn ysgolion a staff wedi'u cydleoli o dimau eraill.

- Gweithredu ynghylch absenoldeb drwy ffonio'r teulu neu anfon neges destun cyn trefnu ymweliad gan y rheolwr gofal plant a/neu'r ymwelydd iechyd.

- Cwblhau'r asesiad olrhain datblygiad ar gyfer pob plentyn er mwyn cofnodi ei ddatblygiad unigol.

- Cyfarfodydd rheolwyr gofal plant rheolaidd er mwyn rhannu arfer da a nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy.

- Y cyfarfodydd sicrhau ansawdd newydd a gynhelir bob tymor a'r cyfarfodydd monitro misol sy'n defnyddio ymagwedd amlasiantaeth ym mhob lleoliad Dechrau'n Deg. Mae'r cyfarfodydd yn trafod ac yn cynllunio achosion unigol, gan gynnwys ystyried teuluoedd y mae'n anodd cysylltu â hwy neu mae presenoldeb plentyn yn achosi pryder. Mae'r tîm yn mynd i'r afael â phryderon drwy ymagwedd datrys problemau gan gynnwys chwilio am atebion creadigol.

- Y cyfarfodydd tîm Dechrau'n Deg misol newydd a gynhelir ym mhob ardal er mwyn sicrhau gwaith amlasiantaeth effeithiol rhwng y lleoliad gofal plant, y Tîm Partneriaeth Teulu, y Therapydd Iaith a Lleferydd a'r Ymwelydd Iechyd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Rhoi meddalwedd SIMS Capita ar waith i gofnodi presenoldeb mewn lleoliadau gofal plant. I fesur	Bydd hyn yn hwyluso dulliau cadarn ac amserol o adrodd ar bresenoldeb a'i olrhain wrth i'r plentyn symud drwy ei

presenoldeb plentyn a sicrhau bod cofnod o hyn ar gael o'i gyfnod mewn lleoliad Dechrau'n Deg ymlaen.	yrfa addysgol.

Beth?	**Pam?**
Defnyddio rhai o'r gwersi a ddysgwyd yn y cyfarfodydd sicrhau ansawdd er mwyn cyfeirio gwelliant yn y gwasanaethau.	Gwelliannau ar sail tystiolaeth.
Adolygu darpariaeth ar gyfer plant â diagnosis o anabledd neu un sy'n dechrau dod i'r amlwg.	I sicrhau bod y plant yn derbyn y gwasanaeth gofal plant mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion o fewn rhaglen Dechrau'n Deg.
Cyflwyno canllawiau craidd ar gyfer cofnodion presenoldeb plant yn mhob lleoliad gofal plant.	I sicrhau cysondeb ar draws lleoliadau er mwyn gwella dulliau cadw cofnodion gan staff a hefyd i wella'r broses o reoli presenoldeb.
Cofnodir datblygiad plant ar 'olrheinwyr' i ddangos y cynnydd a gyflawnwyd yn ystod eu cyfnod mewn lleoliad Dechrau'n Deg. Cyflwynir rhaglen olrhain a dadansoddi datblygiad yn electronig.	Er mwyn darparu darlun clir o'r cynnydd a gyflawnwyd gan bob plentyn unigol i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu, i gynorthwyo symud i'r meithrin a galluogi cymharu meysydd datblygiad.

A2. Gwell Sgiliau Magu Plant

Nod: Mesur cynnydd rhieni a'u canfyddiadau o'r gwelliant yn eu sgiliau magu plant yn ystod yr ymyriad. I alluogi rhieni i wella eu sgiliau wrth gefnogi eu plentyn/plant.

Mesur: % y rhieni/gofalwyr sy'n sôn am gynnydd (gwelliant) cadarnhaol ar ddiwedd rhaglen magu plant Dechrau'n Deg.

Data Sylfaen						Rhagamcaniad		
	2009 -10	2010 -11	2011 -12	2012 -13	2013-14	2014 -15	2015 -16	2016 -17
Hunan-barch a hyder	30%	21%	15%	13%	**I'W GADARNHAU**	**I'W GADARNHAU**		
Sgiliau Magu Plant	26%	26%	10%	12%				
Ymddygiad y plant	25%	21%	15%	9%				

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae meithrin ffactorau gwydnwch mewn teuluoedd yn un o brif flaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Bydd y Seren Canlyniadau Lles ac Ymddygiad (offeryn sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos faint o gynnydd mae rhywun wedi'i wneud ac yn darparu darlun gwell o ganfyddiadau rhieni o'r newidiadau yn eu teulu ar ôl yr ymyriad a gweithgareddau) yn darparu dangosyddion a fydd yn gwella'n dealltwriaeth o ganfyddiadau rhieni o'r newidiadau yn eu teulu ar ôl yr ymyriad. Gyda phob teulu, byddwn yn canolbwyntio ar sgiliau magu plant, ymddygiad y plant, hunan-barch a hyder.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r offeryn canlyniadau a ddefnyddir wedi cael ei newid er mwyn i'r gwasanaeth fod yn gyson ag ymagwedd Tîm am y Teulu a darparu proses ddi-fwlch pan fydd angen gwasanaethau ychwanegol. Er enghraifft, mae hyn yn golygu na fydd angen i deuluoedd ddarparu'r un wybodaeth ddwywaith pan nodir angen ychwanegol a bydd yn golygu cysondeb wrth gyflwyno'r holl wasanaethau.

- Nod elfen magu plant Dechrau'n Deg yw darparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r offer y mae eu hangen ar deuluoedd i ddatrys problemau a rheoli eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad eu plant yn well. Mae rhieni'n nodi gwell hunan-barch a hyder fel y newid pwysicaf maent wedi sylwi arno.

- Yn ystod 2013/14, canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r gwasanaeth a chyflwynwyd rhai elfennau newydd. Er enghraifft, bydd pob rhaglen bellach yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i wella dealltwriaeth rhieni o'i egwyddorion allweddol.

- Wrth i'r rhaglen ehangu i ardaloedd newydd, yr her gychwynnol fydd ymgysylltu â theuluoedd yn yr ardaloedd hyn. Mae angen amser i gyflwyno gwasanaeth newydd i ardal newydd.

- Bydd y cynnydd a gyflawnir yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y bydd teuluoedd yn dechrau o fannau gwahanol ar y raddfa. Er enghraifft, mewn cyfarfod sicrhau ansawdd a gynhaliwyd yn un o'r ardaloedd Dechrau'n Deg newydd, nodwyd bod problemau ac anghenion teuluoedd yn gyffredinol yn achosi llai o bryder nag mewn ardaloedd Dechrau'n Deg eraill. Yn ogystal, roedd llythrennedd emosiynol, hyder rhieni a sgiliau magu plant yn well. Bydd teuluoedd yn yr ardal hon yn rhoi sgorau uwch i'w hunain a bydd yr ymyriad yn llawer byrrach nag ar gyfer ardaloedd eraill sy'n derbyn gwasanaeth hwy a dwysach.

- Caiff data 2013-14 ei ddadansoddi ar ddiwedd y flwyddyn a bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu ac addasu darpariaeth Dechrau'n deg ymhellach ar gyfer 2014/15 a'r tu hwnt.

- Er gwaethaf y cynnydd a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf gan raglen Dechrau'n Deg, mae datblygiad iaith cynnar yn parhau'n un o'r blaenoriaethau ar gyfer plant yn yr ardaloedd targed yn Abertawe. Felly, mae'r cysylltiad rhwng y gwahanol wasanaethau o fewn Dechrau'n Deg yn hollbwysig.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Amrywiaeth o raglenni a gyflwynir gan y tîm magu plant a'i bartneriaid sy'n cynnig cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth y gellir ei haddasu i ddiwallu anghenion teuluoedd unigol.

- Sicrhau bod staff yn cael mynediad i hyfforddiant sy'n rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r offer iddynt i gefnogi teuluoedd yn effeithiol.

- Cyfarfodydd sicrhau ansawdd bob tymor a chyfarfodydd monitro misol, gan ddefnyddio ymagwedd amlasiantaeth ym mhob lleoliad Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn gyfle i drafod a chynllunio achosion unigol fel y gellir datblygu ymagwedd tîm er mwyn cefnogi materion a nodir a fydd yn helpu i wella canlyniadau ar gyfer plant ifanc a'u teuluoedd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Rhagor o waith ehangu a gweithio gyda theuluoedd yn yr ardaloedd hyn. Ymgorffori'r ymagwedd amlasiantaeth yn rhaglen ehangu Dechrau'n Deg ac adolygu'r cyfarfodydd cynllunio ar y cyd ac adeiladu arnynt.	Er mwyn gwella canlyniadau i blant a'u teuluoedd drwy ganolbwyntio ar gynnwys teuluoedd mor gynnar â phosib yn eu gyrfa magu plant er mwyn datblygu eu gallu i ymdopi ac osgoi'r angen am ddarparu gwasanaethau statudol iddynt.
Lansio gwefan Dechrau'n Deg	I'w gwneud yn hwylus i deuluoedd/gofalwyr gael gafael ar wybodaeth a hyrwyddo ardaloedd ehangu newydd.
Rhoi'r offer newydd ar gyfer mesur cynnydd ar waith a'u dadansoddi er mwyn mesur y gwelliant yn sgiliau magu plant, ymddygiad plant a hyder.	Er mwyn i ni allu mesur effaith y gwasanaethau ar wella canlyniadau i blant ifanc a'u teuluoedd.
Datblygu llwybr cefnogi i rieni, hyrwyddo datblygiad iaith cynnar a gwella ymlyniad rhwng y rhieni a'r plentyn. Bydd pob tîm Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth i greu calendr o raglenni a fydd ar gael yn hwylus i bob teulu cyn ac ar ôl geni'r plentyn. Bydd cynllun peilot yn dechrau yn Townhill, sef un o'r ardaloedd targed.	I'n galluogi i nodi angen yn gynnar am gefnogaeth datblygiad iaith cynnar a darparu ymateb. Bydd hyn hefyd yn rhoi llwybr cefnogaeth i'r holl deuluoedd sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg, gan sicrhau bod plant yn derbyn y gefnogaeth orau sydd ar gael iddynt ar yr adeg gywir.

A3. Plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd y norm datblygiadol neu'n well

Nod: Helpu plant Dechrau'n Deg i gyflawni eu potensial o ran y norm datblygiadol. Dylai pob plentyn feddu ar sgiliau a galluoedd penodol wrth gyrraedd oedrannau penodol.

Mesur: % y plant Dechrau'n Deg yr asesir eu bod wedi cyrraedd eu norm datblygiadol neu'n well.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2009-10	2010-11	2011-12[2]	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
2 + oed	-	-	43.78%	52%	**i'w gadarnhau**	**Yn y dyfodol ni fyddwn, o angenrheidrwydd, yn disgwyl gwelliant blynyddol oherwydd bod pob carfan o blant, o flwyddyn i flwyddyn, yn cynnwys plant gwahanol a chanddynt anghenion unigol gwahanol.**		
3 oed	-	-	53.57%	64%	**i'w gadarnhau**			

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae'n bwysig asesu datblygiad plant ar adegau addas yn eu blynyddoedd cynnar fel y gall ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd ymateb yn briodol er mwyn helpu i wella canlyniadau.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Yn unol ag arweiniad strategol Llywodraeth Cymru o ran Dechrau'n Deg, mae pob plentyn sy'n gymwys i gymryd rhan yn cael asesiad datblygiadol trylwyr o leiaf pan fydd yn 2 oed ac yn 3 oed. Mae hyn yn dangos datblygiad go iawn y plentyn o'i gymharu â'r hyn y dylai fod am yr oedran hwnnw. Yn y dyfodol ni fyddwn, o angenrheidrwydd, yn disgwyl gwelliant blynyddol oherwydd bod pob carfan o blant, o flwyddyn i flwyddyn, yn cynnwys plant gwahanol ag anghenion unigol gwahanol

- Bydd yr asesiad pan fydd y plentyn yn 2 oed ac yn 3 oed yn helpu'r ymwelydd iechyd i nodi'r rhai y mae angen cefnogaeth a dargedir arnynt ac yn achosi cyfeiriad at wasanaeth penodol, e.e. Therapi Lleferydd ac Iaith.

- Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12, nid oes set gyflawn o ddata ar gael ar gyfer asesiad datblygiadol yr Amserlen o Sgiliau Tyfu. Felly, mae data cyflawn ar gael o 2012/13 yn unig. Ni ddisgwylir y bydd set gyflawn o ddata cadarn ar gael nes bod y rhaglen wedi'i sefydlogi. Y rheswm dros hyn yw'r cymhlethdod

[2] Mae canlyniad 2011/12 yn seiliedig ar ddata anghyflawn o asesiad datblygiadol yr Amserlen o Sgiliau Tyfu.

sy'n gysylltiedig ag ehangu ar raddfa mor fawr mewn cyfnod mor fyr a'r heriau a wynebir, yn enwedig yn ystod cyfnodau ehangu o ran cwblhau asesiadau yn unol ag amserlen genedlaethol Dechrau'n Deg.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ailgyhoeddi'r normau datblygu ar gyfer 2012/13 oherwydd diffyg eglurder yn yr arweiniad. Felly, mae'r ffigurau yn y tabl uchod wedi cael eu cyfrifo eto er mwyn bod yn gyson â'r arweiniad newydd.

- Er gwaethaf y cynnydd a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf gan raglen Dechrau'n Deg, mae datblygiad iaith cynnar yn parhau'n un o'r blaenoriaethau ar gyfer plant yn yr ardaloedd targed yn Abertawe. Felly, mae'r cysylltiad rhwng y gwahanol wasanaethau o fewn Dechrau'n Deg yn hollbwysig.

- Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu caffael datblygiad Fframwaith Asesu Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Cymru gyfan, o enedigaeth i saith mlwydd oed. Mae'n bosib y bydd hyn yn effeithio ar y gallu i gymharu data o un flwyddyn i'r llall.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Ar ôl cwblhau'r Amserlen o Sgiliau Tyfu pan fydd plentyn yn 2 oed, mae unrhyw bryderon/amcanion/camau gweithredu'n cael eu rhannu â rheolwr gofal plant y lleoliad Dechrau'n Deg mae'r plentyn yn mynd iddo.

- Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng yr ymwelydd iechyd a'r rheolwr gofal plant i drafod cynnydd. Mae cydleoli'r ymwelydd iechyd a'r rheolwr gofal plant yn hwyluso'r cyfathrebu hwn sy'n hanfodol i wella cyrhaeddiad datblygiadol y plentyn.

- Cyfarfodydd sicrhau ansawdd bob tymor a chyfarfodydd monitro misol, gan ddefnyddio ymagwedd amlasiantaeth ym mhob lleoliad Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn gyfle i drafod a chynllunio achosion unigol fel y gellir datblygu ymagwedd tîm er mwyn cefnogi materion a nodir a fydd yn helpu i wella canlyniadau ar gyfer plant ifanc a'u teuluoedd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn sicrhau bod data'r Amserlen o Sgiliau Tyfu'n gadarn.	Er mwyn nodi unrhyw anghysondebau'n gynnar a llunio cynllun gweithredu yn unol â hyn.
Datblygu llwybr cefnogi i rieni, hyrwyddo datblygiad iaith cynnar a gwella ymlyniad rhwng y rhieni a'r plentyn. Bydd pob tîm Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth i greu calendr o raglenni a fydd ar gael yn hwylus i bob teulu cyn ac ar ôl geni'r plentyn. Bydd cynllun peilot yn dechrau yn Townhill, sef un o'r ardaloedd targed.	I'n galluogi i nodi angen yn gynnar am gefnogaeth datblygiad iaith cynnar a darparu ymateb. Bydd hyn hefyd yn rhoi llwybr cefnogaeth i'r holl deuluoedd sy'n rhan o raglen Dechrau'n Deg, gan sicrhau bod plant yn derbyn y gefnogaeth orau sydd ar gael iddynt ar yr adeg gywir.

B. Cefnogi gwell presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr 3 i 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial.

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Mae'n ymwneud â materion allweddol a chanddynt oblygiadau ar gyfer yr angen i wella presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol.

1. **Presenoldeb ysgol**:

- Ceir cysylltiad cryf sy'n dangos bod plant sy'n mynd i'r ysgol yn rheolaidd yn cynyddu eu cyfleoedd i wella eu cyrhaeddiad a chyflawni eu potensial llawn.

- Cafwyd gwelliant yn ffigurau presenoldeb Abertawe ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ym mlwyddyn academaidd 2011-12. Fodd bynnag, mae ffigurau ar gyfer ysgolion cynradd, o'u cymharu â'r rhai cenedlaethol, wedi gostwng.

- O ganlyniad, mae ysgolion â phresenoldeb isel wedi cael eu targedu i dderbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth Lles Addysg ac ymgynghorydd cyswllt yr awdurdod lleol.

- Yn genedlaethol, mae pob awdurdod lleol yn cymryd rhan mewn deialog gyda'r Uned Safonau Ysgolion ynghylch presenoldeb a darperir dadansoddiad a chamau gweithredu ar gyfer pob awdurdod.

2. **Cyrhaeddiad Addysgol**:

- Cafwyd gwelliant da o ran cyrhaeddiad a chyflawniad yn Abertawe dros y 5 mlynedd diwethaf ond bydd amddifadedd yn parhau i effeithio ar berfformiad oni bai y cynhelir y pwyslais ar welliant.

- Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn magu sgiliau llythrennedd (a rhifedd) da yn allweddol i'w cyfleoedd llwyddiant.

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Mae angen yr amgylchiadau a'r cyfleoedd gorau posib ar blant a phobl ifanc i fanteisio ar addysg gyflawn ac eang er mwyn iddynt gyflawni eu potensial. Os nad ydym yn sicrhau hyn, gall plant a phobl ifanc adael yr ysgol heb gymwysterau cydnabyddedig, a gall hynny eu harwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol, bod yn ddi-waith â rhagolygon gwael, ac yna mynd i dlodi.

- Y cam cyntaf er mwyn osgoi hyn yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn y lle cyntaf a bod ganddynt y gefnogaeth a'r amgylchiadau angenrheidiol gartref i lwyddo.

- Pan fyddant yn yr ysgol, dylid ennyn diddordeb y plant drwy arferion dysgu ac addysgu effeithiol sydd â'r nod o wella sgiliau llythrennedd a rhifedd.

- Bydd y camau hyn yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau, neu â chymwysterau gwael, a chynyddu'r nifer sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Bydd hyn yn ei dro'n helpu i dorri cylch eithrio cymdeithasol a thlodi

B1. Presenoldeb Ysgol

Nod: Cynyddu presenoldeb ysgol

Mesur: (EDU/016a a b)% presenoldeb disgyblion mewn a) ysgolion cynradd b) ysgolion uwchradd

	Perfformiad Blaenorol					Rhagamcaniad			
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Cynradd	92.4%	92.33%	92.93%	93.3%	93.5% Gwir 93.0%	**94.1%**	**94.2%**	**94.3%**	**94.4%**
Uwchradd	90.7%	90.6%	91%	92%	92.2% Gwir 92.3%	**93.3%**	**93.4%**	**93.5%**	**93.6%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Os nad yw plant yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, ni fyddant yn cyflawni eu potensial addysgol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- I wella presenoldeb mae angen gwaith caled gan yr ysgolion, systemau sydd wedi'u datblygu'n dda a chefnogaeth gan rieni/gofalwyr.

- Yn aml, mae gwelliannau'n fach o ran canran a gellir effeithio arnynt yn hawdd gan bethau megis pobl yn tynnu eu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau neu achosion o'r frech goch.

- Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gwelwyd pwyslais go iawn ar wella presenoldeb ysgol, yn genedlaethol, gan awdurdodau lleol a chan ysgolion. Cafwyd llawer mwy o bwyslais ar ddadansoddi data a pherfformiad cymharol. Yn ystod 2011-2012, gwelwyd gwelliannau da ym mhresenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe. Fodd bynnag, mae'r holl awdurdodau'n gwella ac yn gyflymach nag Abertawe. Gwelwyd gwelliant o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn 2012-13, ond nid oedd gwelliant o'i gymharu ag awdurdodau eraill Cymru. Gwelwyd gostyngiad o ran presenoldeb mewn ysgolion cynradd, ac mae'r awdurdod yn rhannu'r safle olaf o'i gymharu ag awdurdodau eraill Cymru.

- Gwelwyd tuedd gadarnhaol o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn Abertawe dros y pum mlynedd diwethaf ond roedd y duedd mewn ysgolion cynradd, dros yr un cyfnod, yn gymharol ddigyfnewid. Roedd Abertawe yn y 15fed safle o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru ar gyfer presenoldeb ysgolion uwchradd yn 2011-12 a 2012-13. Roedd yr awdurdod yn yr 17eg safle yn 2011-12 o ran presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac yn rhannu'r 20fed safle (olaf) yn 2012-2013.

- Wrth gymharu perfformiad grwpiau o ysgolion tebyg, roedd 36% (5/14) o ysgolion uwchradd yn hanner uchaf eu grŵp yn 2012-13 sy'n ostyngiad o'r 60% (8/14) a oedd yn yr hanner uchaf yn y flwyddyn flaenorol.

- Wrth gymharu presenoldeb ysgolion cynradd ag ysgolion tebyg ar draws Cymru, 22% (17/78) yn unig a oedd yn hanner uchaf eu grŵp. Mae hyn yn golygu bod 78% (61) o ysgolion cynradd yn hanner isaf eu grŵp, gyda 52.6% (41) yn y 25% isaf ar hyn o bryd.

- Mae'r awdurdod lleol a rhai o'r ysgolion yn ymwybodol o'r mathau o weithredu sy'n gwella presenoldeb. Rhennir arfer da rhwng ysgolion ac ymarferwyr, mewn seminarau gwella presenoldeb er enghraifft a thrwy gysylltiadau anffurfiol rhwng ysgolion.

- Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu dadansoddiadau manwl o ddata presenoldeb cenedlaethol, lleol, awdurdodau lleol ac ysgolion yn y Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb a gyhoeddir yn flynyddol. Mae'r data hwn a'r dadansoddiad ohono'n cyfrannu at wella dealltwriaeth ysgolion o'u patrymau presenoldeb ac yn darparu ffocws ychwanegol ar y pwnc ar gyfer ysgolion a'r awdurdod lleol.

- Cyflwynwyd codau diwygiedig ar gyfer presenoldeb ysgol yn 2010 (Mehefin). Mae'r rhain wedi gwella dealltwriaeth o'r codau a ddynodir i bresenoldeb ysgolion drwy Gymru, sydd wedi gwella cysondeb rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae presenoldeb ysgol ymysg yr elfennau sy'n cyfrannu at fand perfformiad cenedlaethol ysgol uwchradd.

- I grynhoi, mae'r pwyslais ar bresenoldeb wedi cynyddu bellach ar bob lefel. Ar y cyd â data a dadansoddiad mwy soffistigedig, mae hyn yn galluogi ysgolion a gwasanaethau cefnogi awdurdodau lleol i dargedu a chynllunio'n fwy effeithiol. Mae arwyddion cynnar ym mlwyddyn academaidd 2013-14 yn dangos tuedd gynyddol ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae presenoldeb bellach yn ffocws ac yn flaenoriaeth bendant ar gyfer ysgolion, a chefnogir hyn gan y pwyslais newydd ar bresenoldeb yn arolygiadau Estyn;
- Mae ysgolion yn deall eu perfformiad absoliwt a chymharol yn well;
- Mae ysgolion wedi adolygu eu gweithdrefnau presenoldeb gan ddefnyddio'r Hunanwerthusiad Presenoldeb ac wedi cwblhau cynlluniau gweithredu presenoldeb yn unol â'r arweiniad;
- Mae ysgolion yn deall yn well yr hyn mae angen iddynt ei wneud i wella presenoldeb drwy ddata, gwybodaeth a rhannu arfer da;
- Mewn llawer o ysgolion, mae perthnasoedd da rhwng yr ysgol, rhieni, disgyblion ac asiantaethau eraill, sy'n cyfrannu at bresenoldeb gwell;
- Mae Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol wedi creu dulliau mwy cynhwysfawr a soffistigedig o ddadansoddi a gwerthuso data;
- Dosbarthwyd arweiniad i ysgolion ar y Codau Presenoldeb newydd er mwyn sicrhau cofnodi cywir; ac
- Mae gwaith a dargedir gan swyddogion lles addysg a gweithwyr prosiect i gefnogi ysgolion a disgyblion â phroblemau presenoldeb wedi arwain at welliant mewn sawl ysgol gynradd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Gwella presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.	Er mwyn helpu i wella presenoldeb ysgol.
Lleihau nifer yr ysgolion sydd yn hanner isaf eu grŵp o ysgolion tebyg.	
Parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i bennu targedau presenoldeb cytunedig a heriol	
Parhau i ddarparu data a dadansoddiad clir i ysgolion ar eu perfformiad presenoldeb absoliwt a chymharol.	
Bydd arweinwyr system yn herio ysgolion ynghylch eu presenoldeb wrth iddynt weithio gydag ysgolion unigol.	

Beth?	Pam?
Rhannu arfer da rhwng ysgolion drwy ddeialog gyda phenaethiaid unigol.	Er mwyn helpu i wella presenoldeb ysgol.
Darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol ym maes presenoldeb.	
Nodi'r ysgolion â'r perfformiad gwaethaf a chynnal adolygiadau ar y cyd o'u gwerthusiadau, eu cynlluniau gweithredu a'u systemau presenoldeb.	
Cyflwyno hysbysiadau cosb i rieni os yw eu plant yn absennol o'r ysgol heb ganiatâd, yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.	

B2. Gwella Llythrennedd

Nod: Gwella cyfraddau llythrennedd plant

Mesur: Cyrhaeddiad mewn Cymraeg neu Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

	Perfformiad Blaenorol				Rhagamcaniadau		
SAESNEG	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Cyfnod Sylfaen	-	81.3%	81.6%	**83.4%**	**84.4%**	**85.4%**	**86.4%**
Lefel 4+ CA2	83.8%	86.2%	87.4%	**89.4%**	**90.4%**	**91.4%**	**91.4%**
Lefel 5+ CA3	76.8%	80.2%	82.3%	**85.8%**	**86.8%**	**87.8%**	**88.8%**
Lefel 2 (A*- C) CA4	63.0%	64.7%	63.1%	**63.1%**	**63.6%**	**64.1%**	**64.6%**

	Perfformiad Blaenorol				Rhagamcaniadau		
CYMRAEG	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Cyfnod Sylfaen	93.3%	85.8%	89.4%	**89.6%**	**89.8%**	**90.0%**	**90.0%**
Lefel 4+ CA2	84.2%	90.6%	91.2%	**91.7%**	**91.7%**	**91.7%**	**91.7%**
Lefel 5+ CA3	82.0%	88.6%	87.6%	**86.0%**	**86.0%**	**86.0%**	**86.0%**
Lefel 2 (A* - C) CA4	86.1%	87.8%	87.2%	**87.2%**	**87.4%**	**87.6%**	**87.6%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd cynyddu canran y disgyblion sy'n perfformio'n dda yn yr asesiadau Cymraeg neu Saesneg, yn cyfrannu at ddiwallu anghenion pob dysgwr i allu darllen, ysgrifennu a bod yn rhifog er mwyn llwyddo yn yr ysgol a'r tu hwnt.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Cafwyd pwyslais cyson ar wella llythrennedd a rhifedd yn Abertawe ers diwedd y 1990au, a hynny mewn ymateb i bryderon am berfformiad disgyblion Abertawe a'r cysylltiad rhwng amddifadedd a lefelau llythrennedd isel.

- Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Abertawe wedi datblygu strategaeth llythrennedd newydd a weithredir mewn ysgolion lleol, sef yr *8 Ymddygiad Darllen*, sydd wedi bod yn effeithiol iawn; nod y strategaeth yw rhoi'r holl sgiliau i ddisgyblion y mae eu hangen arnynt i fod yn ddarllenwyr rhugl.

- Mae strategaethau ategol ar waith hefyd ar gyfer gwella parodrwydd i ddarllen ymhlith disgyblion ifanc iawn, gwella ysgrifennu a helpu disgyblion sydd ychydig yn is na'r perfformiad a ddisgwylir i 'ddal i fyny'.

- Mae'r pwyslais yn y strategaethau hyn ar ddarparu mwy o gefnogaeth i ysgolion a disgyblion yn yr ardaloedd amddifadedd uchel a dargedir ac mae'r ysgolion hefyd yn neilltuo arian Grant Effeithiolrwydd Ysgolion i lythrennedd (a rhifedd). Mae'r holl strategaethau llythrennedd wedi'u llunio i apelio at fechgyn ac mae ysgolion wedi sôn am gynnydd ym mrwdfrydedd bechgyn wrth ddarllen ac ysgrifennu. Yn ogystal, mae gwerth y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD/PDG) ar gyfer 2014-15 wedi dyblu. Caiff ei dargedu i gefnogi disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, gyda phwyslais penodol ar wella cyflawniad bechgyn.

- Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Fframwaith Llythrennedd (a Rhifedd) newydd sy'n newid pwyslais yr hyn sy'n cael ei brofi o 'Saesneg' i lythrennedd.

- Bellach, cynhelir profion llythrennedd (a rhifedd) cenedlaethol bob blwyddyn i holl ddisgyblion Cymru. Nid oedd y prawf darllen yn ddibynadwy yn 2013, felly gosodir gwaelodlin newydd i fesur llwyddiant yn ystod haf 2014. Tan hynny, ni fydd modd cymharu lefelau llythrennedd â rhai awdurdodau eraill. Oherwydd hyn, mae'r mesur sy'n gysylltiedig â'r nod hwn wedi'i newid o brofion darllen i berfformiad a gyhoeddir yn genedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg yn ystod pedwar cyfnod allweddol mewn addysg ffurfiol.

- Bydd prosesau asesu a chymedroli mwy cadarn yn ystod Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn helpu i gynyddu cyfradd y gwelliant mewn perfformiad.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae'r strategaeth llythrennedd leol wedi cyfrannu at y perfformiad da yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

- Yr 8 Ymddygiad Darllen, ynghyd â strategaethau eraill i ddatblygu sgiliau llythrennedd cynnar mewn meithrinfeydd a gwella ysgrifennu ar draws ysgolion.

- Mae arolygiadau ysgol gan Estyn wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am lythrennedd a rhifedd ac ni nodwyd unrhyw broblemau.

- Mae Llythrennedd Cymraeg yn dda ac yn cymharu'n dda iawn yn genedlaethol.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Targedu adnoddau yn ôl yr angen, e.e. ysgolion sy'n peri'r pryder mwyaf, ardaloedd/ysgolion â lefelau llythrennedd a rhifedd isel iawn, disgyblion â'r angen mwyaf mewn ysgolion.	Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc y cyfle i fod yn llythrennog, i gael mynediad i'r cwricwlwm a mynd ymlaen i gyflawni ei botensial.
Cynnal rhagor o adolygiadau rhanbarthol o lythrennedd (a rhifedd) mewn ysgolion a dargedir.	
Cefnogi ysgolion a chlystyrau i wella prosesau asesu yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.	
Gwella dulliau olrhain disgyblion pan fydd ymyriad wedi dod i ben er mwyn asesu cynnydd parhaus. (Argymhelliad Estyn)	
Hyfforddi athrawon a staff cynorthwyol mewn strategaethau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.	
Cefnogi datblygiad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol drwy rannu arfer effeithiol ym maes gwella sgiliau a pherfformiad ar draws ysgolion.	

B3. Gwella cyrhaeddiad

Nod: Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.

Mesur: (EDU/017) % y disgyblion sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.

Perfformiad Blaenorol (ystadegau Llywodraeth Cymru)						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
49.2%	52.1%	53.2%	54.6% Canlyniad LlC a gyhoeddwyd ar gyfer 2012	55% Gwir 55.3%	**56%**	**57%**	**58%**	**59%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Hoffai'r cyngor roi cyfleoedd i ddisgyblion sy'n eu helpu i wella'r sgiliau sylfaenol y mae eu hangen ar bob darllenwr fel y bydd pob disgybl yn gallu darllen, ysgrifennu a bod yn rhifog.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Ers y cyflwynwyd y 'Trothwy Lefel 2 Cynhwysol' (5 gradd A*- C mewn TGAU neu gymhwyster cyfwerth, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg) fel dangosydd cenedlaethol yn 2008, mae perfformiad cynyddol Abertawe a'i safle yn y tablau cenedlaethol wedi bod yn dda ac yn llawer gwell na'r disgwyl, sy'n dangos bod y pwyslais ar lythrennedd (a rhifedd) dros y 15 mlynedd diwethaf wedi bod yn effeithiol. Yn 2012/13, roedd Abertawe'n 9fed o'r holl awdurdodau yng Nghymru gyda chanlyniad o 55.3% o'i gymharu â chanlyniad Cymru, sef 52.7%.

- Cafwyd gostyngiad yng nghanlyniadau TGAU Abertawe a Chymru yn 2012/13. Cyn hynny, roedd ein perfformiad wedi bod yn gwella, gydag Abertawe yn y 6ed safle yng Nghymru yn 2011/12. Gwelwyd tuedd i wella mewn Mathemateg, gyda disgyblion yn cyflawni A* - C dros y 5 mlynedd diwethaf, sydd wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru.

- Yn 2013, cynyddodd sgôr Prawf Darllen Cymru Gyfan ar gyfer disgyblion 11 oed (Blwyddyn 7) i 100.3 (99.4 yn 2012) ond gwelwyd gostyngiad bach yn y sgôr ar gyfer disgyblion 7 oed (Blwyddyn 2) i 95.9 (96.4 yn 2012) er y cynhaliwyd y duedd i wella. Yn gyffredinol, roedd sgorau'r bechgyn 3 phwynt yn is na rhai'r merched. Roedd profion unigol yn 2012 wedi dangos bod y strategaeth llythrennedd yn effeithiol a chofnodwyd gwelliant sylweddol gan ddisgyblion a dargedwyd.

- Mae strategaethau i wella llythrennedd wedi bod ar waith ers diwedd y 1990au ac, yn y pedair blynedd diwethaf, mae Abertawe wedi datblygu strategaeth llythrennedd a weithredir mewn ysgolion, sef yr 8 Ymddygiad

Darllen. Mae hon wedi bod yn effeithiol iawn a chafodd ei chanmol gan Estyn pan arolygwyd yr awdurdod ym mis Mehefin 2013. Nod y strategaeth yw rhoi'r holl sgiliau i ddisgyblion y mae eu hangen arnynt i fod yn ddarllenwyr rhugl.

- Mae strategaethau ategol ar waith hefyd ar gyfer gwella parodrwydd i ddarllen ymhlith plant ifanc iawn, gwella ysgrifennu a helpu disgyblion sydd ychydig yn is na'r perfformiad a ddisgwylir i 'ddal i fyny'. Mae pwyslais y strategaethau hyn ar ddarparu mwy o gefnogaeth i ysgolion a disgyblion yn yr ardaloedd o amddifadedd uchel a dargedir. Mae ysgolion yn clustnodi arian o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

- Mae'r holl strategaethau llythrennedd wedi'u llunio i apelio at fechgyn ac mae ysgolion wedi sôn am gynnydd o ran brwdfrydedd bechgyn i ddarllen ac ysgrifennu. Yn ogystal, mae gwerth y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ar gyfer 2014-15 wedi dyblu. Caiff ei dargedu i gefnogi disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, gyda phwyslais penodol ar wella cyflawniad bechgyn.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd sy'n newid y pwyslais o 'Saesneg' i ddatblygu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ac o 'Fathemateg' i ddatblygu sgiliau rhifedd.

- Cyflwynwyd profion darllen a rhifedd blynyddol newydd ar gyfer holl ddisgyblion Cymru yn 2013. Fodd bynnag, cafwyd problemau wrth safoni'r prawf darllen cenedlaethol, felly gosodir gwaelodlin newydd i fesur llwyddiant yn ystod haf 2014.

- Bydd yr awdurdod yn parhau i ddatblygu'r strategaeth llythrennedd leol ar y cyd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol er mwyn helpu i wella llythrennedd a chyrhaeddiad addysgol. Datblygir y strategaeth leol dan arweiniad grŵp penaethiaid y clwstwr.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Yn hydref 2013, cydnabu Estyn y gwelliant mewn safonau yn Abertawe, yn enwedig rhai Cyfnod Allweddol 4. Cyflawnwyd y perfformiad disgwyliedig neu ragorwyd arno. Mae Estyn wedi canmol y strategaeth llythrennedd leol hefyd.

- Roedd Estyn yn cyfeirio at ysgolion uwchradd Abertawe fel modelau o arfer da mewn cynadleddau a dogfennau yn 2013.

- Mae'r awdurdod yn mabwysiadu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd Llywodraeth Cymru ac yn ymgorffori'r strategaeth llythrennedd effeithiol a weithredir mewn ysgolion, ynghyd â strategaethau eraill, ym mhob ysgol er mwyn helpu i wella safonau llythrennedd.

Cynhelir rhagor o adolygiadau llythrennedd a rhifedd rhanbarthol ar gyfer ysgolion a dargedir hefyd ac mae Abertawe'n defnyddio arian yn effeithiol i flaenoriaethu ysgolion.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	Pam?
Gwella cysondeb yr her i ysgolion er mwyn iddynt wella safonau.	Cydymffurfio ag argymhelliad Estyn.
Lleihau nifer yr ysgolion uwchradd sydd yn 50% isaf eu grŵp o ysgolion tebyg (3 yn 2012-2013) drwy bennu targedau sy'n ddigon heriol.	
Targedu adnoddau yn ôl yr angen, e.e. ysgolion sy'n peri'r pryder mwyaf, ardaloedd/ysgolion â lefelau llythrennedd a rhifedd isel iawn, disgyblion â'r angen mwyaf mewn ysgolion.	Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc y cyfle i fod yn llythrennog, i gael mynediad i'r cwricwlwm a mynd ymlaen i gyflawni ei botensial.
Hyfforddi athrawon a staff cefnogi mewn strategaethau llythrennedd a rhifedd.	
Hwyluso cefnogaeth ysgol i ysgol fel y rhennir arfer effeithiol ym maes gwella sgiliau a pherfformiad rhwng ysgolion ac awdurdodau.	

C. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Mae'n ymwneud â materion allweddol a chanddynt oblygiadau ar gyfer yr angen i wella gwasanaethau cymdeithasol i blant.

1. **Y cyd-destun lleol:**

- Mae gan Abertawe'r ail boblogaeth gyffredinol fwyaf o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru. Poblogaeth gyffredinol plant a phobl ifanc (0-17 oed) yn Abertawe yw 46,808 sef tua 20% o'r boblogaeth gyfan. Mae'r boblogaeth hon yn tyfu'n gyflym a rhagwelir y bydd yn cynyddu fel a ganlyn:

    - 2% rhwng 2013 a 2020
    - 5% rhwng 2011 a 2030.

- Mae'n debygol bod twf y boblogaeth gyffredinol yn Abertawe ‘n uwch na gweddill Cymru. Ar ben hyn, mae 12% o ardaloedd Abertawe ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae 25% o ardaloedd Abertawe ymysg yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae mwy o blant yn cael eu magu gyda thlodi uchel, oherwydd bod teuluoedd yn wynebu'r amodau cymdeithasol ac economaidd llym sy'n deillio o'r mesurau arbed arian a'r diwygiadau lles.

- Mae pob un o'r newidiadau hyn yn debygol o arwain at alw sylweddol uwch am yr holl wasanaethau i blant a phobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar gyfer plant ag anghenion cymdeithasol cymhleth.

- Casgliad arolwg annibynnol diweddar (mis Mai 2013) oedd y bu Abertawe'n:

    - Llwyddiannus iawn wrth leihau cyfradd y cyfeiriadau a'r ailgyfeiriadau at Ofal Cymdeithasol Plant
    - Llwyddiannus wrth reoli cyfradd y plant mewn angen
    - Llwyddiannus wrth gadw nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn gymharol isel a digyfnewid pan fo'r nifer wedi bod yn cynyddu'n sylweddol yng ngweddill y DU.
    - Llwyddiannus wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal i gael amrywiaeth o leoliadau sefydlog, gan gynnwys rhai parhaol.

- Mae angen o hyd i ni ganolbwyntio'n hymdrechion ar leihau nifer cyffredinol y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal er mwyn bod mewn sefyllfa well i helpu plant mewn angen drwy wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar.

- Mae rhai meysydd i'w gwella gan Gyngor Abertawe a'i bartneriaid:

    - Ein nod yw cyflawni'r canlyniadau gorau posib ar gyfer plant mewn angen: Rydym yn parhau i wneud cynnydd ym meysydd allweddol strategaeth pum mlynedd Abertawe ar gyfer lleihau PDG yn ddiogel.
    - Monitro poblogaeth y plant mewn angen ac effaith y diwygiadau lles ar deuluoedd yn Abertawe.

- Datblygu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar fin dod i'r system gofal.
- Gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phob ifanc sy'n agosáu at oedolaeth a'r rhai sy'n gadael gofal.

Cyfraniad y cyngor at welliant:

- Mae'r cyngor yn parchu hawliau pob plentyn, fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae'n ceisio hyrwyddo'r holl bethau mae eu hangen ar blant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.
- Mae'r cyngor am gyflawni'r canlyniadau gorau posib i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal er mwyn i bob un gyflawni ei botensial llawn a'r daith orau bosib mewn bywyd.
- Yn ei rôl fel rhiant corfforaethol, mae'r cyngor am wella iechyd a datblygu lles pob plentyn sy'n derbyn gofal.
- Mae'r cyngor am i blant ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol, cyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau eu hunain ac, ymhen amser, bod yn rhieni da i'w plant eu hunain.
- Mae'r cyngor am i bob plentyn fwynhau dysgu ac elwa o'r profiad.
- Mae'r cyngor am i blant brofi perthnasoedd cadarnhaol a theimlo bod pobl yn eu gwerthfawrogi ac yn eu caru am bwy yr ydynt.

C1. Lleihau nifer y plant mewn angen sy'n dod i'r system gofal.

Nod: lleihau nifer y plant mewn angen sy'n dod i'r system gofal.

Mesur: Nifer/% y plant sy'n dod i'r system gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n blant.

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14 i'w gadarnhau	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer y plant sy'n dod i'r system gofal	170	268	193	161	221	**167**	**160**	**150**	**140**
% y plant sy'n dod i'r system gofal (fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed)	37.4	59.01	42.80	35.39	47.21	**34**	**32**	**30**	**28**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae'r cyngor am i bob plentyn fod yn iach a chyflawni lles.
- Mae'r cyngor am gefnogi plant mewn angen yn lleol, mor agos at eu cartrefi â phosib lle bynnag y bo modd, lle gallwn eu cefnogi i fanteisio ar y gwasanaethau sy'n debygol o ddarparu'r canlyniadau gorau.
- Ni ddylai plant ddod i'r system gofal oni bai mai hwn, mewn gwirionedd, yw'r opsiwn gorau neu'r unig opsiwn i ddiogelu neu hyrwyddo eu hiechyd a'u lles.
- Mae'r term 'derbyn gofal' yn berthnasol i blentyn y mae'r awdurdod lleol yn darparu gofal a llety iddo, naill ai drwy orchymyn llys neu drwy gytundeb â rhiant neu geidwad y plentyn.
- Disgrifir rhai plant ag anableddau fel ‘plant sy'n derbyn gofal’ hefyd; er enghraifft, plant sy'n derbyn lleoliad arbenigol neu seibiannau byr rheolaidd pan fydd angen cefnogaeth statudol.
- Mae cyfran sylweddol o adnoddau'r cyngor yn cael ei dyrannu i nifer cymharol fach o blant yn y system gofal.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Llwyddwyd i leihau nifer y plant sy'n dod i'r system gofal eleni o ganlyniad i ymdrech sylweddol wrth weithredu'r strategaeth ar gyfer lleihau PDG yn ddiogel. Disgwylir cynnydd dros y 5 mlynedd ond awgryma perfformiad blaenorol na fydd modd ailadrodd y newidiadau sylweddol a welwyd eleni bob blwyddyn. Ceir nifer o blant o hyd y mae angen gofalu amdanynt y tu allan i'w teuluoedd naturiol. Mae'n rhaid i ni ddeall yn llawn y ffactorau sy'n cyfrannu at sefyllfa lle mae ang
- en i blentyn dderbyn gofal a'r rhesymau sy'n sail eu hanghenion. Mae plentyn yn dod i'r system gofal oherwydd amrywiaeth o achosion uniongyrchol megis cam-drin rhywiol, esgeulustod, gwrthdaro teuluol neu anawsterau ymddygiad. Yn aml gwelir cam-drin yn y cartref, tlodi, camddefnyddio sylweddau yn y teulu a theuluoedd yn chwalu neu gyfuniad o'r rhain.

- Ein blaenoriaeth bob amser yw sicrhau bod y plentyn yn ddiogel, ei fod yn cael ei amddiffyn a sicrhau y cytunir ar gynllun ar gyfer sefydlogrwydd ym mywyd pob plentyn sy'n derbyn gofal cyn gynted â phosib. Newidiwyd y rhagamcanion i adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a wnaed eleni, yn ogystal â'r cynnydd o 2% a ragwelir yn nifer y plant (0-17 oed) yn Abertawe erbyn 2020.

- Mae'r galw am wasanaethau plant a theuluoedd yn gallu cynyddu'n sylweddol a heb rybudd, er enghraifft gall fod angen darparu lleoliad i grŵp mawr o frodyr a chwiorydd heb fawr o rybudd, felly mae'n hanfodol bod gennym strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal, mae'n rhaid i uwch-reolwyr feddu ar wybodaeth gyfoes a manwl am natur y galw a ragwelir er mwyn sicrhau bod digon o leoliadau addas o safon sy'n gost-effeithiol ar gael a sicrhau ein bod yn rheoli'n hadnoddau yn effeithiol. Dyma ail flwyddyn strategaeth Abertawe ar gyfer lleihau PDG mewn modd diogel ac rydym yn dechrau llwyddo wrth leihau nifer y plant sy'n dod i'r system gofal.

- Yn gyffredinol, mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe'n uchel, er nad yw mor uchel â rhai awdurdodau cymharol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y plant hynny sy'n dod i'r system gofal. Er bod rhaid i ni sicrhau bod plant diamddiffyn yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn, mae'n rhaid i ni gydnabod hefyd fod y canlyniadau gorau'n cael eu cyflawni fel arfer mewn teuluoedd cefnogol. Mae angen ymdrech gydlynol i gyflawni'r targedau pwysig hyn. I wneud hyn, mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, ymarferwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau i sicrhau ein bod yn gweithredu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol plant yn dod i'r system gofal, megis tlodi plant, camddefnyddio sylweddau a cham-drin yn y cartref.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae ymagwedd strategol ar waith eisoes sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posib ar gyfer plant yn Abertawe drwy Strategaeth Abertawe ar gyfer lleihau PDG mewn modd diogel.

- Drwy Arwyddion Diogelwch a meddwl sy'n canolbwyntio ar atebion, rydym yn gwella arfer gweithwyr cymdeithasol a sgiliau amrywiaeth o ymarferwyr proffesiynol er mwyn sicrhau diogelwch y plant a datblygu gwydnwch mewn teuluoedd.

- Ar hyn o bryd, rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau o safon er mwyn rheoli'r galw am Wasanaethau i Blant a Theuluoedd yn Abertawe.

- Drwy'r rhaglen plant a phobl ifanc, mae gennym ymagwedd strategol gydlynol at sicrhau'r canlyniadau gorau posib i blant yn Abertawe.

- Drwy ein gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar amrywiol, rydym yn y sefyllfa orau i leihau'r risg bod plant yn dod i'r system gofal, e.e. Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd, Tîm am y Teulu, Opsiwn2 ac amrywiaeth o wasanaethau cefnogi teuluoedd.

- Mae'r gwasanaethau o safon hyn bellach yn cael eu targedu ar gyfer plant a theuluoedd mewn angen sy'n agos at sefyllfa lle bo angen gofal a reolir arnynt.

- Drwy'r rhaglen newid hon rydym mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i fonitro effeithiolrwydd strategaeth lleihau PDG yn ddiogel a'i llwyddiant wrth gyflawni'r canlyniadau gorau posib ar gyfer y grŵp bach hwn o blant.	Er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chymryd camau diogel i leihau nifer y plant sy'n dod i'r system ofal.
Ein nod yw cefnogi pob plentyn sy'n derbyn gofal i gyflawni sefydlogrwydd cyn gynted â phosib.	
Lle bo hynny'n briodol, caiff plant eu lleoli yn eu hardal leol neu'n agos ati.	

C2. Lleihau ailgyfeiriadau a nifer y plant y mae angen ymyriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol arnynt.

Nod: Lleihau effaith twf yn y boblogaeth a'r diwygiadau lles ar alw a nifer y plant mewn angen, gan gynnwys gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, dros y 2-10 mlynedd nesaf.

Mesurau: Cyfradd yr ailgyfeiriadau a dderbynnir.
Cyfanswm y plant yn Abertawe y mae angen ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol arnynt.

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14 **TBC**	2014-15	2015-16	2016-17
SCC/010 Cyfradd ailgyfeiriadau	33.9	40.8	34.8	30.9	27.8	**20**	**18**	**17**	**16**
Cyfanswm y plant mewn angen (achosion agored) mewn blwyddyn	4586	3164	3504	4719	4921	**3494**	**Nifer wedi'i leihau**		

Pam mae hyn yn bwysig:

- Ein nod yw sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud eu gwaith mwyaf effeithiol gyda'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sydd yn yr angen mwyaf. Mae hyn golygu bod rhaid i ni wella arferion amddiffyn a diogelu plant yn barhaus ar draws y cyngor a'r system iechyd.

- Mae'n hollbwysig bod pawb yn cydweithio'n effeithiol a bod unrhyw strategaethau a chynlluniau gwasanaeth yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer y plant a'r teuluoedd mewn angen sy'n fwyaf diamddiffyn. Ein nod yw lleihau'r achosion pan fydd angen ymyriad ffurfiol gan wasanaethau cymdeithasol i gefnogi lles plentyn.

- Yn Abertawe ceir amrywiaeth cynyddol o ran diwylliant, ethnigrwydd a chrefydd. Yn ein holl waith gyda phlant a theuluoedd, mae'n rhaid i ni hyrwyddo eu hamrywiaeth, eu gwahaniaethau diwylliannol a'u hunaniaeth hiliol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Yn gyffredinol, mae nifer y plant mewn angen mewn blwyddyn wedi gostwng i lefelau tebyg i 2010/11. Er bod nifer y cyfeiriadau at wasanaethau gofal cymdeithasol i blant wedi gostwng, mae nifer cyffredinol y cysylltiadau'n weddol ddigyfnewid. Ymddengys fod nifer y plant mewn angen a chanddynt anabledd yn Abertawe ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru hefyd.

- Fel rhan o'r strategaeth lleihau PDG yn ddiogel, rydym yn cydlynu ymagwedd gyson at blant mewn angen. Drwy weithio gyda phartneriaid i wella effeithiolrwydd eu gwaith gyda phlant mewn angen, gallwn gadw nifer y cyfeiriadau'n is ac, ar yr un pryd, sicrhau nad ydym yn oedi wrth roi ymyriad ffurfiol ar waith er mwyn amddiffyn plentyn mewn angen. Mae cyfradd ailgyfeiriadau wedi gostwng yn gyson eleni, sy'n awgrymu bod ein hymyriadau a dargedir yn effeithiol.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Rhaglen Plant a Phobl Ifanc yn cydlynu amrywiaeth o weithgareddau o safon gan wasanaethau megis hyrwyddo cynhwysiad, y Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd, Tîm am y Teulu, Opsiwn 2 a gwasanaethau cefnogi eraill megis cyswllt dan oruchwyliaeth.

- Mae gwasanaethau megis 'Hyrwyddo Cynhwysiad' yn darparu cefnogaeth i blant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol drwy annog gweithio gyda phlant i'w helpu i aros gartref, yn eu hysgolion, drwy ymagweddau cymunedol at wahardd.

- Rydym wedi ailfodelu'r trefniadau mynediad drws ffrynt i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd er mwyn gweithio'n effeithiol i reoli cyswllt ac

ailgyfeiriadau, yn ogystal ag ymgynghori ag ymarferwyr proffesiynol eraill ym maes lles plant.

- Mae plant a phobl ifanc yn derbyn asesiad da ac amserol o'u hanghenion.

- Ceir llawer o enghreifftiau o waith ataliol da a defnyddio adnoddau'n greadigol i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc drwy ymagweddau newydd; er enghraifft, canolbwyntio ar atebion wrth gynllunio cefnogaeth, gyda gweithwyr cymdeithasol yn helpu plant a theuluoedd i gytuno ar gynlluniau cefnogi gyda'u strategaethau eu hunain ar gyfer rheoli problemau yn y cartref.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i alinio 'drws ffrynt' y gwasanaethau cymdeithasol ag amrywiaeth ehangach o wasanaethau cefnogi teuluoedd a Maethu Abertawe.	I ehangu amrywiaeth yr opsiynau sydd ar gael i blant a theuluoedd.
Targedu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar megis Tîm am y Teulu (TAT) a ddarperir drwy'r rhaglen Plant a Phobl Ifanc, ar blant a theuluoedd.	Er mwyn atal yr angen am wasanaethau cymdeithasol statudol rhag cynyddu, yn enwedig gwasanaethau PDG.
Cynnal ymgynghoriadau a gwneud cyfeiriadau priodol at y Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd rhanbarthol lle gall ymyriadau dwys wneud y gwahaniaeth mewn teuluoedd sy'n ceisio gwneud newidiadau mawr.	
Mynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles ar dlodi plant a theuluoedd mewn angen.	I hyrwyddo mynediad i gyngor a chefnogaeth arbenigol yn gynnar a mwyafu incwm.
Parhau i fonitro unrhyw newidiadau yn y boblogaeth leol.	I adolygu'r effaith ar y galw a nifer y plant mewn angen, gan gynnwys gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal, dros y 2-10 mlynedd nesaf.

C3. Cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau a systemau sy'n gweithredu ychydig islaw'r trothwy ar gyfer gofal cymdeithasol plant.

Nod: Lleihau'r galw am wasanaethau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal drwy dargedu cefnogaeth i'r teulu o fewn ymagwedd system gyfan.

Mesurau: Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal.
Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal am bob 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed

Perfformiad Blaenorol							Rhagamcaniad Bras		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14 **I'W GADARNHAU**	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer y plant sy'n derbyn gofal	413	558	580	554	588	**537**	**513**	**500**	**488**
Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal (am bob 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed)	-	123	128	123	125	**114**	**108**	**104**	**102**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Gall plentyn fod mewn perygl o fynd i'r system gofal o ganlyniad i broblemau dros dro neu barhaol sy'n wynebu ei rieni, o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod, neu oherwydd ymddygiad y plentyn, neu nid oes neb i ofalu amdano.
- Bydd y cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i ddiwallu anghenion plant drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a dod o hyd i'w hatebion eu hunain.
- Byddwn yn gweithio gyda rhieni ac aelodau'r teulu estynedig er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion eu plant, gan gynnwys yr angen i'w hamddiffyn.
- Ceir tystiolaeth gref o effaith gadarnhaol gwasanaethau cefnogi teulu a dargedir a systemau cyfan effeithiol megis Tîm am y Teulu (model ataliol gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu y tu hwnt i reolaeth ac osgoi'r angen am ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol).
- Pan na fydd rhieni plentyn yn gallu gofalu amdano, mae'n hollbwysig ein bod yn nodi'r dewis ail orau, megis gofalwr o blith aelodau'r teulu a ffrindiau neu leoliad addas gyda gofalwr maeth neu drwy fabwysiadu.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Rydym yn gwella'r defnydd o'r gwasanaethau a'u effaith gyda'r nod o leihau mynediad i'r system gofal a/neu hyrwyddo dychwelyd adref yn gyflym (yn ôl math, angen ac oedran). Gall plant ddod i'r system gofal dros dro neu'n barhaol yn dilyn gweithrediadau amddiffyn plentyn, a byddem yn disgwyl i blentyn ddechrau lleoliad gyda theulu maeth neu leoliad gofal preswyl gyda chynllun ar gyfer sefydlogrwydd ar waith.

- Mae tuedd Abertawe, o ran nifer a chyfradd plant sy'n derbyn gofal, bellach yn cymharu'n dda ag awdurdodau cymharol eraill. Er bod y nifer cyffredinol hyd at 2014 yn sefydlog ac yn gostwng, gwelwyd cynnydd sylweddol iawn mewn awdurdodau lleol eraill. Gwelwyd cynnydd o 24% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf a chyfradd gyfartalog Cymru oedd 91 yn 2013.

- Dyma'r penawdau o ran nifer y plant a phobl ifanc yn Abertawe sy'n derbyn gofal hyd yn hyn (Chwefror 2014):

  - Cafwyd gostyngiad o 8% yn y flwyddyn ddiwethaf yn nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal.
  - Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Abertawe wedi gostwng, am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, gan gyflawni'r targed a bennwyd gan Strategaeth Lleihau PDG yn Ddiogel Abertawe, sef 20%.
  - Mae cyfradd PDG yn y boblogaeth yn Abertawe, sef 114, bellach yn agosach at gyfartaledd Cymru o'i chymharu â 125 y llynedd.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae'r cyngor wedi cadw gweithwyr cymdeithasol sy'n parhau i ddatblygu eu profiad, eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio yn eu gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd.

- Meithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda phlant, teuluoedd a chymunedau drwy dimau ardal leol a dulliau cydlynol, amlasiantaeth o weithio.

- Ailfodelu'r amrywiaeth o wasanaethau er mwyn cefnogi plant a theuluoedd i gyflawni sefydlogrwydd cyn gynted â phosib.

- Lleoli plant yn agosach at ardal eu cartrefi er mwyn hyrwyddo cysylltiadau â'u teuluoedd, lle y bo'n briodol, a gwella mynediad i wasanaethau.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Ar y cyd â phartneriaid, sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau'r rhaglen hyrwyddo cynhwysiad yn targedu plant sydd mewn perygl o gyrraedd sefyllfa pan fydd angen cyfranogaeth y gwasanaethau cymdeithasol neu angen dod i'r system gofal.	I wella canlyniadau a lleihau'r galw am wasanaethau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal.

C4. Datblygu gwasanaethau i ymateb hyd yn oed yn well i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i'r system gofal.

Nod: Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl o fynd i'r system gofal

Mesurau: (Amddiffyn Plant)
% y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd wedi cael eu tynnu o'r gofrestr ac yna eu cofrestru eto.
% y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl mwy na blwyddyn.

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14 i'w gadarnhau	2014-15	2015-16	2016-17
% y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd wedi cael eu tynnu o'r gofrestr yna eu cofrestru eto	7%	7%	11%	5%	16%	**20%**	**15%**	**10%**	**5%**
% y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn plant am fwy na blwyddyn	25%	24%	18%	23%	14%	**16.5%**	**16%**	**15%**	**14.5%**

Pam mae hyn yn bwysig:
- Ein blaenoriaeth bob amser fyd osgoi'r angen i dderbyn plant i'r system gofal a byddwn bob amser yn chwilio am ddewisiadau eraill sy'n ddiogel ac yn briodol.
- Yn Abertawe, rydym o'r farn bod plant yn fwy tebygol o ffynnu mewn lleoliadau teulu a'n cyfrifoldeb yw sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn cartref teulu a, lle bynnag y bo modd, yn yr ardal leol.
- Gofal maeth yw'r ail ddewis gorau ar ôl teulu'r plentyn ei hun, neu'r teulu estynedig.
- Mae'r cyngor yn dyrannu adnoddau sylweddol i gefnogi nifer cymharol fach o blant sy'n derbyn gofal drwy leoliadau a gefnogir a gofal a reolir.
- Ceir tystiolaeth gref o effaith gadarnhaol gwasanaethau cefnogi teulu a dargedir ac ymagweddau system gyfan effeithiol sy'n cefnogi plant heb ystyried ffiniau proffesiynol neu sefydliadol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:
- Ein blaenoriaeth bob amser yw diogelu ac amddiffyn plant sydd mewn perygl o niwed a chamdriniaeth sylweddol. Mae'n bwysig ein bod yn cadw llygad ar blant a oedd yn destun cynllun amddiffyn plentyn ac sydd wedi'u tynnu o'r gofrestr ond a allai beri pryder ar adeg yn y dyfodol.

- Buom yn ystyried a ddylid newid pwyslais y mesur i blant sy'n cael eu cofrestru eto o fewn blwyddyn; gallai hyn fod yn ddangosydd gwell i nodi a yw'r cynlluniau diogelwch y cytunwyd arnynt mewn cynhadledd a thrwy weithrediadau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac mewn partneriaeth â theuluoedd ac ymarferwyr proffesiynol eraill. Byddwn yn parhau i greu proffil ar gyfer plant sy'n dychwelyd i'r cofrestri amddiffyn plant gan ystyried a yw'r rhesymau dros yr ymyriad newydd yn debyg i brofiadau ac ymyriadau blaenorol.

- Rydym wedi gwneud cynnydd sy'n well na'r disgwyl o ran sicrhau nad yw plant yn aros ar y gofrestr am gyfnod hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol. Mae'r rhagamcanion wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar blant a allai fod mewn perygl o ddod i'r system gofal dros dro neu'n barhaol yn sgîl gweithrediadau amddiffyn plentyn.

- Yn Abertawe, mae nifer a chyfradd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi aros yn weddol sefydlog. Mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn Abertawe wedi bod oddeutu 200-250 am sawl blwyddyn, ond mae'r ffigur wedi bod ychydig yn is am y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon.

- O ganlyniad i newidiadau diweddar yn nhrefniadau amlinellol y Gyfraith Gyhoeddus, mae'n cymryd llai o amser i fynd ag achos drwy weithrediadau llys ac mae'n bosib bod hyn yn effeithio ar y niferoedd a'r targedau yn y maes hwn. Yn gyffredinol, mae cyfraddau gwaith amddiffyn plant yn Abertawe'n debyg iawn i gyfartaledd Cymru ac awdurdodau lleol cymharol eraill.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Gweithio gyda'r tîm cyfreithiol corfforaethol i sicrhau y cydymffurfir â threfniadau amlinellol y gyfraith gyhoeddus a bod rhagor o gofrestriadau a datgofrestriadau'n cael eu cyflawni drwy weithio'n effeithiol i gefnogi gwasanaethau plant a theuluoedd yn eu cynlluniau amddiffyn plant.

- Mae newidiadau yn yr Uned Ansawdd Gwasanaeth wedi gwella ansawdd ac amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant, gan wella ansawdd y cynlluniau amddiffyn plant sy'n cael eu dilyn gan adolygiadau amserol.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i ddatblygu cefnogaeth gyfreithiol ar gyfer timau wrth roi trefniadau'r gyfraith gyhoeddus ar waith.	Er mwyn cau achosion yn gynt ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn.
Ailwampio paneli amlasiantaeth ar gyfer trafod achosion cymhleth a thargedu adnoddau.	Er mwyn cymryd camau diogel i osgoi'r angen i blant dderbyn gofal drwy sicrhau y defnyddir gwasanaethau ar gyfer plant sydd mewn perygl o fynd i'r system gofal.

C5. Gwella mynediad i wasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

Nod: Gwella mynediad i adnoddau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a chefnogi hyn drwy ddadansoddiad manylach o wariant yr holl bartneriaid ar blant sy'n derbyn gofal.

Mesurau: % y plant sy'n derbyn gofal yn Abertawe a gefnogir mewn lleoliad teulu yn hytrach na gofal preswyl (cydbwysedd gofal).

Ar ddiwedd y flwyddyn	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14 **I**'w gadarnhau	2014-15	2015-16	2016-17
% y plant sy'n derbyn gofal maeth prif ffrwd gyda Maethu Abertawe	dd/b	49%	45%	50%	53%	**57%**	**58%**	**60%**	**62.5%**
Nifer y plant mewn gofal preswyl	dd/b	43	46	55	62	**50**	**48**	**45**	**43**
% y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliad teulu	dd/b	92%	92%	89%	88%	**92%**	**93%**	**94%**	**95%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal mewn mwy o berygl o eithrio cymdeithasol na phlant eraill o oedran tebyg.
- Mae'r lleoliad cywir, yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir, yn hanfodol i wella sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn, yn ei dro, yn hollbwysig wrth gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Mae sicrhau digon o leoliadau a llety sy'n diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn gam hanfodol wrth gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer y grŵp diamddiffyn hwn.
- Y cyngor, fel rhieni corfforaethol, sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal.
- Mae'r cyngor yn disgwyl y caiff pob plentyn sy'n derbyn gofal ei gofrestru gyda meddyg teulu, deintydd ac optegydd ac y bydd yn derbyn profion rheolaidd i sicrhau ei fod yn cadw'n iach. Mae'r cyngor o'r farn ei bod yn haws cyflawni canlyniadau iechyd pan fydd y plentyn mewn gofal lleol a bod modd iddo dderbyn gwasanaethau o safon.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae Abertawe wedi gwneud cynnydd sylweddol eleni at gyflawni'r targedau cynaliadwy a bennwyd yn y strategaeth 5 mlynedd ar gyfer lleihau PDG yn ddiogel. Rydym wedi recriwtio rhagor o ofalwyr maeth, wedi dod o hyd i deuluoedd addas i blant ac wedi trefnu iddynt gael eu mabwysiadu. Ar hyn o bryd, mae cyfran lawer uwch o leoliadau'n cael eu trefnu drwy Faethu Abertawe yn hytrach na thrwy asiantaethau maethu annibynnol.

- Mae llawer llai o blant bellach mewn gofal preswyl. Mae'r plant hynny sydd mewn gofal preswyl yn debygol o fod ag anghenion cymhleth ac yn derbyn gofal arbenigol a gomisiynwyd i ddiwallu anghenion addysgol penodol iawn neu anghenion anabledd neu er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol. Os oes anghenion cymhleth gan blant, bydd angen bob amser ystyried lleoliadau arbenigol y tu allan i'r ardal os nad yw'r gwasanaethau hynny ar gael yn lleol.

- Rydym bob amser yn disgwyl bod cynllun ar gyfer sefydlogrwydd ar waith pan fydd plentyn yn dechrau lleoliad. Yn gyffredinol, mae rhagor o blant bellach yn cael eu cefnogi mewn teuluoedd ac, i adlewyrchu'r llwyddiant hwn, rydym mewn sefyllfa i addasu'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Rydym yn sicrhau bod dewis o leoliadau ar gael i blant sy'n derbyn gofal, drwy sicrhau bod lleoliadau gofal maeth o safon ar gael yn agosach at gartref.

- Rydym yn recriwtio ac yn cadw nifer uwch o ofalwyr maeth (Maethu Abertawe).

- Drwy gynyddu nifer y gofalwyr maeth arbenigol, gallwn ddod o hyd i leoliadau i ddiwallu amrywiaeth ehangach o anghenion, drwy deulu a ffrindiau, gofal prif ffrwd, therapiwtig a gofalwyr seibiant byr.

- Rydym yn gweithio gyda gofalwyr maeth i sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda a'u gwobrwyo am eu gwaith i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant yn eu gofal.

- Drwy gomisiynu rhanbarthol, rydym yn sicrhau bod lleoliadau addas yn gost-effeithiol ac yn cyflawni safonau uchel.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cydlynu ymdrechion gyda phartneriaid drwy strategaeth lleihau PDG yn ddiogel.	I helpu plant sy'n derbyn gofal i gael sefydlogrwydd a darparu canlyniadau gwell i blant ar y cyfle gynharaf.

Beth?	Pam?
Gweithio i sicrhau bod rhagor o blant yn derbyn gofal mewn teuluoedd cefnogol, bod y lleoliadau'n rhai sefydlog, a'u bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau drwy fabwysiadu, gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig neu leoliadau gyda theuluoedd a ffrindiau.	I helpu plant sy'n derbyn gofal i gael sefydlogrwydd a darparu canlyniadau gwell i blant ar y cyfle gynharaf.
Yn lleol ac yn rhanbarthol, comisiynu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth a sicrhau bod lleoliadau o safon ar gael am gost is.	
Gwella'n model pontio ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn ag anghenion cymhleth er mwyn cynllunio a chefnogi'r newid o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.	
Sicrhau bod lleoliadau a gwasanaethau cefnogi yn darparu cefnogaeth ddigonol i bobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal a allai fod mewn perygl o droseddu.	

Ch. Datblygu partneriaethau, sgiliau a'r isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol.

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Mae gan Abertawe rai problemau economaidd sylfaenol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy. Mae gan y cyngor rôl yn hyn drwy gynyddu manteision cymdeithasol prosiectau adfywio a phennu'r fframwaith cynllunio strategol i alluogi twf economaidd.

1. **Yr Economi a'r Farchnad Lafur**[3]:

- Mae potensial economaidd sylweddol gan Abertawe ond mae'n wynebu nifer o heriau difrifol i'w thwf economaidd yn y dyfodol.

- Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o'r Strategaeth Adfywio Economaidd Ranbarthol yn nodi rôl allweddol Abertawe yn y Dinas-ranbarth ond mae'n amlygu nifer o wendidau o ran isadeiledd y mae'n rhaid eu goresgyn er mwyn ysgogi ffyniant newydd.

- Mae materion sylfaenol megis cynhyrchiant isel, diweithdra uchel, anweithgarwch economaidd a diffyg sgiliau ymysg y pryderon craidd.

- Mae gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth yn Abertawe islaw'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru a'r DU. Mae cyfraddau diweithdra (yn seiliedig ar arolwg) yn Abertawe yn uwch na chyfraddau Cymru a'r DU, er bod cyfraddau hawlwyr yn is.

- Mae ystadegau eraill y farchnad lafur yn atgyfnerthu rôl Abertawe o fewn is-ranbarth de-orllewin Cymru a'i safle fel economi sy'n canolbwyntio ar y sector gwasanaethau, â chyfran uchel o swyddi yn y sector cyhoeddus.

2. **Creu Lleoliad Cystadleuol**:

- Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhaid iddo gydweithio â'i bartneriaid yn y sector preifat, llywodraeth, y byd academaidd a'r trydydd sector i oresgyn heriau Abertawe ac ysgogi twf yn y rhanbarth.

- Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd ar amrywiaeth o fentrau a phrosiectau, gan gynnwys yr uchelgais i greu lle unigryw ag isadeiledd cystadleuol sy'n cefnogi buddsoddiad mewn sectorau gwerth uchel yn seiliedig ar wybodaeth.

- Felly, mae perfformiad y cyngor yn ei rôl fel awdurdod cynllunio, a sut mae'n mwyafu'r cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau a ddarperir gan brosiectau isadeiledd mawr, yn allweddol wrth wynebu'r her o greu lleoliad cystadleuol.

[3] *Asesiad Anghenion Strategol* Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (2013)

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Mae cynyddu effaith prosiectau adfywio drwy gynnig a hwyluso lleoliadau hyfforddiant a gwaith cysylltiedig yn ffordd bwysig i Ddinas a Sir Abertawe allu paratoi trigolion ar gyfer heriau'r dyfodol.

- Mae Dinas a Sir Abertawe yn cymryd rhan mewn dau gynllun sylweddol i gyflawni hyn: Gweithffyrdd a'r Tu Hwnt i Frics a Morter.

- Mae cynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter (BB&M) yn helpu busnesau lleol i ddod yn rhan o'r rhaglen adfywio drwy gynnwys cymalau mewn contractau a fydd yn darparu manteision cymdeithasol megis cyfleoedd ar gyfer pobl ddi-waith tymor hir a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd.

- Ym mhrosiect Gweithffyrdd, mae Abertawe'n gweithio gyda thri awdurdod lleol arall yn y rhanbarth i weithio gyda phobl sy'n anweithgar yn economaidd a'r rhai sy'n ddi-waith tymor hir a'u cefnogi i ddychwelyd i gyflogaeth.

- Bydd Gweithffyrdd yn cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra i'r rhai sy'n cymryd rhan drwy asesu eu hanghenion a'u cysylltu â chyflogwyr priodol (DS - bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu prosiect Gweithffyrdd yn 2013/14)

- Mae lles economaidd ac adfywio Dinas a Sir Abertawe'n dibynnu, i raddau, ar ddatblygu prosiectau mawr, boed ym maes manwerthu, tai neu ddiwydiant.

- Mae hyn yn ymwneud â manteision economaidd y datblygiad terfynol os yw'n fasnachol, a'r gyflogaeth a'r fasnach sy'n deillio o'r broses adeiladu.

- Mae angen partneriaeth lwyddiannus rhwng y datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn i gynlluniau sy'n hybu datblygiad economaidd gyrraedd y cam caniatâd cynllunio.

Ch1. Cynyddu nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol.

Nod: Cynyddu nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol a'r Tu Hwnt i Frics a Morter yn eu contractau.

Mesur: (BBMA1 - Cynnydd yn nifer y prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol a'r Tu Hwnt i Frics a Morter) yn eu contractau.

Perfformiad Blaenorol					Rhagamcaniad		
2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
-	9	12	17	**16**	**18**	**19**	**20**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Hoffai'r cyngor gynyddu nifer ei gontractau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol drwy fenter y Tu Hwnt i Frics a Morter (BB&M). Mae'r cymalau hyn yn nodi bod rhaid i'r contract greu cyfleoedd hyfforddi, cyflogaeth a phrofiad gwaith ar gyfer y rhai sy'n ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd. Bydd hyn yn gwella cyfleoedd gwaith a sgiliau trigolion Abertawe.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Oherwydd mesurau arbed arian, tybir y bydd gwariant y cyngor yn arafu, sydd wedi arwain at ragamcaniad is ar gyfer nifer y prosiectau yn y flwyddyn ariannol hon.

- Ers i'r cyngor fabwysiadu'r polisi o gynnwys cymalau budd cymdeithasol mewn contractau adfywio penodol, mae'r fenter wedi cymryd amser i wreiddio yn niwylliant ac arferion y cyngor.

- Ceir dylanwadau macro-economaidd nad oes gan y cyngor lawer o reolaeth drostynt, sydd hefyd yn penderfynu a fydd arian ar gael a pha brosiectau a gaiff eu gwireddu.

- Mae ymwybyddiaeth gynyddol o BB&M yn nhimau caffael a phrosiect y cyngor wedi helpu i gyflawni nodau menter BB&M drwy sicrhau bod sylw'r tîm yn cael ei dynnu at brosiectau newydd. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar dwf economaidd.

- Yn absenoldeb prosiectau adfywio mawr, mae cymalau budd cymdeithasol wedi cael eu cynnwys mewn contractau llai, megis cynlluniau adnewyddu tai, gan gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael yn gyffredinol.

- Er bod targedau'r flwyddyn hon wedi'u cyflawni, yn y dyfodol gallai llai o gontractau fod ar gael i gynnwys cymalau budd cymdeithasol ynddynt oherwydd toriadau i wariant y sector cyhoeddus a strwythurau fframwaith contractau.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Diben Y Tu Hwnt i Frics a Morter yw sicrhau bod arian sy'n cael ei wario ar brosiectau cyhoeddus yn cyflawni buddion i bobl a chymunedau y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei brynu.

- Cefnogir y cynllun gan dîm caffael y cyngor ac adrannau sy'n ymdrin â chontractau addas ac mae perthynas rhyngddynt hwy a'r Tu Hwnt i Frics a Morter.

- Mae gan Y Tu Hwnt i Frics a Morter brofiad o gyfrifo'r cymalau buddion cymdeithasol mewn contractau i gael y budd mwyaf ar gyfer y gymuned.

- Drwy weithio mewn partneriaeth â chynlluniau a sefydliadau hyfforddi sy'n helpu pobl ddi-waith, mae Y Tu Hwnt i Frics a Morter yn gallu llenwi'r

cyfleoedd hyfforddi sy'n cael eu creu â'r bobl y mae angen y cymorth mwyaf arnynt i ddychwelyd i waith. Darparwyd 1500 o wythnosau o hyfforddiant eleni a dechreuodd 17 o bobl newydd hyfforddiant.

- Mae Y Tu Hwnt i Frics a Morter wedi gallu gosod cymalau mewn contractau llai hefyd, yn ogystal â chynlluniau grant Datblygu Eiddo'r cyngor, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth lle bynnag y bo modd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nodau cynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter a chymalau budd cymdeithasol.	I dawelu unrhyw ofnau, yn enwedig ymhlith noddwyr prosiect, er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn y cynllun i sicrhau ei lwyddiant. Oherwydd toriadau staff a newidiadau i strwythurau'r cyngor, bydd angen cynyddu ymwybyddiaeth o BB&M ymhellach er mwyn sicrhau bod staff yn rhannu manylion contractau newydd. Dim ond drwy gael gwybodaeth amserol gan eraill y gellir cynnwys cymalau budd cymdeithasol mewn contractau.
Parhau i gynnwys cymalau yng nghontractau'r cyngor, gan greu ffyrdd newydd o gael cyfleoedd drwy gontractau llai.	I fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan bob contract, yn absenoldeb contractau adfywio mwy.
Cynyddu rhwydweithiau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector a chyda'r rhai sy'n ymwneud â buddiolwyr. Ehangu'r dulliau rhwydweithio a ddefnyddir gan Y Tu Hwnt i Frics a Morter, er enghraifft rhannu gwybodaeth drwy'r borth gwe, 'Hysbysu Abertawe '.	I helpu i sicrhau y cynyddir nifer y cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant gan sicrhau bod digon o bobl yn ymwybodol ohonynt ac yn barod i fanteisio arnynt. Mae rhaglenni hyfforddi yn newid yn aml, felly mae'n bwysig cadw mewn cysylltiad â mentrau newydd a rhai sy'n newid fel y gellir rhoi gwybodaeth newydd i gontractwyr.
Cefnogi mwy o gontractau sy'n ymwneud â gwasanaethau o fewn cynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter.	I fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan amrywiaeth ehangach o gontractau'r cyngor.
Gweithio gyda Cyfle, y cynllun prentisiaeth ar y cyd, i ehangu cwmpas y cyfleoedd rydym yn eu creu.	Fel y gall contractau tymor byr wneud mwy o gyfraniad at ddatblygiad unigolyn, drwy hyfforddiant, profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth.

D2. Pobl sy'n cael eu cyflogi

Nod: - Cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiect Gweithffyrdd.

Mesur: (WWC1) - Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi o ganlyniad i gymryd rhan ym mhrosiect Gweithffyrdd.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
-	-	-	201	287	**Rhagamcaniad - 220**	**300**	**375**	**400**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Ym mhrosiect Gweithffyrdd, mae Abertawe'n gweithio gyda thri awdurdod lleol arall yn y rhanbarth i gynnwys yr anweithgar yn economaidd a'r di-waith tymor hir a'u cefnogi i ddychwelyd i gyflogaeth.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae Gweithffyrdd yn darparu cymysgedd o gefnogaeth y profwyd ei bod yn helpu pobl ddi-waith i ddychwelyd i gyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth.
- Mae ymagwedd y prosiect yn cydnabod anghenion y cleientiaid gan roi lle canolig iddynt mewn cynllun gweithredu â'r nod o wneud dychwelyd i'r gweithle'n haws o lawer.
- Ers ei lansio yn Abertawe, mae strwythur Gweithffyrdd wedi newid sawl gwaith cyn cyrraedd y maint a'r ystod o weithgareddau presennol. Y newid pwysicaf oedd cyflwyno tîm penodol at ddiben chwilio am gyfleoedd gwaith.
- Am nifer o resymau, mae hwn wedi bod yn llai na'r hyn sy'n ofynnol ond mae màs critigol y prosiect ar fin cynyddu.
- Yn ystod 2013/2014 gadawodd nifer o staff am resymau amrywiol.
- Oherwydd bod llythyr cymeradwyo ffurfiol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cyrraedd yn hwyr, bu oedi yn y broses recriwtio sydd wedi effeithio ar nifer y canlyniadau a gyflawnwyd yn y cyfnod. Roedd rhaid cadw niferoedd achosion ar lefel y gallai'r staff a oedd yn dal i weithio ar y prosiect ei rheoli.
- Cafodd deg aelod newydd o staff eu penodi ym mis Rhagfyr 2013/Ionawr 2014. Ni lenwyd chwe swydd wag ychwanegol ar y pryd a chynhelir ymarfer recriwtio eto ar ddechrau 2014.

- Daeth prosiect Genesis i ben yn 2013/2014 ac fel rhan o'r prosiect peilot, roedd gweddill y cyfranogwyr a'r staff i fod i ymuno â phrosiect Gweithffyrdd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw aelodau staff ac roedd nifer y cyfranogwyr yn llawer is na'r hyn a ragwelwyd. Mae'r ffactorau hyn i gyd wedi cyfrannu at nifer is o ganlyniadau na'r hyn a ragwelwyd.

- Mae'r prosiect wedi gofyn am estyniad hyd ddiwedd mis Medi 2014. Oherwydd yr oedi wrth dderbyn cymeradwyaeth, bu'n rhaid i'r prosiect ohirio cymeradwyo unrhyw leoliadau eraill a ariennir (swyddi dros dro). Mae canran uchel o'r lleoliadau hyn yn arwain at swyddi gyda'r cwmni, felly roedd hyn hefyd yn effeithio ar y canlyniadau.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae cynlluniau eraill sy'n gweithio gyda phobl yn cyfeirio eu cleientiaid at Weithffyrdd pan deimlir eu bod yn barod i ystyried cyflogaeth.

- Mae ymwybyddiaeth o weithgareddau tîm Abertawe'n sicrhau llif o gyfranogwyr newydd i'r prosiect.

- Cyfeirio cyfranogwyr a busnesau at sefydliadau cefnogi addas eraill yn y sir.

- Mae gallu'r prosiect i ddileu'r rhwystrau a wynebir gan y rhai sy'n dymuno dychwelyd i waith a darparu cyfleoedd swyddi dros dro, i helpu unigolyn i baratoi ar gyfer dychwelyd i gyflogaeth barhaol, yn rhoi hyder i unigolion ac mae'n dangos i gyflogwyr bod gan ddarpar weithwyr yr ymagwedd a'r tueddfryd gofynnol.

- O ganlyniad i gynnydd yn nifer y staff, bu modd gwneud rhagor o waith allgymorth. Cynhelir dosbarthiadau chwilio am swyddi mewn pum lleoliad bob wythnos. Mae'r rhain yn cynnig cefnogaeth wrth chwilio am swyddi, llunio CV a sut i wneud cais am swydd. Yn ogystal â hyn, mae staff y prosiect yn cynnal sesiynau ddwywaith yr wythnos ar dechnegau cyfweliad a chyfweliadau ffug.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cynyddu maint y tîm Cyswllt Cyflogaeth i gyd-fynd â maint tîm mentora Gweithffyrdd.	Bydd hyn yn gwella presenoldeb y prosiect yn y gymuned fusnes, cynyddu nifer ac amrywiaeth y cyfleoedd swydd sydd a'r gael i'r rhai sy'n dychwelwyd i waith, yn aml am y tro cyntaf mewn blynyddoedd maith, a nifer y swyddi mae cleientiaid y prosiect yn eu cael.
Gweithio gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o brosiect peilot a fydd yn ceisio cydlynu ymdrechion.	I gynyddu nifer y lleoliadau a rhoi mwy o eglurhad i gleientiaid am sut gallant gyfrannu at ymdrech ehangach i ymladd yn erbyn tlodi.

Beth?	Pam?
Gweithio'n agos gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol i baratoi a chyflwyno cais am brosiect Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd i'w gynnal rhwng 2014 a 2020.	Adeiladu ar lwyddiant prosiect Gweithffyrdd yn Abertawe i helpu cynifer o bobl â phosib i gael gwaith a chynifer o fusnesau â phosib gyda'u hanghenion recriwtio.

Ch3. Boddhad â'r Gwasanaeth Cynllunio

Nod: Cynyddu % yr ymgeiswyr a thrydydd partïon sy'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y Gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio.

Mesur: % yr ymgeiswyr a thrydydd partïon sy'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth ceisiadau cynllunio

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
88%	84%	87%	90%	93%	94%	**94%**	**95%**	**95%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae gwell boddhad yn fesur pwysig o safon y gwasanaeth cynllunio; mae gwasanaeth cynllunio o ansawdd uchel yn bwysig gan ei fod yn rhoi hyder i ddatblygwyr a buddsoddwyr i fuddsoddi yn Abertawe er mwyn datblygu sectorau allweddol o'r economi leol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r cyngor yn gyfrifol am brosesu a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio yn y ddinas a'r sir.
- Mae'n gyfrifoldeb pwysig sy'n effeithio ar yr amgylchedd, trigolion Abertawe a datblygwyr.
- Un o nodau'r cyngor yw darparu'r gwasanaeth hwn mewn modd prydlon a phroffesiynol; mesur da o'i lwyddiant yw lefelau boddhad ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth.
- Mae'r mesur hwn yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd yn gyfan gwbl ar ôl penderfyniad cynllunio ymhlith ymgeiswyr, asiantaethau a phartïon â budd.
- Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gweithio gyda'i ddefnyddwyr dros y blynyddoedd diwethaf i wella'r gwasanaeth.
- I'r diben hwn, rydym wedi gwella dulliau cyfathrebu â datblygwyr a phartïon â budd drwy gyflwyno rhyngwyneb gwe gwell sy'n hwylus i'w ddefnyddio a darparu gwasanaeth cyn cyflwyno cais proffesiynol i ddatblygwyr a chymorthfeydd galw heibio ar gyfer deiliaid tai.

- Fodd bynnag, mae rhan helaeth o'r cyd-drafod yn digwydd yn hwyrach yn y broses, h.y. pan gyflwynir cais ffurfiol am ganiatâd cynllunio gan nad yw pawb yn manteisio ar y gwasanaeth cyngor cyn cyflwyno cais.

- Rhagwelir y bydd y mesurau gwella busnes drwy TGCh sydd ar y gweill yn cyflymu'r gwasanaeth proffesiynol manwl a ddarperir, gan gynyddu boddhad drwy ddarparu mynediad gwell i wybodaeth a chyngor proffesiynol mor gynnar yn y broses â phosib. Cynhaliwyd cynllun peilot o'r cam cyn cyflwyno cais i gyfeirio'r broses hon.

- Fodd bynnag, amharwyd ar lefelau gwasanaeth a mynediad oherwydd problemau gydag adnoddau ac anawsterau technegol sydd ynghlwm wrth gyflwyno rhyngwyneb mynediad gwe newydd. Mae arolygon boddhad cwsmeriaid wedi adlewyrchu hyn ond, gan fod boddhad â'r gwasanaeth yn uchel ar hyn o bryd, nid oes llawer o le i wella. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cyngor barhau â'r perfformiad da hwn.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae lefelau uchel boddhad cwsmeriaid yn dyst i sgiliau proffesiynol y swyddogion sy'n cyd-drafod â chleientiaid a'u hasiantau.

- Mae boddhad cwsmeriaid hefyd yn adlewyrchu safon y cyngor technegol a gweinyddol da a roddir gan swyddogion gweinyddol a thechnegol i ddatblygwyr a'u hasiantau wrth gyflwyno a gweld ceisiadau.

- Mae'r rhyngwyneb ar-lein newydd yn hwyluso mynediad i geisiadau cynllunio, gwybodaeth a gweithdrefnau ac mae wedi darparu mynediad byw i ffeil lawn y cais cynllunio, ynghyd â'r gallu i olrhain statws cais a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn wedi gwella tryloywder, ynghyd â dealltwriaeth o'r broses a hyder ynddi ymhlith y cyhoedd, ymgeiswyr ac asiantau.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cyflwyno newid i brosesau busnes fel bod cyngor a gwybodaeth ar gael yn gynnar yn y broses a rhoi'r pwyslais ar gyngor cyn y cyflwynir cais ffurfiol.	I wella ansawdd ceisiadau ffurfiol am ganiatâd cynllunio a lleihau gwrthdaro ac oedi yn ystod y broses ceisiadau cynllunio ffurfiol er mwyn gwella boddhad ymgeiswyr a thrydydd partïon.
Sicrhau ei bod yn fwy hwylus i ddatblygwyr, asiantau a phartïon â budd gysylltu â swyddogion proffesiynol y cyngor.	I gynnal ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth, rheoli disgwyliadau a gwella boddhad cwsmeriaid ymhellach.

Ch4. Ceisiadau cynllunio ag ysgogiad economaidd

Nod: Cynyddu % yr holl geisiadau sylweddol a bychan ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir.

Mesur: % yr holl geisiadau sylweddol a bychan ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
-	-	-	-	86.8%	Gwir= 84.5%	**87%**	**88%**	**89%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae'r mesur hwn yn adlewyrchu llwyddiant trafodaethau rhwng yr awdurdod a'r datblygwr wrth sicrhau bod cynlluniau sy'n cynorthwyo datblygiad economaidd yn cyrraedd y cam caniatâd cynllunio.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae lles economaidd ac adfywio Dinas a Sir Abertawe'n dibynnu, i raddau, ar ddatblygu prosiectau mawr, boed ym maes manwerthu, tai neu ddiwydiant.
- Mae hyn yn ymwneud â manteision economaidd y datblygiad terfynol os yw'n fasnachol, a'r gyflogaeth a'r fasnach sy'n deillio o'r broses adeiladu.
- Mae'r mesurau gwella busnes drwy TGCh a nodwyd yn Ch3 ar y gweill ac mae'r rhain, ynghyd â chanllawiau dylunio a fabwysiadwyd ar gyfer datblygiadau preswyl mawr a bach, wedi darparu mwy o dryloywder, yn gynharach o lawer yn y broses benderfynu. Serch hyn, mae problemau gydag adnoddau staff ac anawsterau technegol sydd ynghlwm wrth gyflwyno meddalwedd newydd wedi effeithio ar safon y gwasanaeth.
- Mae hyn, ynghyd â nifer y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwrthdroi gan y pwyllgor, wedi effeithio ar berfformiad.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- O ganlyniad i'r arweiniad a roddir i ddatblygwyr a'u hasiantau cyn y cyflwynir cais, ynghyd â'r trafodaethau a gynhelir â datblygwyr wrth i geisiadau gael eu prosesu, mae nifer uchel o'r math hwn o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo, er enghraifft Stadiwm Liberty ac estyniadau Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn hen Lyfrgell Abertawe, Heol Alexandra.
- Mae'r canllawiau dylunio ar gyfer datblygiadau preswyl mawr a bach a fabwysiadwyd yn egluro'r safonau sy'n ofynnol gan yr awdurdod ac yn darparu gwell sicrwydd ar gyfer datblygwyr a'r broses benderfynu.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i wella'r gwasanaeth er mwyn hwyluso gwelliant parhaus yn safon y ceisiadau a chynyddu nifer y ceisiadau mawr a bach ag ysgogiad economaidd sy'n cael eu cymeradwyo.	Er mwyn hwyluso datblygu cynaliadwy sy'n cyfrannu at adfywio economaidd yr ardal.
Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisi a chanllawiau dylunio a fabwysiadwyd, gan gynnwys y rhai ar gyfer datblygiadau preswyl mawr a bach.	Er mwyn galluogi datblygwyr a'u hasiantau i baratoi cynlluniau gan wybod y bydd y cyngor yn eu cefnogi, gan gynyddu boddhad.

D. Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau.

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Ceir tueddiadau a pheryglon a allai effeithio ar fynediad preswylwyr Abertawe i safon byw dda yn y dyfodol.

1. **Diweithdra, incwm a dyled**[4]

- Yn y tymor hir (2007 hyd 2012), mae amcangyfrifon yn awgrymu bod canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith yn Abertawe wedi cynyddu i ddechrau - o 21.1% i 26.2% yn 2009 - ond ei bod wedi gostwng ers hynny, yn unol â phatrymau a welir yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol.

- Mae mynegeion pennawd Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen (DU = 100) yn mesur swm yr arian sydd ar gael i aelwydydd ei wario neu ei gynilo ar ôl didynnu gwariant sy'n gysylltiedig ag incwm. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod y bwlch rhwng Abertawe a'r DU yn lleihau, er yn araf.

- Mae cyfanswm nifer yr achosion ansolfedd personol newydd fesul blwyddyn galendr yn Abertawe wedi cynyddu o 469 yn 2008 i 530 yn 2011, gyda'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2012 yn nodi ffigur is (469). Mae hyn yn unol â'r duedd gyffredinol yn nifer yr achosion newydd yng Nghymru a Lloegr, a gyrhaeddodd lefel wastad yn 2009/10 ac sydd wedi gostwng yn 2011 a 2012.

- Gostyngodd cyfradd yr achosion ansolfedd unigol fesul bob 10,000 o oedolion yn Abertawe i 24.3 yn 2012, ar ôl cyfnod o gynyddu, yn unol â thuedd cyffredinol ddiweddar, o 22.7 yn 2007 i uchafbwynt o 32.1 yn 2010.

2. **Diwygiadau Lles**

- Mae'r diwygiadau lles a gyflwynwyd gan Lywodraeth San Steffan yn rhan o ymdrech barhaus i ad-drefnu'r system fudd-daliadau yn y DU a fydd yn arwain at gyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2017 yn ôl yr amcangyfrifon.

- Gallai cyflwyno credyd cynhwysol gael effaith sylweddol ar lefelau incwm a dyled. Mae credyd cynhwysol yn golygu talu'r holl fudd-daliadau y mae gan aelwyd hawl iddynt yn uniongyrchol i gyfrif banc yr hawlydd.

- Yn y cyfamser, mae'r newidiadau a gyflwynwyd hyd yn hyn yn cynnwys y tâl am danfeddiannu a fydd yn lleihau budd-daliadau tai os bernir bod pobl yn tanfeddiannu eu cartrefi yn ôl meini prawf llywodraeth y DU.

- Mae Budd-dal Treth y Cyngor wedi'i ddileu a chyflwynwyd y Cynllun Lleihau Treth y Cyngor yn ei lle.

- Bydd Taliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP) yn disodli Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn ôl rhaglen dreigl.

- Mae hawliadau newydd ers 2013 wedi cael eu hasesu dan PIP.

[4] *Asesiad Anghenion Strategol* Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (2013)

- Ers mis Hydref 2013, mae hawlwyr DLA sy'n rhoi gwybod am newid yn eu hamgylchiadau wedi cael eu hasesu o'r newydd dan PIP.

- Rhwng mis Hydref 2015 a mis Hydref 2018, daw'r holl ddyfarniadau DLA i ben a chânt eu hailasesu dan PIP.

- Mae perygl y gallai newidiadau i system gweinyddu a thalu'r budd-daliadau newydd arwain at gynnydd o ran dyled. Gall cyflwyno credyd cynhwysol, yn enwedig, achosi problemau sylweddol i aelwydydd ag ychydig o sgiliau cyllidebu neu reoli arian neu heb sgiliau o gwbl. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent a digartrefedd.

3. **Rheoli Dyled**

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r galw am gyngor ar fudd-daliadau a dyledion wedi cynyddu'n sylweddol ar adeg pan fo pwysau mawr ar adnoddau i ddarparu cyngor yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

- Yn ôl adborth a dderbynnir gan sefydliadau partner sy'n darparu cyngor ar ddyled, mae cynnydd sylweddol yn nifer o bobl sy'n gofyn am gyngor ar ddyled a chanddynt nifer o fenthyciadau diwrnod tâl neu fenthyciadau carreg y drws.

- Mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Undeb Credyd lleol - cydweithfa ariannol sy'n gallu cynnig cynilion hygyrch a mynediad i gredyd rhad - fel dewis cynaliadwy yn hytrach na chwmnïau benthyciad diwrnod tâl a benthycwyr llog uchel, mewn ymgais i helpu pobl i osgoi mynd i ddyled.

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Drwy hyfforddi rhagor o staff y cyngor a gweithwyr cefnogi i roi cyngor ar hawliau lles sy'n briodol i'w rôl, bydd gennym fwy o allu ac adnoddau i helpu pobl a chleientiaid i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, mwyafu eu hincwm ac ymdopi â materion a phroblemau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau yn sgîl y diwygiadau lles.

- Bydd cynyddu nifer gweithwyr y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd yn helpu i wella gallu ariannol yr Undeb Credyd ac yn annog mwy o bobl Abertawe i ymaelodi, fel y gall mwy o bobl elwa o opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy.

- Bydd cynyddu nifer tenantiaid y cyngor sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd yn eu helpu i addasu i'r diwygiadau lles, rheoli eu harian a thalu eu rhent neu eu biliau'n brydlon mewn ymgais i'w helpu i osgoi mynd i ôl-ddyledion rhent ac anawsterau ariannol.

- Bydd hyn yn flaenoriaeth gynyddol wrth i ni baratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol.

- Mae darparu cyngor a chefnogaeth ariannol barhaus yn ffordd o osgoi troi tenantiaid allan o'u cartrefi o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent oherwydd dyled.

- Bydd helpu i osgoi dyled a digartrefedd yn helpu pobl i sicrhau sefydlogrwydd a diogelwch eu teuluoedd, diogelu eu hiechyd a'u lles ac atal eithrio cymdeithasol, yn ogystal â lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â llety gwely a brecwast dros dro.

D1. Staff sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn cyngor ar hawliau lles a budd-daliadau

Nod: Rhoi hyfforddiant priodol i'w rôl i ragor o staff y cyngor/gweithwyr ar roi cyngor ar hawliau lles/budd-daliadau

Mesur: Nifer y staff/gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w rôl mewn cyngor ar hawliau lles/budd-daliadau.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
313	195	282	538	600	Gwir= 595	**500**	**500**	**500**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Drwy gynyddu nifer staff y cyngor a gweithwyr cefnogi sy'n gallu darparu cyngor ar hawliau lles sy'n briodol i'w rôl, bydd canran uwch o drigolion Abertawe'n derbyn cyngor a chefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu derbyn y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt yn rhwyddach.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r cyngor yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth arbenigol i gynorthwyo gweithwyr rheng flaen i gyflawni ei nodau statudol a pholisi o ran amcanion gwrthdlodi a chynhwysiad cymdeithasol; mae hyn yn cynnwys cyngor a hyfforddiant hawliau lles i staff a gweithwyr cefnogi i'w helpu i ymdrin ag ymholiadau yn y maes hwn gan y cyhoedd a'u cleientiaid.

- Y targed ar gyfer 2013/14 oedd hyfforddi 650 o aelodau staff. Y nifer a hyfforddwyd oedd 595. Ni lwyddwyd i gyflawni'r targed oherwydd sawl rheswm. Cafodd 680 o leoedd eu cynnig ar 24 o gyrsiau hyfforddi a 2 seminar, felly cafodd 87.5% o'r lleoedd eu llenwi. Oherwydd natur y gwaith a wneir gan staff sy'n derbyn yr hyfforddiant, nid yw'n anarferol iddynt ganslo ar ddiwrnod yr hyfforddiant os oes argyfwng gan un o'u cleientiaid.

- Bu'n rhaid canslo 3 chwrs ar Gredyd Cynhwysol (60 o leoedd) oherwydd nad oedd dyddiadau gweithredu wedi'u derbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau Penderfynwyd gohirio'r hyfforddiant nes y derbynnir dyddiad gweithredu lleol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi yn fersiwn ddiweddaraf Credyd Cynhwysol.

- Oherwydd newidiadau i'r system budd-daliadau sy'n wahanol i unrhyw beth a welwyd o'r blaen, cafwyd cynnydd eisoes yn nifer y bobl yn Abertawe y mae angen cefnogaeth arnynt i hawlio eu budd-daliadau. Mae hyn yn debygol o gynyddu eto pan gyflwynir Credyd Cynhwysol yn Abertawe. Nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto ond nid yw'n debygol o ddigwydd cyn 2015.

- Mae'r galw am gyngor yn cynyddu oherwydd y gostyngiad yng nghyllid darparwyr cyngor yn y trydydd sector.

- Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2013, cysylltodd bron 13,000 o bobl â'r cyngor i ofyn am gyngor a gwybodaeth am y newidiadau lles.

- Bydd y cyngor yn ceisio hyfforddi grŵp ehangach o staff/gweithwyr cefnogi fel y gall cynghorwyr hawliau lles arbenigol y cyngor ganolbwyntio ar yr achosion cyngor mwy cymhleth.

- Yn y pen draw, byddwn wedi hyfforddi'r nifer uchaf posib a chynnig y nifer uchaf posib o gyrsiau o fewn gallu ac adnoddau'r cyngor i gyflwyno cyngor a hyfforddiant.

- Ers mis Hydref 2013, cyn y gellir cyflwyno cais i apelio yn erbyn penderfyniad am fudd-daliadau mewn tribiwnlys, mae'n ofynnol cyflwyno cais i swyddfa'r DWP a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ac, oherwydd hyn, mae'n bosib y bydd llai o apeliadau'n cael eu cyflwyno i'r tribiwnlys, gan ganiatáu i'r cyngor ymdrin â rhagor o geisiadau am gyngor/hyfforddiant.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae darparu hyfforddiant yn gwella gallu staff/gweithwyr cefnogi i nodi problemau gyda budd-daliadau'n gynnar ac yn atal problemau rhag gwaethygu.

- Mae'n bwysig cefnogi staff i roi'r hyn a ddysgwyd yn y sesiynau hyfforddi ar waith er mwyn atgyfnerthu dysgu a darparu gwasanaeth gwell i gleientiaid.

- Drwy danlinellu'n gyson fanteision ymyrryd yn gynnar wrth fynd i'r afael â phroblemau budd-daliadau, gallwn gynyddu ymwybyddiaeth staff o'r problemau a'u hannog i fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael.

- Yr her yn y flwyddyn o'n blaen fydd mesur yr effaith barhaus mae'r hyfforddiant wedi'i chael ar gyflwyno gwasanaethau.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff y cyngor a gweithwyr cefnogi o'r hyfforddiant a'r cyngor ar hawliau lles sydd ar gael.	I annog rhagor o staff i gael eu hyfforddi i gefnogi eu cleientiaid.

Parhau i ddarparu amrywiaeth ehangach o gyrsiau ym maes budd-daliadau sy'n adlewyrchu'r diwygiadau lles.	I sicrhau bod cydweithwyr yn deall effaith debygol y newidiadau ar sefyllfaoedd eu cleientiaid a'u galluogi i nodi problemau'n gynnar.
Parhau i ddarparu cefnogaeth barhaus i gydweithwyr drwy'r Llinell Gynghori Hawliau Lles.	Er mwyn darparu cyswllt i gydweithwyr dderbyn cyngor ac arweiniad ychwanegol wrth iddynt rhoi'r gwersi a ddysgwyd drwy hyfforddiant ar waith. I Sicrhau eu bod mor effeithiol ag y gallant wrth gefnogi eu cleientiaid.
Llunio arolwg ar-lein ar ôl i staff dderbyn hyfforddiant	I'n galluogi i fonitro effaith yr hyfforddiant ar hyder staff a'u gallu i ymdrin â materion budd-daliadau.
Parhau i adolygu sut y cyflwynir y gwasanaeth hawliau lles yn sgîl darparu hyfforddiant ychwanegol i staff a gweithwyr cefnogi.	I sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol a'u defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er lles cleientiaid.
Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith staff y cyngor a gweithwyr cefnogi o'r hyfforddiant a'r cyngor ar hawliau lles sydd ar gael.	I annog rhagor o staff i gael eu hyfforddi i gefnogi eu cleientiaid.

D2. Staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd

Nod: Cynyddu nifer staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd

Mesur: Nifer staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
-	-	-	53	56	Gwir = 101	**150**	**250**	**350**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd cynyddu nifer staff y cyngor sy'n cynilo gyda'r Undeb Credyd yn helpu i gynyddu gallu ariannol a chynaladwyedd tymor hwy yr Undeb Credyd. Bydd cynyddu nifer aelodau'r Undeb Credyd yn Abertawe'n sicrhau bod pobl yn gallu elwa o opsiwn credyd a chynilo mwy cynaliadwy a fforddiadwy.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Cydweithfa ariannol yw'r Undeb Credyd lleol, sy'n golygu mai ei aelodau sy'n berchen arno.
- Yn wahanol i fanc ar y stryd fawr, nid oes ganddo gyfranddalwyr allanol ac mae'r elw'n mynd yn ôl i'r aelodau.
- Gall undebau credyd gynnig cynilion hygyrch a mynediad i gredyd rhad gydag yswiriant diogelu benthyciad a bywyd wedi'i gynnwys (gydag amodau).
- Yn y gorffennol, roedd ymwybyddiaeth o'r Undeb Credyd ymhlith staff y cyngor a thrigolion Abertawe'n weddol isel, ac mae swyddfeydd yr Undeb Credyd y tu allan i brif ardal siopa Abertawe ar hyn o bryd.
- Yn sgîl mabwysiadu datganiad polisi ym mis Mawrth 2013, mae'r cyngor wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Undeb Credyd lleol a sefydliadau partner eraill i roi cyfleusterau benthyca a gwasanaethau cefnogi gwell a mwy cynaliadwy ar waith i bobl Abertawe. Un o'r nodau pennaf oedd lleihau gweithgareddau cwmnïau benthyciad diwrnod tâl, benthycwyr llog uchel a phrynwyr oportiwnistaidd sy'n gallu gadael teuluoedd mewn amgylchiadau byw diflas ac yn methu dianc rhag cylch dyled peryglus.
- Gwelwyd cynnydd o 55% yn nifer y staff sy'n cynilo drwy ddidyniadau cyflogres rhwng 2012/13 a 2013/4, ond mae'r nifer - cynnydd o 56 i 101 - yn gymharol isel o hyd.
- Rydym yn datblygu tudalen lanio a fydd yn cyfeirio staff sy'n chwilio am wefannau benthycwyr diwrnod tâl at yr Undeb Credyd fel dewis moesegol, yn ogystal â'u cyfeirio at gyngor/cefnogaeth ar ddyled. Bydd yr un dudalen ar gael ar gyfrifiaduron a ddefnyddir gan y cyhoedd hefyd.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae pob un o aelodau Cabinet y Cyngor wedi ymaelodi â'r Undeb Credyd. Dylai hyrwyddo'r Undeb Credyd a'i gwneud yn haws i ymaelodi annog rhagor o aelodau staff a'r cyhoeddi i fod yn aelodau.
- Mae nifer bach o dimau unigol wedi cael cyflwyniad ar yr Undeb Credyd yn eu cyfarfodydd tîm arferol.
- Rydym wedi rhwystro mynediad i wefannau benthycwyr diwrnod tâl ar gyfrifiaduron y cyngor.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i hyrwyddo'r Undeb Credyd ymhlith staff y cyngor, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys systemau cyfathrebu mewnol y cyngor, Arwain Abertawe a'r Undebau Llafur.	I annog mwy o staff y cyngor i ymaelodi â'r Undeb Credyd.
Parhau i ddarparu cyfres o gyflwyniadau i staff, drwy gyfarfodydd tîm, ar yr amrywiaeth o wasanaethau ariannol cystadleuol sydd ar gael gan yr Undeb Credyd.	I chwalu'r syniad a allai fod gan staff y cyngor bod yr Undeb Credyd ar gyfer pobl sy'n wynebu tlodi neu galedi yn unig, fel eu bod yn ei ystyried yn opsiwn sy'n addas iddynt hwy. I sicrhau staff y cyngor bod yr Undeb Credyd yn cael ei reoleiddio gan yr FSA (Awdurdod Gwasanaethau Ariannol) a bod yr FSCS (Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol) yn berthnasol i'r holl gynilon fel y byddant yn hyderus i fod yn aelodau.
Gwneud hi'n haws i staff y cyngor ymaelodi â'r Undeb Credyd yng Nghanolfan Gyswllt y cyngor neu drwy ddidyniadau cyflogres i annog aelodaeth.	Mae swyddfa'r Undeb Credyd ar gyrion canol y ddinas, felly mae'n hawdd i staff ei chyrraedd yn gyffredinol. Bydd y gallu i ymaelodi a chynilo yn y gweithle'n cael gwared ar y rhwystr daearyddol.
Gweithio gyda'r undebau llafur i gael eu cefnogaeth wrth hyrwyddo'r Undeb Credyd	Er bod y pwyslais ar annog staff i gynilo mwy, nodwyd bod staff sy'n cael anawsterau ariannol weithiau'n mynd i'w hundebau llafur am gyngor a chefnogaeth ariannol. Felly, gallant fod yn gyswllt ar gyfer eu haelodau sy'n chwilio am gyngor oherwydd amgylchiadau ariannol.

D3. Tenantiaid y Cyngor sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd

Nod: Annog mwy o denantiaid y cyngor i ymaelodi â'r Undeb Credyd

Mesur: Nifer tenantiaid y cyngor sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
-	-	-	-	-	89 @ 6.3.14	Cronnol 150	Cronnol 250	Cronnol 350

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd cynyddu nifer tenantiaid y cyngor sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd yn eu helpu i reoli eu harian a thalu eu rhent a'u biliau'n brydlon, mewn ymgais i'w helpu i osgoi mynd i ôl-ddyledion rhent ac anawsterau ariannol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Cydweithfa ariannol yw Undeb Credyd Abertawe, sy'n golygu mai ei aelodau sy'n berchen arno. Yn wahanol i fanc ar y stryd fawr, nid oes ganddo gyfranddalwyr allanol ac mae'r elw'n mynd yn ôl i'r aelodau.

- Yn ystod 2013/14 gwnaeth y Gwasanaeth Tai ymrwymiad i Undeb Credyd Abertawe (LASA) y byddai'n ei gefnogi er mwyn ei helpu i gynyddu ei allu ariannol. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynwyd cynllun peilot i annog tenantiaid i ymaelodi. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Undeb Credyd i denantiaid a thalu'r ffi fechan ar gyfer y rhai a oedd am ymaelodi â'r cynllun.

- Caiff y cynllun ei adolygu bob blwyddyn oherwydd y gall unrhyw benderfyniadau/newidiadau a wneir yn y dyfodol wrth roi Credyd Cynhwysol ar waith effeithio ar y cynllun. Bwriedir parhau â'r cynllun yn ystod 2014/15.

- Gall undebau credyd gynnig cynilion hygyrch a mynediad i gredyd rhad gydag yswiriant diogelu benthyciad a bywyd wedi'i gynnwys (gydag amodau). Mae annog tenantiaid i chwilio am gredyd mwy fforddiadwy yn gysylltiedig â'r agenda gwrthdlodi. Mae hefyd yn rhan o bolisi'r cyngor i hyrwyddo LASA i holl drigolion Abertawe.

- Caiff amrywiaeth o gyfrifon eu cynnig er mwyn cefnogi tenantiaid y cyngor i baratoi am rai o'r newidiadau sylweddol i fudd-daliadau a ddaw i rym pan gyflwynir Credyd Cynhwysol erbyn 2017.

- Er y gwelwyd gostyngiad o 400 yn nifer y tenantiaid sy'n derbyn llai o fudd-dal tai yn sgîl dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr ers mis Ebrill 2013, mae'n dal i effeithio ar oddeutu 1900. Mae lle i hyrwyddo'r Undeb Credyd o hyd gan y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio ar y tenantiaid hyn.

- Bydd Undeb Credyd Abertawe'n cynnig helpu teuluoedd i reoli eu harian a thalu eu rhent neu eu biliau'n brydlon mewn ymgais i atal pobl rhag mynd i drafferthion ariannol.
- Ym mis Mawrth 2013, mabwysiadodd y cyngor ddatganiad polisi i weithio mewn partneriaeth â'r Undeb Credyd lleol a sefydliadau partner eraill i roi cyfleusterau benthyca a gwasanaethau cefnogi gwell a mwy cynaliadwy ar waith i bobl Abertawe. Un o'r nodau pennaf yw lleihau gweithgareddau cwmnïau benthyciad diwrnod tâl, benthycwyr llog uchel a phrynwyr oportiwnistaidd a allai achosi problemau dyled i deuluoedd diamddiffyn. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol o hyd ac felly bydd yn parhau yn 2014/15.
- Darperir cyfrif rhent, cyfrif cynilo a chyfrif cyllidebu i denantiaid y cyngor sy'n ymaelodi â'r cynllun.
- Ar ôl i'r tenant dalu i'r cyfrifon hyn, bydd yr Undeb Credyd yn gwneud taliadau rhent uniongyrchol ar ei ran ar y dyddiad talu os yw'r tenant yn dymuno.
- Yna, rhoddir yr arian sydd dros ben ar gerdyn rhagdaledig y gellir ei ddefnyddio fel cerdyn debyd.
- Manteision y cynllun hwn yw nad oes unrhyw daliadau banc, ynghyd â'r sicrwydd bod y biliau hanfodol yn cael eu talu.
- Bydd gan denantiaid sy'n ymuno â'r cynllun gyfle i ddefnyddio'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan Undeb Credyd, megis cynlluniau cynilo a benthyciadau fforddiadwy.
- Roedd 89 o denantiaid yn aelodau'r Undeb Credyd ar 6 Mawrth 2014. Mae'r canlyniad hwn yn un cadarnhaol oherwydd nad oedd gennym unrhyw darged gwaelodlin a'r bwriad o'r cychwyn oedd cynyddu aelodau'n araf.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Penodwyd Swyddog Tenantiaeth newydd. Pryd bynnag y bo modd, mae'n bresennol pan fydd tenantiaid newydd yn llofnodi eu tenantiaeth - gan dargedu'r rhai mwyaf diamddiffyn - ac mae'n hyrwyddo'r Undeb Credyd.
- Yn ogystal â'r swyddog tenantiaeth newydd, mae'r swyddogion rhent a'r swyddog cynhwysiad ariannol yn nodi tenantiaid â phroblemau dyled ac yn eu hannog i ymaelodi â'r Undeb Credyd. Mae'r Gwasanaethau Tai yn talu'r ffioedd ar gyfer tenantiaid presennol hefyd. Mae'n gwneud hyn er mwyn annog tenantiaid â phroblemau dyled i osgoi sefydliadau benthyca arian drud.
- Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â'r DWP i baratoi ar gyfer effaith Credyd Cynhwysol.
- Mae Swyddfeydd Tai Rhanbarthol y cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Undeb Credyd ac anfonir pecynnau gwybodaeth at denantiaid y cyngor, gan gynnwys rhai newydd.

- Mae'r Gwasanaeth Tai wedi cynhyrchu ei lyfryn gwybodaeth ei hun ar gyfer tenantiaid.
- Mae awdurdod gan Wasanaeth Tai'r Cyngor i gadarnhau prawf o incwm/hunaniaeth etc ar gyfer tenantiaid sy'n ymaelodi â'r Undeb Credyd a bydd hyn yn helpu i gyflymu'r broses.
- Mae adrannau eraill y cyngor wedi cael eu briffio am newidiadau'r diwygiadau lles a'r Undeb Credyd ac maent wedi derbyn pecynnau gwybodaeth.
- Darperir hyfforddiant i staff rheng flaen yr adran tai i sicrhau bod yr holl wasanaeth yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Undeb Credyd. Yn ogystal, mae holl staff y gwasanaeth tai yn ymwybodol - drwy daflen wybodaeth y tîm/sesiynau briffio - o fanteision cynilo gyda'r Undeb Credyd.
- Mae pecynnau gwybodaeth yn cael eu darparu i'r trydydd sector hefyd, e.e. Swyddfa Cyngor ar Bopeth, Shelter, cyfreithwyr lleol etc er mwyn hyrwyddo'r Undeb Credyd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i annog tenantiaid y cyngor a thenantiaid newydd i ymaelodi â'r Undeb Credyd ac agor cyfrifon.	Er mwyn i denantiaid allu rheoli eu harian a thalu eu rhent neu eu biliau'n brydlon.
Annog tenantiaid i ddefnyddio eu cyfrifon gyda'r Undeb Credyd i dalu eu rhent yn uniongyrchol i'r Cyngor.	Mae'r dull hwn o dalu'n uniongyrchol yn arfer rheolaeth ariannol da i denantiaid ac yn ffordd effeithiol i'r cyngor gasglu rhent.
Parhau i gynhyrchu pecynnau gwybodaeth am yr Undeb Credyd a'u dosbarthu i Swyddfeydd Tai Rhanbarthol, adrannau eraill y cyngor a phartneriaid y trydydd sector.	I wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Undeb Credyd ac annog rhagor o denantiaid y cyngor i ymaelodi.
Cyhoeddi erthyglau rheolaidd yn Tŷ Agored i hyrwyddo'r Undeb Credyd i'r holl denantiaid.	Er mwyn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Undeb Credyd a hyrwyddo ei rôl.
Parhau i ddarparu gwybodaeth am yr Undeb Credyd i staff allweddol y cyngor.	I sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r Undeb Credyd a'u bod yn annog tenantiaid i ymaelodi ac agor cyfrifon.
Parhau i fonitro'r cynllun yn 2014/15 a nifer yr aelodau yn y blynyddoedd nesaf.	I sicrhau bod tenantiaid yn parhau i elwa o'r cynllun.
Byddwn yn ymgynghori ymhellach â	I gynyddu ymwybyddiaeth, casglu

thenantiaid wrth ddatblygu'r Strategaeth Rhenti yn 2014.	adborth ac ystyried pa ddulliau eraill sydd ar gael i gefnogi tenantiaid.

D4. Gwarantau Troi Allan a Ataliwyd

Nod: Gostwng canran y gwarantau a roddir ar waith yn erbyn tenantiaid y cyngor drwy gynnig cefnogaeth a chymorth ariannol

Mesur: % y gwarantau troi allan yn erbyn tenantiaid y cyngor oherwydd ôl-ddyledion rhent a gafodd eu hatal o ganlyniad i gefnogaeth a chymorth ariannol

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
50.86%	49.81%	53.84%	48.38%	49%	**49.5% Rhagamcaniad = 60%**	**65%**	**66%**	**67%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd cyngor a chymorth ariannol parhaus yn helpu tenantiaid sydd mewn perygl o gael eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent sy'n waeth oherwydd dyled.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r diwygiadau lles a'r penderfyniad i ddileu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi cael effaith sylweddol ar achosion o ôl-ddyledion rhent ar draws Abertawe. Mae nifer y tenantiaid sy'n gorfod talu cyfran o'u rhent (14% neu 25%) oherwydd gostyngiad yn eu budd-daliadau tai wedi gostwng o 2339 (y ffigur ar 1 Ebrill 2013) i 1986 ar 11 Chwefror 2014. Mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o resymau, gan gynnwys tenantiaethau'n dod i ben, tenantiaid yn symud i eiddo llai etc.

- Mae cyfanswm y tenantiaid mewn ôl-ddyledion (gan gynnwys y rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr) wedi cynyddu 1151, sef cynnydd o 31%. Bydd hyn yn parhau i effeithio ar adnoddau oherwydd yr amser a dreulir wrth ymwneud ag achosion newydd o ôl-ddyledion.

- Wrth i ôl-ddyledion gynyddu, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer y gweithrediadau llys a bydd y cyngor yn ceisio lleihau'r rhain cymaint â phosib. Mae'n anochel felly, y bydd cynnydd yn nifer y tenantiaid sydd mewn perygl o gael eu troi allan a bydd hyn yn effeithio ar ddigartrefedd.

- Rydym eisoes wedi gweld cynnydd o ran ôl-ddyledion ac, o ganlyniad, cynnydd bach yn nifer y tenantiaid sy'n cael eu troi allan oherwydd yr hinsawdd economaidd gyffredinol.

- Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2013/14 yn nifer y gwarantau a ataliwyd gan naill ai'r Gwasanaeth Tai neu'r llys. Y perfformiad yn y trydydd

chwarter oedd 75.9% sy'n galonogol wrth i gyngor a chefnogaeth gynnar ar gyfer tenantiaid ddechrau cael effaith.

- Mae holl swyddogion y Tîm Rhenti wedi'u hyfforddi i ddarparu amrywiaeth eang o gefnogaeth a chyngor i denantiaid. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ddyled, sut i fanteisio i'r eithaf ar fudd-dal tai, gan gynnwys ôl-daliadau, taliadau tai dewisol ac, os yw budd-daliadau wedi'u gordalu, sut i leihau'r gyfradd ad-dalu.

- Mae'r elfen o Gredyd Cynhwysol sy'n golygu bod budd-daliadau tai'n cael eu talu'n uniongyrchol i'r tenant wedi ei gohirio. Nid oes dyddiad wedi'i gadarnhau eto ond dylid ei rhoi ar waith yn Abertawe erbyn 2017 fan bellaf. Bydd hyn yn cael effaith ddifrifol ar nifer yr achosion o ôl-ddyledion rhent a lefelau perfformiad.

- Cyfanswm ôl-ddyledion rhent y cyngor ar ddiwedd 2012/13 oedd £850,187 o'i gymharu ag £805,058 yn 2011/12. Y cyfanswm ar 9 Chwefror 2014 oedd £1,118,953 gyda 1000 o denantiaethau ychwanegol mewn ôl-ddyledion. Mae'n debyg mai dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr a'r hinsawdd economaidd gyffredinol sy'n gyfrifol am hyn.

- Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n anochel y bydd angen monitro effaith credyd cynhwysol yn ofalus, ynghyd ag agweddau eraill ar ddiwygiadau lles.

- Mae'r cyngor yn gweithio gydag Undeb Credyd Abertawe i annog tenantiaid i ymaelodi ac i ddarparu cyfrifon i'w helpu i reoli eu harian, talu eu biliau a'u rhent yn brydlon ac osgoi mynd i anawsterau ariannol

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae staff tai'r cyngor yn cynnig cymorth i gwblhau ffurflenni cais am Daliadau Tai Dewisol, a fydd yn helpu tenantiaid y cyngor i ychwanegu at eu budd-dal tai am gyfnod cyfyngedig.

- Mae'r cyngor wedi newid ei weithdrefnau ôl-ddyledion rhent er mwyn rhoi cyfnod estynedig i'r tenantiaid hynny y bydd colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn effeithio arnynt. Cyn dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr, roedd 1301 o denantiaid yn derbyn budd-dal tai llawn a heb unrhyw ôl-ddyledion. Mae 738 o'r rhain mewn ôl-ddyledion bellach.

- Darperir cymorth i denantiaid y cyngor sydd mewn ôl-ddyledion am y tro cyntaf oherwydd y tâl am danfeddiannu, ar yr amod eu bod yn dangos eu bod yn fodlon symud i eiddo llai.

- Mae swyddog cynhwysiad ariannol arbenigol y Tîm Rhenti a'r swyddogion tenantiaethau newydd yn helpu tenantiaid drwy gynnig cefnogaeth a chyngor ar y diwygiadau lles ac ar reoli eu hôl-ddyledion yn gyffredinol.

- Mae ymagwedd ‘gadarn ond teg’ at adennill ôl-ddyledion yn sicrhau y gellir eu cyfyngu yn hytrach na chaniatáu iddynt gynyddu y tu hwnt i reolaeth, sy’n helpu tenantiaid i reoli eu hôl-ddyledion.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i gynorthwyo tenantiaid y cyngor i gwblhau ffurflenni cais am daliadau tai dewisol.	Er mwyn i denantiaid allu ychwanegu at eu budd-dal tai ac osgoi dyled.
Byddwn yn ymgynghori ymhellach â thenantiaid fel rhan o lunio'r Strategaeth Rhenti yn 2014.	I gynyddu ymwybyddiaeth, casglu adborth ac ystyried pa ddulliau eraill sydd ar gael i gefnogi tenantiaid.
Gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â chyflwyno Credyd Cynhwysol.	Lle bo perygl y gallai talu'r elfen tai'n uniongyrchol i denantiaid effeithio'n ddifrifol ar lefelau ôl-ddyledion rhent a pherfformiad.
Cyfeirio tenantiaid â phroblemau dyled at Swyddog Cynhwysiad Ariannol y Gwasanaeth Tai, yr Uned Cefnogi Tenantiaid, etc am gymorth a chefnogaeth ariannol.	Er mwyn helpu i sicrhau y telir biliau a rhent yn brydlon a bod tenantiaid yn gallu rheoli eu harian ac osgoi anawsterau ariannol.
Parhau i annog tenantiaid newydd i ymaelodi â'r Undeb Credyd ac agor cyfrifon.	

D5. Atal Digartrefedd

Nod: Cynyddu canran yr aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref y llwyddwyd i atal digartrefedd am 6 mis.

Mesur: (HHA/013) % yr aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref y llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 mis.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
23.3%	29.1%	29.4%	35.2%	49.3%	**49.5%** **Rhagamcaniad = 48%**	**48%**	**40%**	**40%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd atal digartrefedd yn helpu pobl i gynnal sefydlogrwydd a diogelwch eu teuluoedd, diogelu eu hiechyd a'u lles ac atal eithrio cymdeithasol, gan leihau'r costau sy'n gysylltiedig â darparu llety gwely a brecwast dros dro.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r cyngor yn gweithio i atal digartrefedd lle bynnag y bo modd. Mae'r cyngor yn gwneud hyn drwy helpu pobl i aros yn eu cartrefi presennol yn y tymor hir neu nes y bydd rhywun yn gallu cael cartref arall.

- Er enghraifft, bydd y cyngor yn siarad â pherthnasau a ffrindiau am adael i rywun aros yn eu cartref nes y gall yr unigolyn hwnnw ddod o hyd i rywle mwy addas. Ymysg pethau eraill, bydd yn helpu hefyd gyda rhybuddion i ymadael ac achosion meddiannu gan landlordiaid neu fenthycwyr morgais.

- Mae'r perfformiad o ran atal digartrefedd am 6 mis neu fwy wedi gwella'n gyson ers 2007/08 a chanlyniad 2012/13, sef 49.3%, yw'r un gorau hyd yn hyn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chynnydd o 14.1% ar berfformiad 2011/12, byddai'r gwelliant yn ein symud o'r 19eg safle i'r 17eg safle yn unig, yn seiliedig ar ganlyniadau 2011/12.

- Ein canlyniad cronnol ar gyfer Ebrill - Rhagfyr 2013 yw 55.3%. Fodd bynnag, rydym fel arfer yn derbyn nifer uchel o geisiadau digartrefedd yn y pedwerydd chwarter (Ionawr-Mawrth), felly mae'r canlyniad terfynol ar gyfer 2013/14 yn debygol o fod yn is na'r canlyniad presennol. Y rhagamcaniad cyfredol yw 48%.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig newidiadau i ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru ac mae'n ymgynghori â cynghorau ar hyn o bryd ar yr effeithiau posib ar y gwasanaeth. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o ddod i rym yn 2015 a gallant effeithio'n sylweddol ar ein perfformiad yn y maes hwn, gan gynnwys sut gellid mesur y dangosydd hwn yn y dyfodol.

- Yn seiliedig ar y diffiniad a'r cyfrifiadau presennol, rhagwelir y bydd y cyngor yn atal digartrefedd am 6 mis ar gyfer 40% o aelwydydd sydd mewn perygl o golli eu cartrefi erbyn 2016/17. Nid yw holl effaith diwygiadau lles ac, yn benodol cyflwyniad Credyd Cynhwysol, wedi dod i'r amlwg eto, felly mae'r ffigur hwn yn ansicr ar adeg llunio'r adroddiad hwn. Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd y ddau'n parhau i gynyddu galw am wasanaethau a phwysau ar berfformiad.

- Er bod 40% yn llai na'n perfformiad cyfredol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithgareddau atal a disgwylir y bydd nifer yr achosion lle rydym yn atal digartrefedd yn cynyddu. Fodd bynnag, mae cyfradd ceisiadau digartrefedd yn cynyddu'n gyflymach. O ran canran yn unig, mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i atal digartrefedd.

- Fel y nodwyd, bydd y diwygiadau lles yn parhau i effeithio ar ddigartrefedd ar draws Abertawe ac mae perygl hefyd y gallai'r Credyd Cynhwysol arfaethedig - talu'r elfen tai'n uniongyrchol i'r tenant - gynyddu nifer yr aelwydydd mewn ôl-ddyledion rhent a gallai hyn, yn ei dro, effeithio ar lefelau digartrefedd.

- Mae Gwasanaeth Tai'r cyngor wedi darparu cyngor a gwybodaeth am oblygiadau'r tâl tanfeddiannu i 2,500 o denantiaid y cyngor y mae'r tâl hwn yn effeithio arnynt.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae sicrhau bod systemau clir a rennir ar waith a chynnal cysylltiadau gweithio da â darparwyr tai eraill yn gwella gallu'r cyngor i helpu i atal digartrefedd ar gyfer cleientiaid.

- Yn yr un modd, mae ymyrryd yn gynnar i atal digartrefedd yn cynyddu'r cyfle i gadw rhywun yn ei gartref neu ddod o hyd i lety arall addas iddo.

- Ym mis Chwefror 2014, neilltuodd Llywodraeth Cymru arian ar gyfer gweithgareddau i atal digartrefedd. Mewn partneriaeth â'r Wallich, defnyddiwyd yr arian i ddarparu bondiau i landlordiaid nad ydynt yn fodlon derbyn tystysgrif bond, i dalu rhent ymlaen llaw ac i dalu ffioedd gweinyddol er mwyn helpu pobl i gael tenantiaeth yn y sector rhentu preifat. Defnyddiwyd yr arian hwn ar gyfer cynllun peilot i ddangos effaith sicrhau arian ar gyfer gweithgareddau atal i ganiatáu i ni weithio yn y ffordd a ddisgwylir gennym pan ddaw'r ddeddfwriaeth newydd i rym ym mis Ebrill 2015. Disgwylir y bydd rhagor o arian ar gael ar gyfer gweithgareddau atal yn y cyfnod cyn y cyflwynir y Ddeddf newydd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i feithrin a hwyluso cysylltiadau gweithio da â darparwyr tai cymdeithasol ac eraill, megis Bwrdd Bond Abertawe.	Er mwyn gwella'r cyfle i gleientiaid osgoi digartrefedd a chael llety i'w rentu.
Parhau i weithredu system gyfeirio generig a ddefnyddir ar gyfer yr holl ddarparwyr cefnogaeth a llety.	I gynnig cronfa fwy o opsiynau tai i bobl sydd dan fygythiad digartrefedd.
Parhau i hyrwyddo gwefan Tai Abertawe.	I helpu'r rhai sy'n chwilio am dai yn Abertawe i ddewis yr opsiynau tai mwyaf addas sydd ar gael iddynt.
Parhau i gynnig system Porth i ddarparwyr tai eraill.	I darparu mynediad uniongyrchol i hostelau ar gyfer pobl a allai fod yn ddigartref.
Parhau i roi cyngor ar dai a digartrefedd ac ymyrryd yn gynt.	I geisio atal cleientiaid rhag colli eu cartref.
Parhau i weithredu "Ymgynghorydd Dewis", sy'n rhoi syniad i bobl am eu cyfle i gael eiddo'r cyngor.	I alluogi'r cyngor i ddarparu gwell cyngor i bobl ar yr opsiynau tai eraill sydd ar gael.
Archwilio ffyrdd o weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu asiantaeth gosodiadau cymdeithasol.	I'n helpu i gynorthwyo aelwydydd digartref i ddod o hyd i lety preifat o safon i'w rentu.
Gweithio i atal pobl rhag mynd i ddyled, anawsterau ariannol, ôl-ddyledion rhent a bygythiad digartrefedd o ganlyniad i gyflwyno'r diwygiadau lles (gweler D1 i D4 a restrwyd o'r blaen).	Er mwyn helpu i sicrhau y telir biliau a rhent yn brydlon a bod pobl yn gallu rheoli eu harian ac osgoi anawsterau ariannol a thai.

Dd Gwella Tai a Chyflenwad Tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da.

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Ceir tueddiadau allweddol a chanddynt oblygiadau ar gyfer yr angen i wella tai a chyflenwad tai, yn enwedig tai fforddiadwy.

1. **Newidiadau demograffig**[5]:

- Poblogaeth bresennol Abertawe yw 239,600 (canol 2012), ac mae wedi tyfu dros ddeng mlynedd yn olynol ers 2001.

- Yn ôl rhagamcanion, disgwylir i boblogaeth Abertawe gynyddu 14.1% (31,200) rhwng 2011 a 2036, yr ail gyfradd dwf uchaf yng Nghymru.

- Mae nifer yr aelwydydd yn Abertawe wedi cynyddu oddeutu 9,000 (+10%) rhwng 2001 a 2011, gyda'r cynnydd mwyaf yn nifer yr aelwydydd pobl sengl.

- Gwelwyd cynnydd o 3,400 (+8.2%) ym mhoblogaeth hŷn Abertawe (dros 65 oed), sy'n arwydd o boblogaeth hŷn gynyddol.

2. **Gweithgarwch economaidd a chyflogaeth**:

- Mae gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth yn Abertawe islaw'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru a'r DU.

- Mae cyfraddau diweithdra (yn seiliedig ar arolwg) yn Abertawe yn uwch na chyfraddau Cymru a'r DU, er bod cyfraddau hawlwyr yn is.

3. **Cyflwr tai**:

- Bob blwyddyn, cysylltir cyflwr tai â hyd at 50,000 o farwolaethau ac oddeutu 0.5 miliwn o achosion salwch y mae angen triniaeth feddygol arnynt, ar draws y DU.

- Mae cyflwr tai gwael yn effeithio mwy ar aelwydydd ag incwm isel a phobl hŷn.

- Mae gwella a moderneiddio'r 13,600 o dai a fflatiau sy'n eiddo i'r cyngor fel eu bod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yn un o nodau polisi allweddol y cyngor.

- Mae'r WHQS yn ddiffiniad rhesymol o ansawdd tai cymdeithasol, a'i nod yw gwella, nid yn unig adeiledd cartrefi, ond hefyd safon yr amwynderau mewnol, yr amgylchedd ehangach o amgylch y tai a sut caiff y stoc ei rheoli.

[5] *Asesiad Anghenion Strategol* Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (2013)

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Nid oes digon o dai fforddiadwy yn Abertawe i fodloni'r galw; felly drwy ddarparu rhagor, byddwn yn diwallu'r angen hysbys hwn ac yn cyfrannu at leihau digartrefedd a nifer y bobl sy'n cael eu gorfodi i fyw mewn llety anaddas a/neu anfforddiadwy.

- Mae'r cyngor am leihau nifer y cartrefi gwag sydd ganddo a manteisio i'r eithaf ar ei stoc tai fel bod cynifer ohonynt â phosib yn cael eu meddiannu.

- Mae'n helpu i leihau nifer y tai gwag sydd gan y cyngor os yw tenantiaid yn cael cymorth i gynnal eu tenantiaethau, gan ddarparu sefydlogrwydd i'w teuluoedd a chymunedau cydlynol.

Dd1. Tai Fforddiadwy

Nod: Cynyddu nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd

Mesur: Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarperir/y mae eu hangen

Perfformiad blaenorol - wedi'u darparu						Rhagamcaniad - yr angen (cyfanswm cronnus)		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
299	124	104	297	50	**1,000** **188 wedi'u darparu erbyn Chwarter 3**	**946**	**1419**	**1892**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Nid oes digon o dai fforddiadwy yn Abertawe i fodloni'r galw. Felly, bydd helpu i ddarparu rhagor yn diwallu'r angen hysbys hwn ac yn cyfrannu at leihau digartrefedd a nifer y bobl sy'n parhau i fyw mewn llety anaddas a/neu anfforddiadwy.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae prinder tai fforddiadwy ar draws Dinas a Sir Abertawe a dyma broblem allweddol sy'n wynebu trigolion ar hyn o bryd.

- Cyhoeddwyd yr Asesiad o'r Farchnad Dai sy'n dangos bod angen 7100 o dai fforddiadwy yn Abertawe erbyn 2025. Mae hyn gyfwerth â 473 y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r rhagamcanion cronnol hyd at 2016/17 wedi'u diwygio. Nid yw hyn yn darged ond mae'n adlewyrchu nifer y tai newydd y mae eu hangen. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y caiff yr angen hwn ei ddiwallu'n llawn oherwydd yr ansicrwydd yn yr economi a gall y ffigur hwn newid dros amser.

- Mae'r ffigurau ar gyfer unedau tai fforddiadwy newydd yn y tabl ar y dudalen flaenorol yn deillio o'r adroddiad ystadegol a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn cynnwys anheddau parhaol newydd a adeiladwyd, cynnydd yn nifer yr anheddau drwy addasu neu wella adeiladau ac unedau tai a drosglwyddwyd i LCC gan ddatblygwyr fel rhan o gytundebau Adran 106. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys morgeisi a achubwyd ac unrhyw uned arall a drosglwyddwyd i'r stoc tai fforddiadwy. Darparwyd 188 o unedau hyd at drydydd chwarter 2013/14.

- Nid yw cost prynu a rhentu tŷ am ei werth ar y farchnad yn fforddiadwy i lawer o bobl ar incwm isel ac, o ganlyniad, mae angen ymyrryd yn y farchnad dai i ddarparu tai fforddiadwy mewn modd arall.

- Mae'r dirwasgiad economaidd presennol wedi effeithio ar y farchnad dai.

- Mae prisiau tai sy'n gostwng ac anallu prynwyr, yn enwedig rhai sy'n prynu am y tro cyntaf, i gael morgais, wedi arwain at ostyngiad dramatig yng ngweithgareddau adeiladu'r sector preifat a nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynir ar gyfer datblygiadau preswyl newydd.

- Ar yr un pryd, mae llai o arian ar gael o'r Grant Tai Cymdeithasol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru at ddiben adeiladu tai fforddiadwy ychwanegol.

- Oherwydd ansicrwydd economaidd, mae'n anodd rhagweld nifer y tai fforddiadwy y bydd eu hangen yn y tymor hwy, ond mae'r angen am dai fforddiadwy sydd heb ei ddiwallu yn Abertawe'n parhau'n sylweddol.

- Roedd y gostyngiad i 50 uned yn 2012/13 o ganlyniad i lai o fflatiau'n cael eu datblygu yn y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi sicrhau grant eiddo llai i adeiladu fflatiau 1 a 2 ystafell wely. Bydd hyn yn cynyddu nifer y fflatiau sy'n cael eu hadeiladu.

- Mae rhagamcanion o'r ddarpariaeth debygol yn ddibynnol ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y cyngor, h.y. lefel y Grant Tai Cymdeithasol, gweithgarwch y farchnad dai etc. Yn y blynyddoedd blaenorol, cwblhawyd tua 150 o unedau'r flwyddyn sy'n sylweddol lai na'r hyn sy'n angenrheidiol.

- Mae gan y cyngor rôl alluogi wrth ddarparu tai fforddiadwy drwy ei swyddogaethau strategol ym maes cynllunio a thai.

- Mae'r cyngor yn gweithio i ddarparu tystiolaeth o anghenion tai a gofynion tai fforddiadwy yn Ninas a Sir Abertawe.

- Mae'r cyngor yn cynnal trafodaethau â datblygwyr, drwy ei swyddogaethau cynllunio (gan gynnwys defnyddio cytundebau Adran 106) er mwyn cynnwys tai fforddiadwy ar safleoedd mewn ardaloedd lle gellir dangos prinder tai o'r fath.

- Mae'r cyngor yn gweithio hefyd i leihau nifer yr eiddo gwag yn Abertawe ac i nodi cynlluniau i sicrhau arian Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig at ddiben darparu tai fforddiadwy. Bydd hyn yn cynnwys ailddatblygu adeiladau masnachol y gellir eu hadnewyddu i ddarparu tai fforddiadwy.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae prinder tai fforddiadwy'n broblem genedlaethol a bydd rhaid i'r cyngor barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ymchwilio i ffyrdd mwy blaengar o gynyddu nifer y tai fforddiadwy.

- Yn ddiweddar, mae asesiad o'r farchnad dai wedi nodi'r bwlch rhwng cyflenwad tai fforddiadwy a'r galw amdanynt.

- Yn y gorffennol, mae'r awdurdod wedi llwyddo i sicrhau arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru at ddiben darparu rhagor o dai fforddiadwy a bydd yn parhau i gyflwyno ceisiadau am arian ychwanegol o'r fath pan fydd ar gael.

- Mae'r awdurdod wedi cyflwyno cais llwyddiannus am arian ar gyfer nifer o gynlluniau drwy Grant Cyllid Tai Llywodraeth Cymru a'r cynllun eiddo llai.

- Mae Bwrdd Craffu Cymunedau Cryfach a Diogelach y cyngor wedi archwilio sut mae'r cyngor yn galluogi darpariaeth unedau newydd o dai fforddiadwy ac mae argymhellion allweddol y bwrdd wedi'u rhoi ar waith.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.	I ddatblygu ffynonellau newydd o lety fforddiadwy ar gyfer aelwydydd nad ydynt yn gallu fforddio cost tai ar y farchnad yn Abertawe.
Lle y bo'n briodol, parhau i ddefnyddio cytundebau Adran 106.	I sicrhau neu ehangu darpariaeth tai fforddiadwy.
Parhau i gynyddu lefelau buddsoddiad arian GTC yn Ninas a Sir Abertawe.	Er mwyn galluogi datblygu rhagor o dai fforddiadwy.
Parhau i gynyddu lefelau buddsoddiad arian GTC yn Ninas a Sir Abertawe.	Er mwyn galluogi datblygu rhagor o dai fforddiadwy.

Cyfrannu at drothwy a tharged cytunedig y Cynllun Datblygu Lleol.	I gynyddu darpariaeth tai fforddiadwy ar ddatblygiadau'r dyfodol, yn seiliedig ar yr Astudiaeth Dichonoldeb ac Asesiad y Farchnad Dai Leol.
Rhoi sylw i argymhellion Bwrdd Craffu Cymunedau Cryfach a Diogelach y Cyngor sy'n deillio o'i banel ymchwilio i ddarpariaeth tai fforddiadwy yn Abertawe.	Gyda'r nod o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.
Ymchwilio i fodelau newydd o ddarparu tai fforddiadwy drwy fodelau ariannu gwahanol.	Cynyddu i'r eithaf nifer yr unedau y gellir eu darparu drwy'r GTC neu ddulliau eraill. Byddwn hefyd yn ystyried modelau eraill â dulliau ariannu y mae angen mwy neu lai o Grant Tai Cymdeithasol arnynt. Bydd hyn yn golygu y gellir darparu mwy o unedau â llai o arian grant.

Dd2. Cartrefi Cyngor gwag

Nod: Lleihau nifer y cartrefi gwag sydd gan y cyngor.

Mesur: (HSG2) Nifer y cartrefi gwag sydd gan y cyngor.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
383	286	251	221	278	**220**	**235**	**225**	**215**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae'r cyngor am fanteisio i'r eithaf ar ei stoc tai fel bod cynifer ohonynt â phosib yn cael eu meddiannu. Mae hyn yn enwedig o bwysig yn Abertawe lle ceir prinder tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion tai hysbys.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Yn y gorffennol, bu nifer cartrefi gwag y cyngor yn uwch na'r ffigurau presennol oherwydd stoc ac ardaloedd amhoblogaidd a rhwyddineb cael morgais, prynu eiddo drwy'r cynllun Hawl i Brynu neu rentu yn y sector rhentu preifat.

- Er mwyn mynd i'r afael â nifer y cartrefi gwag, newidiodd y cyngor ei ffordd o baratoi eiddo gwag yn 2004. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â galw cynyddol am gartrefi'r cyngor, wedi arwain at ostyngiad graddol dros amser yn nifer y cartrefi gwag sydd gan y cyngor.

- Yn ystod 2012/13, gwelwyd cynnydd yn nifer y cartrefi gwag, yn bennaf oherwydd bod mwy o denantiaethau wedi dod i ben, er enghraifft, o ganlyniad i gynnydd yn nifer y: tenantiaid sy'n trosglwyddo i lety cyngor arall, tenantiaethau sy'n dod i ben yn sgîl marwolaeth y tenant a thenantiaethau sy'n dod i ben oherwydd cam-drin yn y cartref. Mae ffactorau eraill, megis strwythur presennol y gwasanaeth, yn effeithio ar nifer y cartrefi gwag hefyd. Fodd bynnag, mae adolygiad meddwl drwy systemau, sy'n edrych yn feirniadol ar y systemau sydd ar waith ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth, wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Serch hyn, mae'n amhosib rhagweld pa effaith uniongyrchol mae'r newidiadau hyn wedi'i chael ar nifer y cartrefi gwag.

- Yn ystod tri chwarter cyntaf 2013/14, gwelwyd tuedd gynyddol yn nifer y tenantiaethau a ddaeth i ben o'i chymharu â'r flwyddyn ddiwethaf/blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yn y ffigurau yn y pedwerydd chwarter. Mae dadansoddiad yn dangos bod rhagor o denantiaethau'n dod i ben oherwydd cynnydd yn nifer y tenantiaid sy'n symud i'r sector rhentu preifat; yn symud i fyw gydag aelodau teulu; yn cael eu troi allan neu'n gadael eu heiddo. Nid oes tystiolaeth gadarn ar gael i gefnogi'r rhesymau hyn ond mae'n debygol bod y diwygiadau lles yn rhannol gyfrifol.

- Er bod y cyngor yn bodloni'r targed ar gyfer cwblhau gwaith ac mae contractwyr allanol yn cyflawni eu rhwymedigaethau contract, oherwydd y cynnydd yn y nifer a'r galw, bu'n rhaid i'r cyngor recriwtio adnoddau ychwanegol.

- Er y gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cartrefi gwag dros y blynyddoedd diweddar (ac eithrio 2012/13), gyda'r nifer ar ei isaf, sef 221 (6% o'r stoc), ar ddiwedd mis Mawrth 2012, roedd cadw'r nifer yn isel bob amser yn mynd i fod yn her fawr. Ceir ansicrwydd sylweddol ynglŷn â sut bydd y diwygiadau lles yn effeithio ar symudiadau tenantiaid ac felly nifer y cartrefi gwag. Mae'n rhaid ystyried rhagamcaniadau o nifer y cartrefi gwag yn y cyd-destun hwn.

- Gellir disgwyl i'r gostyngiad o ran cartrefi gwag arafu'n naturiol gan ystyried y gostyngiad mawr yn ystod y blynyddoedd diweddar (gwelwyd gostyngiad o 42% yn y cyfnod 2008/09-2011/12). Fodd bynnag, ceir rheswm i fod yn obeithiol, wrth i'r arferion gwaith newydd a ddeilliodd o'r Adolygiad Meddwl drwy Systemau gael eu hymgorffori yn ystod 2013 a phan gaiff y newidiadau arfaethedig i strwythur Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol y Cyngor eu rhoi ar waith yn ystod 2013 hefyd. Adolygir y newidiadau hyn yn ystod 2014 i fesur eu heffaith. Mae rhagor o newidiadau yn yr arfaeth ar gyfer 2014/15 a ddylai leihau'r amser a gymerir i ailosod eiddo.

- Awgrymir felly, y byddai gostyngiad bychan graddol bob blwyddyn yn fwy realistig ac yn haws ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf.

- Y ffigur ar gyfer Chwarter 3 yw 304 ond, er bod cyfradd y tenantiaethau sy'n dod i ben wedi arafu ar ddechrau Chwarter 4, mae'n anodd rhagweld canlyniadau diwedd y flwyddyn eto.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Profwyd bod defnyddio coffrau allweddi'n fuddiol. Er enghraifft, prynwyd 200 o goffrau allweddi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu defnyddio. Mae'r rhain wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o ymgymryd â nifer o dasgau ar yr un pryd.

- Datblygwyd system TG newydd er mwyn monitro effaith coffrau allweddi ar yr amser a gymerir i ailosod eiddo gwag. Mae gwasanaeth clirio, garddio a glanhau wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2013 ac mae'r ymagwedd gydlynol hon o gyflawni'r tasgau hyn wedi bod yn llwyddiannus.

- Mae'r holl swyddfeydd tai rhanbarthol wedi mabwysiadu gweithdrefnau hyblyg ar gyfer ymdrin â thenantiaethau sy'n dod i ben. Nod y fenter hon yw gwneud defnydd mwy effeithiol o'r cyfnod pan fydd tenant wedi rhoi rhybudd o'i fwriad i adael ei denantiaeth.

- Cyfleoedd i weld eiddo yng nghwmni aelod staff y cyngor yn ystod y broses atgyweirio - mae hyn wedi bod ar waith yn llwyddiannus iawn mewn sawl ardal: bydd ar gael ym mhob ardal a rhoddir gweithdrefnau newydd ar waith maes o law. Bwriedir rhoi hyn ar waith yn ystod 2014/15.

- Ceir llai o alw am rai mathau o eiddo ac ardaloedd. Eir i'r afael â hyn drwy farchnata eiddo, e.e. defnyddio gwefan tai Abertawe gwefan y cyngor a Homeswapper i hysbysebu eiddo.

- Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth osod rhai tai y mae galw isel amdanynt yn Townhill. Hysbysebir eiddo â galw isel bob wythnos yn Opsiynau Tai.

- Mae'r Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC) wedi cael eu hailstrwythuro a phenodwyd rheolwr eiddo gwag sy'n gweithio'n agos iawn gyda'r uned atgyweirio cartrefi.

- Mae GAEC wedi recriwtio mwy o weithwyr i wneud atgyweiriadau mewn cartrefi gwag a chynorthwyo i leihau'r amser a gymerir i ailosod eiddo. Wrth i'r gweithwyr ymsefydlu, rhagwelir y cymerir llai o amser i ailosod eiddo.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Hyrwyddo symud tai drwy Homeswapper (cyfnewid tai).	Gall nifer y tenantiaid sy'n gofyn am symud i eiddo arall y cyngor gynyddu wrth iddynt chwilio am eiddo llai oherwydd y diwygiadau lles.
Rhoi camau gweithredu ar waith i helpu tenantiaid y cyngor i aros yn eu tenantiaeth, gan gynnwys: Tynhau rheolaethau ar amodau tenantiaeth ar gyfer tenantiaid sydd am drosglwyddo; rhagor o opsiynau o ran pecynnau celfi; cyfeirio tenantiaid newydd at ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau, h.y. Undeb Credyd, elusennau, mentrau cymdeithasol etc.	I geisio lleihau cyfradd y tenantiaethau sy'n dod i ben.
Rhoi gwell strwythur ar waith, gan gynnwys y posibilrwydd o sefydlu tîm penodol i ymdrin â chartrefi gwag. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy benodi rheolwr eiddo gwag.	Er mwyn helpu i leihau nifer y cartrefi gwag sydd gan y cyngor.

Beth?	Pam?
Ymgorffori arbrofion sy'n deillio o'r Adolygiad Meddwl drwy Systemau gan ddileu pob proses ddiangen a sicrhau bod tenantiaid yn ganolog i'r system cartrefi gwag.	Er mwyn helpu i leihau nifer y cartrefi gwag sydd gan y cyngor.
Gwella dulliau marchnata a chydlynu eiddo y mae galw isel amdanynt, er enghraifft drwy ddefnyddio gwefan tai Abertawe, HomeSwapper, Opsiynau Tai a gwefan y cyngor.	I hysbysebu eiddo gwag a lleihau nifer y tai gwag sydd gan y cyngor. Mae hyn wedi helpu i osod rhai o'r cartrefi nad oes llawer o alw amdanynt.
Adolygu'r Gofrestr Tai'n rheolaidd a gwella ansawdd yr wybodaeth am yr eiddo a'r ardal ar gyfer darpar denantiaid.	I leihau nifer y darpar denantiaid sy'n cael eu gwrthod.
Gwella ansawdd eiddo'r cyngor, e.e. lwfansau glanhau/ailbaentio; gwella ansawdd drysau, darparu ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd mewn cartrefi gwag, ar y cyd â'r rhaglen gyfalaf lle bynnag y bo hynny'n briodol, a thrwy weithio at fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru.	I annog tenantiaid i aros yn eu tenantiaeth a lleihau nifer y cartrefi gwag sydd gan y cyngor.

Dd3. Cynnal tenantiaethau'r cyngor

Nod: Cynyddu canran tenantiaid y cyngor sy'n aros yn eu tenantiaeth am fwy na 2 flynedd.

Mesur: % tenantiaid y cyngor sy'n aros yn eu tenantiaethau am fwy na 2 flynedd.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
77.16%	75.13%	75.05%	76.45%	77.00%	**77.5%** **76.82% ar adeg llunio'r adroddiad hwn**	**78.00%**	**79.00%**	**80.00%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae'n bwysig bod tenantiaid yn gallu cynnal eu tenantiaethau er mwyn gwella sefydlogrwydd eu teuluoedd a chreu cymunedau cydlynol i fyw ynddynt.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Cyflwynwyd DP newydd ar gyfer 2013/14, felly nid oes unrhyw ddadansoddiad na gwaith wedi'i wneud ar y dangosydd hwn.

- Yn ystod 2012/13, daeth mwy o denantiaethau i ben, er enghraifft oherwydd cynnydd yn nifer y: tenantiaid sy'n trosglwyddo i lety cyngor arall a thenantiaethau sy'n dod i ben oherwydd cam-drin yn y cartref.

- Yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud i osod rhagor o eiddo, mae'r cyngor am annog a helpu tenantiaid i aros yn eu tenantiaeth yn hwy. Yn ogystal â lleihau nifer y cartrefi gwag, bydd hyn hefyd yn gwella sefydlogrwydd teuluoedd a'r cymunedau maent yn byw ynddynt.

- Mae llawer o ffactorau'n effeithio ar y cyfnod mae pobl yn aros yn eu tenantiaethau, megis cyflwr y stad dai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ganfyddiadau ohono, newidiadau mewn cyfansoddiad teuluoedd, megis y twf yn nifer yr aelwydydd person sengl, methu fforddio'r math o lety mae'r tenant am fyw ynddo yn ei ardal o ddewis, argaeledd ac ansawdd cyfleusterau cymunedol ac addasrwydd yr eiddo i anghenion a gofynion yr unigolyn, er enghraifft addasiadau arbennig.

- Dylai gwella safon yr eiddo annog mwy o denantiaid i aros yn hwy yn eu cartrefi. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Tai'n gweithio i wella ei stoc gyfan fel y bydd yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.

- Ceir ansicrwydd sylweddol ynglŷn â sut bydd y diwygiadau lles yn effeithio ar symudiadau tenantiaid. Efallai y bydd rhaid i rai tenantiaid dalu tâl tanfeddiannu am ystafelloedd gwely sbâr neu bydd rhaid iddynt symud. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cymaint o gymorth â phosib i denantiaid i helpu i liniaru effaith y diwygiadau lles. Y ffigur ar gyfer sefydlogrwydd yn chwarter 3 oedd 74.71%.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae'r cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i helpu tenantiaid i aros yn eu tenantiaethau. Mae'r rhain yn amrywio o'i wasanaethau rheoli tenantiaethau a stadau i ddarparu gwasanaethau arbennig megis yr Uned Cefnogi Cymdogaethau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r Uned Cefnogi Tenantiaid sy'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cyngor a chefnogaeth i denantiaid i'w helpu i gynnal eu tenantiaethau.

- Mae'r cyngor wedi ymweld â 2500 o denantiaid y gallai'r diwygiadau lles effeithio arnynt er mwyn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau a'r goblygiadau ar gyfer eu tenantiaethau a chynnig cymorth a chyngor.

- Mae swyddog cynhwysiad ariannol yn y Tîm Rhenti'n helpu tenantiaid gyda phroblemau dyled a ddylai eu helpu i gynnal eu tenantiaethau.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Gwella'r stoc tai fel y bydd yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.	I wella ansawdd tai'r cyngor ac annog tenantiaid i aros yn eu cartrefi'n hwy.
Parhau i archwilio sut gall y cyngor liniaru effaith y diwygiadau lles ar denantiaid.	Er mwyn i denantiaid allu parhau yn eu tenantiaethau.
Diweddaru'r strategaeth rheoli stadau gan ymgynghori â thenantiaid.	I helpu i wella stadau ac annog tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau.

E. Helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Ceir tueddiadau allweddol a chanddynt oblygiadau ar gyfer yr angen i helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach o fyw er mwyn gwella eu hiechyd.

1. **Marwolaeth Gynamserol**[6]:

- Yn unol â gweddill y DU, cafwyd tuedd am i lawr mewn marwolaeth gynamserol (dan 75 oed) o bob achos yn Abertawe.

- Fodd bynnag, mae cyfraddau marwolaeth gynamserol yn Abertawe wedi parhau'n uwch na'r cyfartaledd, er nad oedd y gyfradd yn Abertawe'n ystadegol uwch na chyfartaledd Cymru yn 2007-2009 (Abertawe, 143 o farwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth; Cymru, 394 o farwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth).

2. **Gordewdra**:

- Yn Abertawe, cofnodir bod dros hanner y boblogaeth sy'n oedolion (57%) dros eu pwysau neu'n ordew, sydd wedi cynyddu 5 pwynt canran ers yr asesiad o anghenion diwethaf yn 2003/4.

- Yn Abertawe, dim ond 32% o bobl sy'n bwyta'r swm o ffrwythau a llysiau a argymhellir bob dydd.

3. **Gweithgarwch corfforol**:

- Yn y blynyddoedd diweddar, mae canran yr oedolion yn Abertawe sy'n gwneud y lefel o weithgarwch corfforol a argymhellir wedi parhau'n weddol sefydlog. Mae'r ffigurau ar gyfer 2011/12 (26%) yn nodi bod Abertawe islaw cyfartaledd Cymru (29%) ac yn un o'r pedwar awdurdod lleol gwaethaf yng Nghymru.

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Mae'r cyngor am annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw o ran deiet a gwella eu lefelau gweithgarwch corfforol.

- Er mwyn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ymhellach, hoffai'r cyngor annog mwy o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed i barhau â'u gweithgareddau corfforol neu chwaraeon y tu allan i'r ysgol er mwyn gwella cyfranogiad parhaus mewn gweithgareddau iach.

- Yn yr un modd, os llwyddir i gynyddu % y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed, byddant yn llai tebygol o foddi a byddant hefyd yn dysgu sgil bywyd sy'n hwyl ac yn cyfrannu at ffordd iach o fyw.

[6] *Asesiad Anghenion Strategol* Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (2012)

- Ar ben arall y sbectrwm, hoffai'r cyngor weld mwy o bobl sydd wedi cael eu cyfeirio at raglen ymarfer corff y cyngor gan eu meddygon teulu'n parhau'n actif ar ôl 12 mis er mwyn dangos eu bod wedi mabwysiadu ffordd iachach o fyw.
- Bydd cynyddu nifer y lleoedd tyfu'n annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain, gan eu helpu i ymdopi â phrisiau bwyd cynyddol, annog hunangynhaliaeth, darparu gweithgaredd iach a hyrwyddo bwyta'n iachach.
- Bydd cynyddu % y disgyblion ysgol sy'n bwyta prydau ysgol am ddim yn cynorthwyo dysgu ac yn helpu i sicrhau lles disgyblion yn y dyfodol.

E1. Cynnal lefelau gweithgareddau corfforol a chwaraeon y tu allan i'r ysgol

Nod: Cynyddu canran y bobl ifanc 11-16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mesur: % y plant 11 i 16 oed sy'n cymryd rhan mewn 20 neu fwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ysgol.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
5%	7%	7%	9%	9%	**11% Gwir = *6.12%**	**11%**	**12%**	**13%**

*Mae'r holl ganlyniadau a'r targedau yn y tabl yn cael eu hadrodd am y flwyddyn flaenorol, yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn academaidd flaenorol. Er enghraifft, mae'r canlyniad ar gyfer 2013-14, sef 6.12%, yn seiliedig ar berfformiad blwyddyn academaidd 2012-13 pan gofnodwyd y canlyniad ym mis Gorffennaf 2013. Cofnodir canlyniad 2014-15 ym mis Gorffennaf 2014.

Pam mae hyn yn bwysig:
- Hoffai'r cyngor annog mwy o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed i barhau â'u gweithgareddau corfforol neu chwaraeon y tu allan i gwricwlwm yr ysgol er mwyn gwella cyfranogiad parhaus a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:
- 5x60 yw enw rhaglen genedlaethol a ariennir gan Chwaraeon Cymru ac sy'n cael ei darparu'n lleol gan Ddinas a Sir Abertawe. Y nod pennaf yw cynyddu cyfleoedd cynaliadwy i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a chynyddu cyfranogiad gan bobl ifanc 11-16 oed.
- Nod y rhaglen yw darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol allgyrsiol mewn ysgolion ac yn y gymuned leol sy'n gallu arwain at lwybrau gadael cynaliadwy drwy glybiau a grwpiau cymunedol gan annog cyfranogiad tymor hwy.

- Datblygir cyfleoedd 5x60 gan swyddogion pobl ifanc actif sy'n defnyddio hyfforddwyr cymunedol, hyfforddwyr gwirfoddol, arweinwyr chwaraeon a rhieni i helpu i ddarparu'r cyfleoedd.

- Mae'r gwasanaeth 5x60 yn gwrando ar farn pobl ifanc (llais y disgybl) drwy amrywiaeth o ddulliau megis yr Arolwg Cenedlaethol o Chwaraeon Ysgol, cysylltiad uniongyrchol, ymgynghori rhwng y swyddogion pobl ifanc actif a thrwy'r rhaglen Cenhadon Ifanc sy'n grymuso pobl ifanc i wneud eu penderfyniadau eu hunain drwy ymgynghori, arweinyddiaeth a pherchnogaeth.

- Cynyddodd canran y bobl ifanc 11-16 oed sy'n gwneud 20 neu fwy o weithgareddau corfforol neu chwaraeon allgyrsiol o 5% ym mlwyddyn academaidd 2008-09 i 9% yn 2011-12. Mae'r cynnydd o ganlyniad i ddatblygu'r rhaglen a chynnydd yn nifer y cyfleoedd wrth i ragor o ysgolion fabwysiadu 5x60.

- Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, gostyngodd y perfformiad i 6.12% (cofnodwyd y canlyniad yn 2013/14) oherwydd nifer uchel o staff yn gadael a phroblemau recriwtio a effeithiodd ar nifer y cyfleoedd a oedd ar gael i blant gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

- Ar yr adeg hon, adolygwyd y gwasanaeth i ystyried sut gellid ei ailstrwythuro i'w wneud yn fwy effeithiol. O ganlyniad, mae Swyddogion Pobl Ifanc Actif (Swyddogion PIA) yn rhoi mwy o bwyslais ar hwyluso a byddant yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â chlybiau lleol a sefydliadau cymunedol yn eu hardaloedd dynodedig.

- Rhoddwyd y strwythur newydd ar waith ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2013/14 (Medi 2013) ac mae wedi dechrau'n dda gyda 10% mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan yn rhaglen 5x60 o'i gymharu â'r un cyfnod (tymor yr hydref) yn 2012/13. Rydym yn obeithiol iawn y bydd y perfformiad hwnnw'n gwella a chaiff y rhagamcaniad o 11% ar gyfer 2014/15 ei gyflawni ym mis Gorffennaf 2014.

- Fodd bynnag, mae problemau parhaus ynghylch yswiriant i wirfoddolwyr yn cyfyngu ar rôl y swyddog PIA a bellach mae'n rhaid iddo oruchwylio pob gwirfoddolwr sy'n cyflwyno gweithgaredd. Mae'n hyn yn cyfyngu ar nifer y cyfleoedd y gellir eu cynnwys yn y rhaglen oherwydd bod rhaid i'r swyddog PIA fod yn bresennol ar bob adeg, er bod cymwysterau digonol gan rai o'r gwirfoddolwyr. Mae'r amser a dreulir gan swyddogion yn goruchwylio'n cyfyngu ar eu gallu i wneud gwaith datblygu. Mae'r tîm PIA yn ceisio datrys y broblem hon gydag adran yswiriant yr awdurdod.

- Er gwaethaf hyn, disgwylir i'r perfformiad wella bob blwyddyn i 15% yn 2017/18.

- Ar hyn o bryd, mae'r tîm PIA yn cyflwyno 'Chwarae i Ddysgu' ac 'Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig' mewn ysgolion cynradd i ddatblygu sgiliau a hyder pobl ifanc er mwyn eu hysgogi i fod yn actif yn rheolaidd wrth iddynt symud i'r ysgol uwchradd a'r tu hwnt.

- Mae'r tîm PIA wedi dechrau cefnogi darpariaeth chwaraeon cymunedol ar garreg drws pobl gyda Street Games UK. Bydd hyn yn parhau ym mlwyddyn academaidd 2014/15. Cynhelir gweithgareddau rheolaidd mewn cyfleusterau megis ardaloedd gemau aml-ddefnydd, parciau, canolfannau cymunedol, mannau agored a hyd yn oed mewn meysydd parcio, gan ddibynnu ar yr angen a'r math o weithgaredd sy'n cael ei ddarparu. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd rheolaidd mewn ardaloedd lle ceir llai o glybiau chwaraeon cymunedol ac mae'r cyfraddau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn llai na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- O ganlyniad i'r adolygiad a'r ailstrwythuro, datblygwyd ymagwedd newydd at ddarparu gwasanaeth, yn seiliedig ar ardaloedd. Bellach, mae rôl y swyddogion PIA wrth ddarparu gweithgareddau'n uniongyrchol wedi'i lleihau ac maent yn canolbwyntio ar ddatblygu a hwyluso mwy o gyfleoedd drwy hyfforddwyr cymunedol ac arweinwyr ifanc.
- Ers penodi hyfforddwyr cymunedol, bu modd darparu cyfleoedd rheolaidd a sefydlog i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
- Yn ogystal, mae'r hyfforddwyr cymunedol yn cefnogi'r Swyddogion PIA wrth farchnata a hyrwyddo pob rhaglen PIA i bobl ifanc.
- Mae'r tîm PIA wedi gwneud rhagor o waith gyda'r ysgolion i gyflwyno staff newydd a phwysleisio'r ymagwedd newydd sy'n seiliedig ar ardaloedd (yn hytrach nag ar ysgolion).
- Bydd Arweinwyr Ifanc a Chenhadon Ifanc hefyd yn rhan o gyflwyno'r rhaglenni gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth uniongyrchol gan Swyddogion PIA a Hyfforddwyr Chwaraeon Cymunedol. Mae'r Cenhadon Ifanc wedi cyflawni rôl werthfawr iawn wrth sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig a thrwy eu brwdfrydedd i feithrin cysylltiadau â phobl ifanc eraill ac athrawon a mynegi llais y disgybl ar chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
- Mae swyddogion PIA yn gyfrifol am hyfforddi, cadw a gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o wirfoddolwyr i gynorthwyo wrth gyflwyno'r rhaglen, drwy'r polisi datblygu ac allgymorth gwirfoddolwyr.
- Mae'n bwysig darparu rhaglen gytbwys o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau iechyd a ffitrwydd, hamdden a chwaraeon mwy traddodiadol pan gaiff plant eu hannog i ymaelodi â chlybiau.
- Mae rheoli perfformiad wedi bod yn elfen allweddol o hyn fel bod pob swyddog Pobl Ifanc Actif yn cael targedau i'w cyflawni sy'n cael eu monitro bob mis.
- Cynhaliwyd Arolwg ar Chwaraeon Ysgol gan Chwaraeon Cymru rhwng Ebrill a Gorffennaf 2013. Darparwyd data a thystiolaeth a fydd yn helpu i olrhain tueddiadau cyfranogiad mewn chwaraeon ysgol. Ddefnyddir y rhain i helpu i lunio polisi chwaraeon a chynllunio darparu chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws rhaglen 5x60 yn Abertawe.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Datblygu'r rhaglenni cenhadon ifanc ac arweinwyr ifanc ymhellach ar draws yr awdurdod lleol. Ymgorffori model sy'n seiliedig ar bobl ifanc.	Er mwyn cynrychioli llais y person ifanc ynghylch AG a chwaraeon ysgol yn eu hysgolion, mewn clybiau chwaraeon ac mewn cymunedau. I fanteisio ar frwdfrydedd pobl ifanc i hyrwyddo buddion ffyrdd iach o fyw a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.
Cefnogi darpariaeth cyfleoedd chwaraeon ar garreg drws pobl, ar y cyd â Chwaraeon Cymunedol, Streetgames UK a phartneriaid eraill, drwy sicrhau bod gan bobl ifanc rywle yn y gymuned i fod yn actif ar ôl yr ysgol.	I gynnal diddordeb a chyfranogiad plant a phobl ifanc yn eu gweithgaredd neu eu camp o ddewis.
Cefnogi clybiau chwaraeon cymunedol yn uniongyrchol drwy ddenu aelodau newydd, mynediad i gyfleoedd ariannu a datblygu'r gweithlu.	Er mwyn galluogi clybiau chwaraeon i gynyddu gallu a derbyn mwy o blant a phobl ifanc fel aelodau, gan sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan.
Sicrhau bod ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Abertawe yn cwblhau Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru.	Mae data'r arolwg yn caniatáu i swyddogion PIA olrhain tueddiadau cyfranogiad ac mae'n darparu tystiolaeth sy'n helpu i lunio polisi chwaraeon a chynllunio darpariaeth chwaraeon ar draws Abertawe.
Darparu adnoddau a hyfforddiant i ysgolion a chlybiau a/neu sefydliadau chwaraeon cymunedol i gynnwys Chwarae i Ddysgu ac Aml-sgiliau a Champau'r Ddraig yn eu rhaglenni.	Bydd hyn yn cyfrannu at well lefelau o ymwybyddiaeth gorfforol drwy gydol bywyd a chyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith oedolion.
Cadarnhau polisïau ar ddefnyddio gwirfoddolwyr mewn ysgolion gyda'r adran yswiriant.	

E2. Nofio erbyn 11 oed

Nod: Cynyddu canran y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed.

Mesur: % y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed.

Perfformiad Blaenorol					Rhagamcaniad		
2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
55%	76%	82%	87%	**89%***	**91%**	**92%**	**93%**

*Mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y flwyddyn flaenorol oherwydd bod y flwyddyn academaidd yn dod i ben ym mis Gorffennaf. Cofnodwyd canlyniad 2013-14 ym mis Gorffennaf 2013.

Pam mae hyn yn bwysig:

- Drwy gynyddu % y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed, bydd plant yn ddiogelach ger dŵr ac yn dysgu sgil bywyd sy'n hwyl ac yn cyfrannu at ffordd iachach o fyw.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r cyngor wedi gwella'n sylweddol a newid sut mae gwersi nofio'n cael eu cyflwyno yn y blynyddoedd diweddar sydd wedi arwain at gynnydd anferth - 34% - yn nifer y disgyblion sy'n gallu nofio erbyn 11 oed.

- Penodwyd mwy o hyfforddwyr nofio gan y cyngor sydd wedi gwella cyfleoedd a safon gwersi ar gyfer ysgolion. Yn ogystal, ad-drefnwyd yr amserlen i leihau nifer y gwersi ond cynyddu eu hyd ac mae hyn wedi gwella'r cyfraddau llwyddo.

- Defnyddiwyd y grant nofio am ddim a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnig gwersi nofio ychwanegol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol i ddisgyblion y nodwyd nad ydynt yn gallu nofio neu sy'n cael anhawster bodloni'r safon ofynnol.

- Cyflwynwyd gwersi un i un ar gyfer plant ag anableddau a phlant eraill ag anghenion penodol tua 2 flynedd yn ôl a bydd hyn yn parhau.

- Yn ôl y cyfrifiadau a ddefnyddir gan Chwaraeon Cymru, mae Abertawe'n 7fed o 22 o gynghorau o ran ei berfformiad ac Abertawe yw'r cyngor gorau o lawer o blith cynghorau dinas yng Nghymru.

- Fodd bynnag, bydd gwella'r canlyniad a gyflawnwyd yn 2013/14, sef 89%, yn her enfawr oherwydd y bydd angen gwella'r gyfradd lwyddiant ymhlith grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd i wneud hyn. Felly, dylid disgwyl gwelliannau bach a graddol. Mae'r rhagamcaniad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu hyn.

- Nodwyd bod sawl grŵp o ddisgyblion yn cael anhawster bodloni'r safon. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion o ardaloedd tlotach Abertawe, disgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig a du a disgyblion sy'n newid ysgolion yn aml.

- Oherwydd gofynion crefyddol a diwylliannol, y prif ffactorau sy'n effeithio ar wersi nofio i leiafrifoedd ethnig a du (BME) yw prinder pyllau sy'n cynnig cyfleoedd nofio BME a phrinder sesiynau nofio i fenywod yn unig (pwll Pentrehafod yn unig). O ganlyniad, nid yw plant BME wedi cael yr un cyfleoedd nofio hamdden lle gallant gael profiad o nofio a magu hyder yn y dŵr cyn cael gwersi nofio yn yr ysgol a fyddai'n sicrhau eu bod yn llawer mwy tebygol o gyflawni'r safon ofynnol.

- Felly, mae cyfraddau llwyddiant mewn ysgolion cynradd â nifer uchel o blant BME mor isel â 13% a 30%.

- Mae'r gwasanaeth Dysgu i Nofio eisoes wedi rhoi sawl menter ar waith i wella'r cyfraddau llwyddiant hyn ond heb fawr o lwyddiant. Fodd bynnag, er mwyn parhau i wella'r gyfradd lwyddiant, byddant yn rhoi cynnig eto ar rai o'r mentrau hyn ac yn ceisio mwy o gefnogaeth a chydweithrediad gan randdeiliaid allweddol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried lleihau'r grant Nofio am Ddim i blant o 2014/15 a allai effeithio ar ein gallu i dargedu unigolion drwy'r cynllun hwn. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n bosib mai gwersi ysgol fydd yr unig cyfle i rai disgyblion ddysgu nofio ac efallai na fydd gwersi dal i fyny ar gael.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Yn gyffredinol, mae darparu mwy o gyfleoedd i blant nofio a threulio mwy o amser yn nofio wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed.

- Mae gwersi nofio gan athrawon nofio cymwys hefyd yn ffactor llwyddiant pwysig, ynghyd ag annog plant i ddechrau nofio'n gynharach mewn bywyd.

- Manteisio ar gefnogaeth a chydweithrediad gwerthfawr penaethiaid ac athrawon i ganiatáu i ddisgyblion Blwyddyn 6 penodol barhau i gael gwersi nofio ychwanegol yn yr ysgol os nad ydynt wedi bodloni'r safon ofynnol eto.

- Cytuno â'r ysgolion i rannu'r dosbarthiadau ar draws tymhorau er mwyn cynyddu ansawdd a hyd yr amser a dreulir yn y pwll.

- Ysgolion yn gweithredu i hyrwyddo gwersi nofio a hysbysu rhieni am eu pwysigrwydd, yn enwedig rhieni BME a allai weld rhwystrau - e.e. gwisg nofio - a gwella presenoldeb mewn gwersi.

- Mae'r polisi hyblyg o ran gwisg nofio yn caniatáu i ddisgyblion wisgo rhai mathau o wisg grefyddol/ddiwylliannol (o fewn terfynau iechyd a diogelwch) os oes angen.

- Cynnig gwersi nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol.

- Darparu hyfforddwr nofio ym mhwll Treforys (dim ond amser pwll a oedd ar gael o'r blaen) i gyflwyno gwersi ysgolion.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau i gynnig gwersi nofio ychwanegol am ddim i ddisgyblion blwyddyn 5/6 penodol yn ystod gwyliau'r ysgol.	I gynyddu canran y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed.
Trafod pwysigrwydd gwersi nofio â rhieni holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (a'u hysbysu am y polisi hyblyg o ran gwisg nofio) drwy gyswllt rhwng pennaeth yr ysgol, athrawon a'r cydlynydd nofio mewn nosweithiau rhieni, boreau coffi a digwyddiadau ysgol.	I wella presenoldeb mewn gwersi nofio'n gyffredinol ac ymhlith disgyblion BME i helpu i gynyddu canran y plant sy'n gallu nofio erbyn 11 oed.
Gweithio gyda sefydliadau a grwpiau BME lleol i hyrwyddo pwysigrwydd gwersi nofio ymhellach ymhlith rhieni BME.	Er mwyn datblygu mentrau i annog plant a rhieni lleiafrifoedd ethnig i nofio mwy.
Siarad â chynghorau eraill â phoblogaethau BME uchel i weld a ellir dysgu ganddynt i wella'n perfformiad.	
Adolygu opsiynau i ehangu cyfleoedd i oedolion a phlant BME nofio fel gweithgaredd hamdden er mwyn cefnogi cyrhaeddiad mewn gwersi nofio ysgol. Bydd hyn yn cynnwys: ▪ Ailystyried rhaglen ar gyfer merched a menywod yn unig dan arweiniad menywod. ▪ Ceisio cefnogaeth a chydweithrediad gan ysgolion uwchradd â phyllau nofio er mwyn bodloni'r galw a chynnig cyfleoedd nofio i gymunedau BME ar y safleoedd hyn.	

E3. Y nifer sy'n parhau'n actif ar ôl cael eu cyfeirio at raglen ymarfer corff gan feddyg teulu.

Nod: Cynyddu canran y bobl sy'n parhau'n actif 12 mis ar ôl cael eu cyfeirio at y cyngor gan ymarferwyr iechyd a nodir bod eu hiechyd wedi gwella.

Mesur: Cyfeiriadau Meddyg Teulu - % a'r nifer sy'n parhau'n actif ar ôl 12 mis, a nodir bod eu hiechyd wedi gwella.

Perfformiad Blaenorol							Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
%	-	53.8%	51%	54%	51%	**53%**	**55%**	**57%**	**57%**
Nifer	-	**Dd/b**	**Dd/b**	145/266	147/289	**165 / 310**	**180 / 325**	**195 / 340**	**200/ 350**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Hoffai'r cyngor weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n parhau'n actif 12 mis ar ôl cael eu cyfeirio gan ymarferwyr iechyd i ddangos eu bod wedi mabwysiadu ffyrdd iachach o fyw.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff a gynigir gan Ddinas a Sir Abertawe yn rhan o Raglen Cyfeirio Ymarfer Corff Genedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun ar gyfer pobl â chlefyd cronig neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cronig a byddai cynyddu gweithgarwch corfforol ac ymarfer corff yn wella eu hiechyd.

- Y nod yw bod cleientiaid yn cwblhau rhaglen 16 wythnos ac yna'n gwneud gweithgarwch corfforol yn rhan o'u bywydau.

- Mae nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio gan y rhaglen yn cynyddu ac, yn y blynyddoedd diweddar, mae nifer y cleientiaid sy'n cwblhau'r cynllun 16 wythnos wedi cynyddu i 70% (canran o'r holl bobl a ddechreuodd y cynllun 16 wythnos).

- Mae nifer y cleientiaid sy'n parhau i fod yn actif ar ôl 12 mis wedi bod yn uwch na 50% (51%-54%) yn gyson yn Abertawe, sy'n uwch na tharged cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sef 50%. Ystyrir bod 50% yn darged heriol i'w gyflawni.

- Mae'r broses weinyddol wedi gwella dros amser a chymerir camau dilynol gyda chleientiaid yn rheolaidd erbyn hyn. Mae ymrwymiad cleientiaid i'r cynllun yn well ac maent yn fwy ymwybodol o'r manteision ar ôl cwblhau'r cynllun 16 wythnos.

- Mae cynnal rhaglen gytbwys o weithgareddau corfforol yn helpu i gynnal diddordeb cleientiaid ac felly maent yn fwy tebygol o gwblhau'r cynllun. Ychwanegwyd Tai Chi at y rhaglen a chaiff hyn ei ehangu yn 2014/15.

- Mae cynnig llwybrau gadael addas i gleientiaid, fel y gallant barhau i fyw bywydau iach ac actif, wedi helpu i gadw cleientiaid yn actif ar ôl diwedd y cynllun 16 wythnos. Mae gostyngiad ar aelodaeth o gampfeydd Abertawe Actif (canolfannau hamdden y cyngor) a chyfleusterau partneriaid yn cefnogi hyn. Mae'r gwaith gwella cyfleusterau yng nghanolfannau hamdden y cyngor wedi cyfrannu at gynnydd bach yn nifer y cleientiaid sy'n manteisio ar aelodaeth drwy ddebyd uniongyrchol.

- Mae'r hyfforddwyr ymarfer corff proffesiynol sy'n darparu'r cynllun wedi nodi'r angen am lyfr cofnod ar gyfer cleientiaid i'w helpu wrth iddynt fynd drwy'r rhaglen a darparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt (e.e. amserlen, cyngor ar ymarfer corff, manylion cyswllt).

- Mae angen adolygu rhaglenni, ffyrdd o weithio, amserlenni a meysydd blaenoriaeth er mwyn mwyafu effaith y cynllun gan ystyried yr adnoddau cyfyngedig a'r galw cynyddol am y gwasanaeth.

- Oherwydd y cyfraddau gordewdra sy'n cynyddu ar garlam ymhlith plant a phobl ifanc, gallai cynlluniau cyfeirio ddechrau targedu'r grŵp hwn. Mae'n debygol y bydd hyn yn golygu rôl ymchwil a datblygu yn y tymor byr gyda'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno gan ein partneriaid neu rai newydd yn y tymor canolig.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae'r gallu i gydweithio â meddygon teulu i hyrwyddo'r cynllun cyfeirio gan feddygon yn helpu i sicrhau bod cyfeiriadau newydd yn addas ac yn gallu elwa o'r cynllun.

- Mae'r staff ymroddedig ac arbenigol gyda'u hymagwedd gyfeillgar a chymhellol yn cyflawni rôl sylweddol wrth gefnogi cleientiaid i gwblhau'r cynllun 16 wythnos a mabwysiadu ffyrdd iachach o fyw.

- Mae'r broses weinyddol wedi gwella dros amser a chymerir camau dilynol gyda chleientiaid yn rheolaidd erbyn hyn. Mae ymrwymiad cleientiaid i'r cynllun yn well ac maent yn fwy ymwybodol o'r manteision ar ôl cwblhau'r cynllun sy'n eu hannog i barhau i fabwysiadu ffordd iachach o fyw.

- Mae pwyslais clir ar sicrhau bod pobl sy'n cwblhau'r cynllun cyfeirio ymarfer corff drwy feddyg teulu yn parhau'n actif drwy gynnig aelodaeth campfeydd Abertawe Actif am gost is.

- Yn ogystal â'i ganolfannau hamdden ei hun, mae'r cyngor yn gweithio gyda'r LC a phartneriaid eraill i gynnig llwybr gadael i gyfranogwyr barhau i fyw bywyd actif ar ddiwedd y cynllun.

- Mae'r cyngor hefyd yn defnyddio cyfleusterau partneriaid, megis yr LC, Hazel Court mannau agored, yn fwy i helpu i gyflwyno rhaglen amrywiol a lleol.

- Drwy fanteisio ar gefnogaeth staff cymwys mewn cyfleusterau (h.y. yr LC, canolfannau hamdden cymunedol) i ddarparu oriau ychwanegol o weithgareddau'r rhaglen, darperir mwy o gyfleoedd i gleientiaid barhau i fod yn actif.

- Mae'r gronfa ddata genedlaethol sy'n casglu gwybodaeth am y cynllun wedi gwella a bellach mae'n caniatáu i ni ddarparu adroddiadau manwl i ymarferwyr meddygol proffesiynol a phartneriaid eraill.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cynnig rhaglen ehangach o weithgareddau i annog cleientiaid i roi cynnig ar weithgaredd newydd megis Tai Chi a'r rhaglen Foodwise sy'n gysylltiedig â llwybrau gadael parhaus er mwyn cynnal ffordd iach o fyw.	Er mwyn helpu i annog mwy o gleientiaid y cynllun cyfeirio ymarfer corff i barhau'n aelodau a chadw'n actif.
Darparu llyfryn gwybodaeth i gleientiaid i'w helpu i gofnodi eu cynnydd yn ystod y cynllun, atgyfnerthu cyngor, eu hannog i aros ar y cynllun a'i gwblhau ac i ddylanwadu ar ddewisiadau bywyd iach yn y dyfodol.	
Parhau i ddarparu pecynnau aelodaeth penodol i gleientiaid y cynllun cyfeirio ymarfer corff i'w hannog i fanteisio ar gynnig debyd uniongyrchol gydag Abertawe Actif neu safleoedd partneriaid er mwyn eu cefnogi wrth iddynt fabwysiadu ffyrdd mwy actif ac iach o fyw.	
Adolygu sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn ymgais i leihau costau a gwella effeithlonrwydd fel bod y cynllun yn parhau i fod yn effeithiol a chynnig cynifer o gyfleoedd â phosib i gleientiaid sy'n cael eu cyfeirio.	I sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy a'i fod yn cael ei gyflwyno'n effeithiol i gefnogi cleientiaid i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw.
Gwella dulliau casglu data i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei choladu'n gywir ac y gellir ei defnyddio i fonitro'r cynllun yn effeithiol. Yn ogystal,	I fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen a bodloni gofynion cenedlaethol partneriaid ariannu.

darparu tabledi electronig i gefnogi staff sy'n cyflwyno'r cynllun yn y gymuned fel y gallant gofnodi a chasglu data a chysylltu â systemau swyddfa gefn.	
Gweithio gyda phartneriaid yn lleol ac yn genedlaethol i ddatblygu ymateb i'r angen am raglen sy'n debyg i'r cynllun cyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn byw bywydau iach ar hyn o bryd.	I dargedu'r plant a phobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ddatblygu salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra a'u helpu i newid eu bywydau a bod yn iach.

E4. Rhagor o Leoedd Tyfu

Nod: Cynyddu nifer y lleoedd tyfu sydd ar gael.

Mesur: Nifer y lleoedd tyfu

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
15	15	15	15	16	**25 Gwir = 28**	**40**	**55**	**70**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae'r cyngor am gynyddu nifer y lleoedd tyfu i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain er mwyn ymdopi â phrisiau bwyd cynyddol a helpu i fynd i'r afael â thlodi. Bydd hyn yn hybu hunangynhaliaeth, cryfhau cymunedau a darparu gweithgaredd iach wrth hyrwyddo bwyta'n iachach.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain yn un o ymrwymiadau polisi'r cyngor ac mae'n elfen bwysig o strategaeth y cyngor i fynd i'r afael â thlodi a helpu pobl i fabwysiadu a datblygu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw.

- Nid yw nifer y lleoedd tyfu sydd ar gael, megis rhandiroedd, wedi newid dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae gan y cyngor 16 o safleoedd rhandiroedd y prydlesir 10 ohonynt i'r gymuned leol sy'n eu rheoli drwy gymdeithasau rhandiroedd. Mae 1 safle wedi cael ei adfer yn ddiweddar a rheolir 5 ohonynt gan y cyngor. Nid yw'r cyngor yn bwriadu annog rhandiroedd newydd ond yn hytrach, rhagor o leoedd tyfu hyblyg.

- Mae'r rhan fwyaf o'r rhandiroedd presennol tua gorllewin y ddinas. Mae'r cyngor yn bwriadu blaenoriaethu datblygu lleoedd newydd mewn ardaloedd nad oes ganddynt lawer o leoedd tyfu neu ddim o gwbl.

- Mae'r diffiniad o leoedd tyfu'n hyblyg ac nid yw'n gyfyngedig i randiroedd ffurfiol. Gall fod yn unrhyw ddarn o dir a ddefnyddir i dyfu ac sy'n cael ei reoli, ar unrhyw safle neu mewn unrhyw ardal. Caiff prosiectau cynaliadwy a arweinir gan gymunedau eu hannog a'u blaenoriaethu ar dir lleol mewn cymunedau.

- Ym mis Ionawr 2014, nodwyd nifer gwaelodlin o'r lleoedd tyfu sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd yn nifer y lleoedd.

- Yn 2013/14, crëwyd Tîm Bwyd a Thyfu Cymunedol i gydlynu gwaith bwyd a thyfu yn Abertawe.

- Darparwyd cyllideb tyfu'n lleol gwerth £50k o 2013/14 at ddiben datblygu lleoedd tyfu cymunedol er mwyn gwella'r lleoedd presennol a chreu cyfleoedd newydd.

- Ymchwiliwyd i'r cynllun Rhannu Gardd a chynhaliwyd trafodaethau cychwynnol rhwng y cyngor, landlordiaid cymdeithasol eraill a gwasanaethau trydydd sector i bobl hŷn yn Abertawe. Ar hyn o bryd, mae sefydliadau'n ceisio canfod faint o ddiddordeb sydd gan ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i ddatblygu cynllun yn 2014/15 os nodir digon o ddiddordeb.

- Gwelyau uchel mewn Canolfannau Cymunedol. Ni ddatblygwyd un o'r rhain yn 2013/14 ond cynhaliwyd trafodaeth â thîm adeiladau cymunedol y cyngor ynghylch y posibilrwydd o nodi tir ger canolfannau yn 2014/15 i ddatblygu amrywiaeth o leoedd tyfu a allai gynnwys gwelyau uchel.

- Nodir mai proses raddol yw datblygu lleoedd tyfu newydd a chynaliadwy a gymerir sawl blwyddyn i'w sefydlu. Mae'r cyngor yn ymrwymedig i'r broses hon a theimlwn y bydd y cynnydd sylweddol a wnaed yn 2013/14 yn cynyddu yn 2014/15.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae'r gyllideb tyfu'n lleol a oedd ar gael o 2013/14, ynghyd â'r gwaith a wneir gan y cyngor i ddatblygu lleoedd tyfu, wedi cynyddu nifer y lleoedd tyfu sydd ar gael a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Dyfarnwyd 30 o grantiau o'r gronfa yn 2013/14 a chrëwyd 12 o leoedd tyfu newydd.

- Mae'r cyngor yn gweithio gydag aelodau ward, partneriaid a pherchnogion tir eraill yn Abertawe i nodi a rhyddhau tir er mwyn cynyddu nifer y lleoedd tyfu.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cynhyrchu canllawiau a 'mapiau llwybr' ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn datblygu/defnyddio lleoedd tyfu. Mae	I ganfod yr ymagwedd orau at ddatblygu lleoedd tyfu.

hyn yn gysylltiedig â gwaith Cymunedau'n Gyntaf a'r canolfannau cymunedol.	
Parhau i gyflwyno'r cynllun Tyfu'n Lleol drwy ei ail-lansio ym mis Ebrill. Cefnogir hyn gan Gymunedau'n Gyntaf a phartneriaid eraill. Y nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio lleoedd tyfu ac yn datblygu rhai newydd.	I gynyddu nifer y lleoedd tyfu er mwyn helpu i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain.
Hwyluso 'rhwydwaith tyfu' i bobl rannu profiadau a chefnogi ei gilydd i ddatblygu lleoedd tyfu newydd.	
Cynnal ymarfer mapio i nodi tir addas y gellir ei neilltuo at ddiben tyfu.	
Datblygu 5 safle 'peilot' newydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ymagweddau tyfu a gaiff eu gwerthuso am eu heffeithiolrwydd.	

E5. Cynyddu nifer y disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol am ddim

Nod: Cynyddu canran y disgyblion a nodwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) sy'n bwyta cinio ysgol am ddim.

Mesur: % y disgyblion a nodwyd gan PLASC sy'n bwyta cinio ysgol am ddim - ysgolion cynradd/uwchradd

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Ysgolion Cynradd	85%	77%	79%	74%	77%	i'w gadarnhau	**81%**	**83%**	**85%**
Ysgolion Uwchradd	64%	61%	65%	62%	64%	i'w gadarnhau	**67%**	**68%**	**70%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd cynyddu % y disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol maethlon am ddim yn cynorthwyo dysgu ac yn helpu i sicrhau eu lles yn y dyfodol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae Abertawe ymysg yr awdurdodau sy'n perfformio orau o ran annog plant i fanteisio ar eu hawl i gael cinio ysgol am ddim.

- Mae gwasanaeth prydau ysgol Cyngor Abertawe yn darparu hyd at 13,000 o brydau i sefydliadau addysgol ar draws y ddinas a'r sir bob dydd.

- Ceir cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a bwyta'n iach.

- Mae'r gwasanaeth prydau ysgol yn y sector cynradd yn cydymffurfio â safonau maeth a bwyd cynllun Blas am Oes ac mae'r 3 bwydlen wythnosol yn cydymffurfio'n llwyr â safonau Llywodraeth Cymru.

- Mae ysgolion uwchradd yn gweithio i gydymffurfio'n llwyr â safonau maeth a bwyd Blas am Oes erbyn mis Medi 2013 ac maent wedi cymryd camau breision tuag at hyn drwy sesiynau ymgynghori/blasu dwys gyda disgyblion. Mae'r cyngor yn parhau â'i ymdrechion i fodloni gofynion maeth Blas am Oes mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

- Mae'n bwysig hyrwyddo prydau ysgol yn y sector uwchradd i sicrhau bod ffreuturau yn lleoedd dymunol a bod brand 'Caffi Tawe' yn amlwg. Caiff y gwaith hwn ei wneud o fis Ebrill ymlaen fel y bydd ffreuturau wedi'u gweddnewid erbyn y tymor newydd ym mis Medi.

- O'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn Abertawe, roedd 26% ohonynt yn cael brecwast, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 23.5% Mae'r sector cynradd yn gwneud ymdrech barhaus, drwy gyfarfodydd rhieni, i farchnata brecwast am ddim ar gyfer pob disgybl yn yr ysgolion a chanddynt y nifer uchaf o ddisgyblion â hawl i brydau am ddim. Y gobaith yw y bydd hyn yn effeithio ar y nifer sy'n hawlio cinio am ddim hefyd. Bydd ffigurau gwir/cymhariaeth ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Bu'r cyngor yn datblygu systemau di-arian fel na fydd yn amlwg pa ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r system ddi-arian ar gyfer ysgolion uwchradd bron yn barod i'r ysgolion sydd am ei chyflwyno. Disgwylir cwblhau'r rhaglen hon erbyn diwedd tymor yr haf. Y fantais i ddisgyblion fydd ffordd gyflymach o dalu, gan leihau ciwiau a dileu'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio prydau ysgol am ddim. Bydd hyn yn gwneud y gwasanaeth yn fwy deniadol i'r plant sydd â'r hawl i fanteisio arno. Y nod yw y bydd rhagor o blant sydd â hawl i'r gwasanaeth yn manteisio arno.

- Mae'r cyngor yn gwneud ei orau i barhau i annog plant i hawlio prydau ysgol am ddim drwy ehangu'r system ddi-arian i bawb, er enghraifft cafodd ei chyflwyno yn Ysgol Esgob Gore ym mis Medi 2013. Mae Treforys wedi rhoi'r system ar waith yn llwyddiannus yn yr adeilad newydd ac mae rhagor o blant yn defnyddio'r gwasanaeth. Rhoddwyd y system ar waith yn YGG Bryn Tawe ym mis Chwefror 2014 ac roedd Ysgol Penyrheol ac Ysgol Tregŵyr yn bwriadu ei mabwysiadu ym mis Mawrth 2014.

- Cynyddodd pris prydau ysgol i £2.00 ym mis Ionawr 2014 oherwydd y cynnydd mewn prisiau bwyd. Dyma'r tro cyntaf i brisiau prydau ysgol gynyddu ers 2012. Nid yw'r ffigurau hyd yn hyn wedi dangos unrhyw effaith negyddol ar y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth ond caiff y sefyllfa ei monitro'n barhaus oherwydd bwriedir adolygu prisiau'n rheolaidd.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae plant yn elwa o bryd iach ganol dydd ac mae bwydlenni'n cael eu cynllunio i wneud amser cinio'n hwyl.
- I'r rhan fwyaf o ddisgyblion, amser cinio yw'r rhan bwysicaf o'r dydd. Maent yn edrych ymlaen yn fawr at gael amser i ailborthi, ymlacio, cymdeithasu ac ymarfer.
- Mae darparu prydau ysgol sy'n gytbwys o ran maeth, mewn amgylchedd dymunol, yn helpu i wella ymddygiad plant a'u gallu i ganolbwyntio ar ddysgu yn y prynhawn.
- Mae prydau ysgol am ddim yn hanfodol i blant oherwydd efallai na fyddant yn cael pryd o fwyd twym arall yn y diwrnod.
- Mae hyrwyddo prydau ysgol am ddim drwy ymgyrch 'Capten Jac y Môr-leidr - Ymunwch â'r Criw' wedi helpu i gynyddu nifer y disgyblion ysgolion cynradd sy'n mwynhau prydau ysgol iach amser cinio.
- Mae'n anodd mesur effaith y system ddi-arian bresennol ar y nifer sy'n hawlio prydau am ddim oherwydd y nifer o newidiadau a symudiadau a welwyd, e.e. Daniel James yn cau a'r disgyblion yn symud i Ysgol Pentrehafod a lleoliadau eraill; effaith y diwygiadau lles o fis Ebrill 2013 a allai effeithio ar hawliau i brydau ysgol am ddim hefyd. Mae adborth gan ddisgyblion yn awgrymu eu bod yn hoffi'r system ddi-arian a bod mantais gadarnhaol drwy drin pob disgybl yn yr un ffordd wrth y cownter bwyd.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Ystyried cyflwyno system talu gan y rhieni am brydau ysgol i'w gwneud yn haws i rieni dalu am brydau eu plant.	I annog mwy o ddisgyblion ysgol i fwyta prydau ysgol iach am ddim.
Parhau i hyrwyddo prydau ysgol drwy ymgyrch Capten Jac.	
Parhau i hyrwyddo prydau ysgol am ddim i ddisgyblion sydd â'r hawl i'w derbyn.	

F. Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion)

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Gwelwyd newidiadau allweddol mewn tueddiadau demograffig a disgwyliadau pobl o ofal cymdeithasol ac mae gan y rhain oblygiadau ar gyfer newid darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.

1. **Anghenion newidiol**:

- Mae'r pwysau ar adnoddau gofal cymdeithasol yn cynyddu ac yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio ddod i'r amlwg. Wrth i'r boblogaeth hŷn gynyddu, bydd amlder problemau megis llesgedd a dementia'n cynyddu hefyd. Dangosir hyn gan y tabl[7] isod sy'n tanlinellu'r newidiadau ym mhoblogaeth hŷn a bregus Abertawe erbyn 2018. Yn y cyfamser, disgwylir cynnydd o 13 y cant mewn achosion dementia yn Abertawe erbyn 2018[8].

Tabl 1: Rhagamcaniadau demograffig ar gyfer y dyfodol

	Cyfanswm >65 oed			Amcangyfrif o'r boblogaeth fregus			Bregus fesul 1,000 >65 oed
	2012	2018	Newid	2012	2018	Newid	
Abertawe	44,290	49,396	+11.5%	4,687	5,226	+11.5%	106

- Ar y cyd â'r newidiadau demograffeg hyn, ceir gostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus ac, ar yr un pryd, mae disgwyliadau pobl y mae angen gofal cymdeithasol arnynt yn cynyddu.

- Mae hyn yn golygu y bydd mwy o alw am wasanaethau amserol sy'n ymatebol ac wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion a dewisiadau pobl. Bydd angen hefyd ddangos gwelliant parhaus o ran cydbwysedd gofal gyda'r pwyslais mwy ar gefnogi pobl i fod yn annibynnol.

- Mae'r newid hwn i roi mwy o bwyslais ar annibyniaeth gynyddol yn cyd-fynd â'r cyd-destun cenedlaethol a amlinellir mewn dogfennau megis Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a thrwy fentrau rhanbarthol megis y model gwasanaethau gofal canolraddol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan bartneriaid Bae'r Gorllewin.

2. **Gwasanaethau sy'n newid[9]:**

- Er mwyn i wasanaethau gofal cymdeithasol fod yn gynaliadwy, yn lleol ac yn genedlaethol, sylweddolir bod 'rhaid gwneud pethau'n wahanol' ac mae angen ymagwedd fwy blaengar at gyflwyno gwasanaethau.

[7] Ffynhonnell - Achos Busnes Gwasanaethau Gofal Ganolraddol Gwasanaethau Cymunedol Bae'r Gorllewin 2014
[8] Ffynhonnell - Achos Busnes Gwasanaethau Gofal Ganolraddol Gwasanaethau Cymunedol Bae'r Gorllewin 2014
[9] *Asesiad Anghenion Strategol* Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (2013)

- I'r perwyl hwn, mae'r cyngor yn ystyried nifer o fodelau cyflwyno gwasanaethau sy'n wahanol i'r mathau mwy traddodiadol o ofal preswyl a nyrsio.

- Er enghraifft, mae'r cyngor wedi cyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ailalluogi ac ailsefydlu er mwyn i bobl allu byw yn eu cymunedau cyhyd â phosib.

- Mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid Bae'r Gorllewin hefyd i ddatblygu gwasanaethau gofal canolraddol ymateb cyflym. Lluniwyd achos busnes tair blynedd a chyflwynir cais am arian gan Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i'w ryddhau ym mis Ebrill 2014.

- Mae gweithio ar y cyd â phartneriaid iechyd wedi'i ei gyflwyno eisoes drwy Dîm Gofal Integredig Gŵyr, sef y tîm peilot. Drwy'r fenter ar y cyd hon, a ddechreuodd ym mis Hydref 2013, mae ymarferwyr gofal cymdeithasol ac iechyd proffesiynol o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd PABM yn cydweithio i ddarparu gofal a chefnogaeth i drigolion Gŵyr.

- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau cymunedol effeithiol i gefnogi pobl hŷn ac annog mwy o bobl i'w defnyddio. Mae gwasanaethau fel hyn ar gael i bawb yn aml (h.y. nid oes angen asesiad i'w defnyddio).

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Fel y dangoswyd uchod, mae Gwasanaethau Oedolion yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau newydd a blaengar sy'n gost-effeithiol, gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a lleihau risg.

F1. Achosion lle rheolwyd y risg

Nod: Cynyddu canran yr achosion lle rheolwyd y risg wrth ddiogelu oedolion diamddiffyn.

Mesur: % yr achosion lle rheolwyd y risg

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
% yr achosion lle rheolwyd y risg	**-**	**-**	83.77 %	90.41 %	92.00 %	**84.09 %** (Chw. 2)	**92.2 %**	**92.3 %**	**92.4 %**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae diogelu yn un o swyddogaethau craidd Gwasanaethau Cymdeithasol. Y llynedd, buom yn adolygu ein trefniadau diogelu er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosib wrth reoli risg. Gellir gweld dwy thema yn yr adolygiad hwn.

1. Ad-drefnu ein trefniadau diogelu oedolion ar ffurf ranbarthol (Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Bae'r Gorllewin):

- Rydym bellach yn un o bartneriaid Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin sy'n cwmpasu Abertawe ynghyd ag ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Phen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg. Bydd y bwrdd hefyd yn cynnwys ardaloedd dwy Uned Reoli Sylfaenol (BCU) Heddlu De Cymru.
- Bydd gan yr ymagwedd ranbarthol hon at ddiogelu lawer o fanteision cynhenid, megis sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau, mwyafu dysgu ar y cyd rhwng asiantaethau pan fydd pethau'n mynd o chwith a chydweithio i nodi meysydd risg.

2. Datblygu ymagwedd 'mae diogelu'n fusnes pawb' yn lleol:

- Casgliad adolygiad o'n trefniadau diogelu a gynhaliwyd eleni oedd bod angen cynnwys holl staff awdurdod lleol yn y broses yn hytrach na bod tîm ar wahân yn gyfrifol am ddiogelu. Yn y bôn, argymhelliad yr adolygiad oedd y dylai diogelu fod yn 'fusnes pawb': Dylid rhannu cyfrifoldeb am ddiogelu ar draws Gwasanaethau Oedolion ac asiantaethau partner i sicrhau bod oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.
- I hwyluso hyn, trosglwyddwyd staff o'r tîm diogelu i dimau gwaith cymdeithasol.
- Nod cyffredinol yr ymagwedd newydd hon yw annog staff i fod yn gyfrifol ar y cyd am ddiogelu, yn hytrach na'i ystyried yn gyfrifoldeb tîm arbenigol.
- Ystyrir bod yr ymagwedd hon yn fwy gwydn hefyd; bydd angen y gwydnwch hwn i ymdopi â'r galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal â phwysau economaidd-gymdeithasol sy'n debygol o arwain at fwy o straen ar deuluoedd a'r gwasanaethau cyhoeddus.

- Er y cyflwynwyd y datblygiadau hyn y llynedd, rydym yn parhau i ymgorffori'r newidiadau hyn a'u hadolygu fel yr amlinellir isod.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Rydym wedi perfformio ychydig yn well na chyfartaledd Cymru o ran y dangosydd perfformiad cenedlaethol perthnasol (SCA/019 - cyfeiriadau a gwblhawyd lle ceir tystiolaeth bod y risg wedi'i rheoli) am y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

- Mae gwybodaeth gyfredol yn dangos bod mwy o bobl yn cael eu cyfeirio a'u hasesu yn Abertawe nag yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol cymharol eraill.

- Roeddem yn disgwyl y byddai'r trefniadau newydd yn seiliedig ar egwyddor 'busnes pawb' yn sicrhau ymateb mwy cyson a chymesur i bryderon am niwed a chamdriniaeth oedolion diamddiffyn.

- Trafodir cyfeiriadau diogelu'n wythnosol ac yn ddyddiol i fonitro a yw'r trothwyau'n cael eu dilyn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

- Bydd canlyniadau ymarfer gwerthuso sydd ar fin cychwyn yn rhan bwysig o ddeall effeithiolrwydd yr ymagwedd newydd at ddiogelu. Bydd yr ymarfer hwn yn archwilio:

➢ Nifer y cyfeiriadau diogelu a'r rhesymau drostynt cyn y newidiadau hyn ac ar eu hôl.
➢ A fodlonwyd y trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad diogelu yn amlach neu'n llai aml ers newid y trefniadau diogelu.
➢ Cynhelir cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaeth a staff i ddysgu am eu profiadau o'r trefniadau diogelu newydd.
➢ Adborth gan asiantaethau partner i ganfod eu profiadau hwy o ddefnyddio'r prosesau diogelu newydd.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Ni ellir dweud pa agweddau ar y trefniadau newydd sy'n gweithio'n dda nes bydd y gwerthusiad ffurfiol wedi'i gwblhau. Rydym yn disgwyl derbyn y canlyniadau tua diwedd mis Ebrill 2014.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Cynnal gwerthusiad o'r trefniadau diogelu newydd. Derbyn y canlyniadau ym mis Ebrill 2014.	I feithrin cyfrifoldeb ar y cyd am ddiogelu ymhlith ein holl aelodau staff, cynyddu'r gallu i ymdopi â galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio a newid pwyslais gwaith cymdeithasol i ganolbwyntio ar y teulu (yn hytrach na gwahanu oedolion a phlant).
Gwneud mwy o waith i archwilio'r posibilrwydd o integreiddio diogelu ar draws gwasanaethau i oedolion a phlant a theuluoedd yn adran Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe.	
Ymchwilio ymhellach i sut gellid addasu'r dull Arwyddion Diogelwch ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion. Mae'r ymagwedd flaengar hon at waith achos amddiffyn plant yn seiliedig ar gryfderau a diogelwch ac mae'n cael ei threialu ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.	

F2. Cefnogi mwy o bobl i fod yn annibynnol.

Nod Cynyddu nifer a chanran y bobl a gefnogir i fod yn annibynnol.

Mesur: Nifer /% y bobl a gefnogir i fod yn annibynnol.

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer /% y bobl a gefnogir i fod yn annibynnol	6,644 86.3%	7,444 87.4%	6,529 85.5%	6,324 85.1%	6,828 85.8%	Dd/B*	**6,990** **86.2%**	**7,090** **86.4%**	**7,200** **86.6%**

**Mae'r DP yn datblygu drwy gydol y flwyddyn. Byddai cofnodi gwerth Chwarter 3 yn gamarweiniol.*

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae cadw pobl yn annibynnol yn un o'n gwerthoedd cymdeithasol craidd ac mae wrth wraidd polisi lleol a chenedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner a defnyddwyr gwasanaeth i hybu annibyniaeth, diogelwch ac urddas.
- Oherwydd pwysigrwydd ein nod o hybu annibyniaeth, rydym

➢ wedi ehangu'r prosiect gwelyau asesu. Nod y prosiect gwelyau asesu yw helpu pobl i fyw gartref yn annibynnol cyhyd â phosib. Cyflawnir hyn drwy gyfnod byr o ailsefydlu/ailalluogi mewn cartref gofal. Mae gennym 20 gwely asesu bellach (12 yn Nhŷ Bonymaen ac 8 yn Nhŷ Waunarlwydd); dechreuodd y prosiect yn 2011 gyda dau wely yn unig.

➢ Buom yn rhan o achos busnes i geisio am arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal canolraddol ar draws ardal Bae'r Gorllewin. Darperir y gwasanaethau canolraddol yn y gymuned yn bennaf, naill ai gan iechyd neu ofal cymdeithasol lle nodir angen ailsefydlu neu ailalluogi cryf.

➢ Cyflwynwyd tîm peilot Gofal Canolraddol Gŵyr. Dwy'r fenter ar y cyd hon, a ddechreuodd ym mis Hydref 2013, mae ymarferwyr gofal cymdeithasol ac iechyd proffesiynol o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd PABM yn cydweithio i ddarparu gofal a chefnogaeth mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd.

➢ Drwy ein Tîm Derbyn, rydym wedi parhau i sicrhau bod pobl ag anghenion cefnogaeth is a gyfeirir atynt yn cael eu dargyfeirio i adnoddau cymunedol a'r trydydd sector yn hytrach na gofal y gwasanaethau cymdeithasol.

➢ Parhau i roi'r prosiect Cysylltwyr Cymunedol ar waith. Mae'r prosiect hwn, ymysg pethau eraill, yn cysylltu pobl ag anghenion cefnogaeth is ag adnoddau cymunedol priodol fel y gallant fod yn annibynnol a dibynnu llai ar wasanaethau gofal cymdeithasol ffurfiol.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae gan Ddinas a Sir Abertawe hanes da o gefnogi oedolion dan 65 oed yn y gymuned ac rydym wedi bod ymysg y pedwar awdurdod gorau yng Nghymru ar gyfer y dangosydd perthnasol (SCA003a) bob blwyddyn ers 2008/9.

- Mae'r dangosydd hwn yn cymharu pobl a gefnogir yn y gymuned yn unig â'r rhai a gefnogir mewn gofal preswyl. Gwelwyd cynnydd yn y blynyddoedd diweddar yn nifer y bobl hŷn sy'n cael eu cefnogi mewn gofal preswyl, sydd wedi helpu i leihau'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

- Yn y dyfodol, gwneir gwaith sylweddol i ddatblygu gwelyau asesu tymor byr a gwasanaethau eraill i osgoi derbyn pobl hŷn i ofal parhaol.

- Yn y blynyddoedd diweddar, gwelwyd gostyngiadau hefyd yn nifer y bobl sy'n derbyn mathau penodol o gefnogaeth gartref, wrth i feini prawf cymhwysedd gael eu defnyddio pan argymhellir addasiadau a chyfarpar.

- Mae rhagamcanu perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn gymhleth am y rhesymau canlynol:

  - Y newid i ddatblygu modelau amgen o ddarpariaeth (a ddisgrifir uchod) gyda'r bwriad o leihau'r angen am droi at wasanaethau gofal cymdeithasol ffurfiol.
  - Y pwysau demograffig a ragwelir o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, gyda chwech y cant ychwanegol o bobl hŷn yn 65 oed ac yn hŷn erbyn 2017.
  - Newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau o ganlyniad i roi'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith.

- O ganlyniad, rydym wedi pennu targedau sy'n adlewyrchu'r angen am ymateb i newid sylfaenol o ran darparu gwasanaethau mewn cyfnod o alw sylweddol.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Rydym wedi gwerthuso dau o'r prosiectau a drafodir uchod - y prosiect Cysylltwyr Cymunedol a'r prosiect Gwelyau Asesu - i weld a ydynt yn 'gweithio'n dda'.

- Roedd llawer o ddefnyddwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch menter y Cysylltwyr Cymunedol a'u gwaith o gysylltu pobl ag adnoddau cymunedol (er enghraifft, cefnogwyd person hŷn i ymaelodi â chlwb bowls mat byr yn hytrach na mynd i wasanaeth dydd).

- Roedd canlyniadau gwerthuso'r gwelyau asesu - a drafodir yn fanylach isod - yn gadarnhaol ar y cyfan.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	Pam?
Archwilio sut mae'r broses o gyflwyno rhagor o welyau asesu'n gweithio.	I ganfod faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n dychwelyd adref heb fynd yn ôl i ofal preswyl tymor hir.
Rydym yn parhau i fonitro effaith prosiect y Cysylltwyr Cymunedol a byddwn hefyd yn archwilio sut gallai'r ffordd hon o weithio helpu i atal anghenion rhag gwaethygu.	I ganfod a yw hyn wedi helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth.
Archwilio llwybrau gofal integredig.	Wrth geisio helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth, mae'n bwysig archwilio modelau gwahanol o ofal cymdeithasol gyda phartneriaid er mwyn cyflawni manteision megis gwell canlyniadau a chostau llai o bosib.

F3. Lleihau'r amser a gymerir i osod cymhorthion a chyfarpar

Nod: Lleihau nifer y diwrnodau gwaith cyfartalog rhwng cwblhau'r cynllun gofal a darparu a/neu osod cymhorthion neu gyfarpar.

Mesur: (SSA2) Nifer y diwrnodau gwaith cyfartalog rhwng cwblhau'r cynllun gofal a darparu a/neu osod cymhorthion neu gyfarpar**.**

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith rhwng cwblhau'r cynllun gofal a darparu a/neu osod cymhorthion/cyfarpar.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
5	5	5.46	6.69	7.32	**7.39 (C3)**	**7**	**7**	**7**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Rydym am leihau'r amser a gymerir i ddarparu cyfarpar sy'n hanfodol i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi gyda chefnogaeth.
- I gyflawni hyn, byddwn yn ceisio lleihau'r amser a gymerir rhwng cwblhau'r cynllun gofal a darparu a/neu osod cymhorthion a chyfarpar.
- Byddwn yn parhau i gyflawni targed y dangosydd perfformiad lleol, sef saith niwrnod gwaith ar hyn o bryd, a nodir yn y Cytundeb a Manyleb Gwasanaeth Adran 33.
- Mae darparu cyfarpar cymunedol mewn da bryd i ddefnyddwyr gwasanaeth yn effeithio'n sylweddol ar yr angen i dderbyn rhywun i'r ysbyty neu leoliad gofal preswyl.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Yn sgîl cytuno ar gontract newydd gyda'n partneriaid ym mis Ebrill 2012, roeddem yn gallu buddsoddi mewn isadeiledd newydd a rhoi system TG newydd ar waith.

- Mae'r perfformiad presennol yn agos at y targed saith niwrnod a nodir yn y cytundeb ar y cyd.

- Mae'r gwasanaeth newydd wedi cyflwyno rhai newidiadau pwysig.

➢ Yn gyntaf, mae mwy o bwyslais ar eitemau mwy arbenigol a wnaed at y diben sydd weithiau'n swmpus. Nid oes modd eu cadw mewn stoc ac mae angen eu harchebu.
➢ Yn ail, nid ydym bellach yn ymwneud ag eitemau a ddarperir yn uniongyrchol i gleifion wrth iddynt adael yr ysbyty. Felly, mae gweddill y cyfarpar yn eitemau arbenigol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fonitro perfformiad.

- Parheir i bennu targed gan ystyried y cytundeb ar y cyd i ddarparu cyfarpar (a gytunwyd â CBS Castell-nedd Port Talbot a PABM). Mae hwn yn pennu safon saith niwrnod ar gyfer darparu cyfarpar. Felly, byddai unrhyw darged dan saith niwrnod yn arwain at gostau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Mae'r Gwasanaethau Cyfarpar a Larymau Cymunedol wedi cael eu hail-leoli i greu canolfan ddarparu ganolog a gwasanaeth mwy integredig i ddefnyddwyr gwasanaeth.

- Yn ogystal, mae cyfleuster arddangos ar y safle lle gall defnyddwyr gwasanaeth roi cynnig ar y cyfarpar cyn iddo gael ei osod yn eu cartrefi, sy'n cynyddu dewis a chyfranogiad.

- Mae gennym reolwr ar y cyd i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth.

- Mae system TG newydd yn cynnig potensial llawer gwell ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid ac mae'n haws i ymarferwyr archebu.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Mae angen i ni barhau i ystyried sut gallwn wneud y storfa cyfarpar cymunedol mor effeithlon a chynaliadwy â phosib.	Mae'r galw wedi cynyddu 10 y cant yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu bodloni'r galw am y gwasanaeth, ar y cyd â'n partneriaid.

Beth?	**Pam?**
Mae angen i ni ystyried sut gall yr oedi hyn effeithio ar y gwasanaeth.	Gwelwyd rhagor o oedi wrth ddatblygu'r system gwasanaeth cwsmeriaid ymhellach. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn nodi ac yn olrhain cyfarpar y gellid ei ailgylchu yn briodol.
Parhau i fonitro targedau ar gyfer darparu a gosod cyfarpar i helpu pobl i aros yn eu cartrefi.	I fonitro perfformiad ac oedi ar y cyd fel rhan o'r cytundeb gwasanaeth. Gall hyn hefyd helpu i osgoi rhyddhau pobl yn hwyr a lleihau'r angen i dderbyn pobl i'r ysbyty neu ofal preswyl.

F4. Cleientiaid sy'n dychwelyd adref ar ôl ailalluogi

Nod: Cynyddu nifer/% y cleientiaid sy'n dychwelyd adref ar ôl cyfnod o ailalluogi yn hytrach na mynd i ofal preswyl tymor hir.

Mesur: Nifer/% y cleientiaid sy'n dychwelyd adref yn dilyn ailalluogi.

	Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
	2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Nifer/% y cleientiaid sy'n dychwelyd adref yn dilyn ailalluogi.	Ddim yn berthnasol			52 y cant wedi dychwelyd adref[10]		Dychwelodd 60% adref.	Nid oes modd darparu rhagamcaniadau ar hyn o bryd: mae'r peilot yn rhy newydd		

Pam mae hyn yn bwysig:

- Mae ailalluogi wrth wraidd ein dyheadau am y ffordd rydym yn darparu gofal yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Abertawe.
- Mae ailalluogi'n cynnwys cyfnod asesu pan fydd staff gofal yn ceisio gwneud llai dros ddefnyddwyr gwasanaeth a mwy gyda hwy, gan helpu pobl i fagu hyder yn eu galluoedd eu hunain ac adennill sgiliau.

- Dros y blynyddoedd diweddar, mae ailalluogi wedi cael ei ddarparu drwy ein Gwasanaeth Asesu Gofal Cartref (DCAS). Gwasanaeth gofal cartref tymor

[10]Oherwydd nifer bach y defnyddwyr gwasanaeth dan sylw, mae'r data hwn yn cynnwys cleientiaid a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn ystod 2011-12 a 2012-13; felly, mae'r ffigur hwn yn cynrychioli perfformiad am y ddwy flynedd.

byr yw DCAS a reolir gan ein Gwasanaethau Gofal Cartref mewnol. Pan asesir bod angen gofal cartref ar rywun, darperir hyn gan DCAS yn y lle cyntaf. Mae rôl ddeuol gan DCAS. Yn bennaf, gwasanaeth asesu ydyw sy'n penderfynu ar lefel y gofal tymor hir y bydd ei hangen ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hefyd yn wasanaeth alluogi lle bydd staff gofal, staff iechyd cymunedol a therapyddion galwedigaethol yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf ac annog annibyniaeth.

- Mae pob cynorthwy-ydd gofal cymunedol yn derbyn hyfforddiant ailalluogi i gefnogi a chynorthwyo'r broses ailalluogi. Darperir hyfforddiant i aelodau staff newydd gan Ymgynghorwyr Gofal Personol; mae hyn yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth allweddol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn fwy annibynnol.

- Rydym wedi bod yn treialu gwelyau asesu dan y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (TASS) ac i gefnogi'r DCAS. Cyflwynwyd y gwelyau yn 2011 a'r nod oedd atal pobl y gellir eu disgrifio fel rhai sy'n wynebu argyfwng - er enghraifft pobl â heintiad aciwt y llwybr wrinol - rhag cael eu derbyn dros dro i gartref gofal (neu ysbyty hyd yn oed).

- Am sawl rheswm, gall derbyn defnyddwyr gwasanaeth dros dro i gartref preswyl, arwain at eu derbyn i ofal preswyl tymor hir yn barhaol yn hytrach na'u hanfon adref.

- Y gobaith yw y bydd y gwelyau asesu'n atal y sefyllfa hyn rhag codi cymaint â phosib: drwy dderbyn cefnogaeth ailalluogi ddwys gan staff i ddatblygu cryfder, sgiliau a hyder, mae pobl yn gallu dychwelyd i'w cartrefi.

- Mae'r gwelyau asesu'n bwysig am eu bod yn hwyluso gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, yn darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn fwy cynaliadwy yn ariannol na gofal preswyl tymor hir.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Gwerthuswyd effeithiolrwydd Tŷ Bonymaen i ddarparu cefnogaeth ailalluogi ym mis Awst 2013.

- Roedd y gwerthusiad yn ystyried canlyniadau'r 53 o bobl a oedd wedi defnyddio'r gwelyau asesu.

- Roedd mwy na hanner y grŵp wedi dychwelyd adref yn llwyddiannus (60.38 y cant). Yn ogystal, roedd mwy na thri chwarter o'r bobl y gellid eu hastudio yn yr arolwg dilynol yn byw gartref o hyd ar ôl chwe wythnos.

- Mae staff a phartneriaid yn gadarnhaol am wasanaeth gwelyau asesu Tŷ Bonymaen ac maent o'r farn bod y gwasanaeth yn flaengaredd o safon sy'n cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol iawn ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a chanddynt anghenion cymhleth iawn yn aml.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Ymddengys fod y gwelyau asesu'n gweithio'n dda iawn wrth ailalluogi, atal anghenion rhag gwaethygu a chefnogi canlyniadau da ar gyfer pobl sydd am aros yn eu cartrefi.

- Mae arwyddion cynnar y gwelyau asesu sydd ar waith mewn gwasanaethau eraill yn addawol iawn hefyd.

- Byddwn yn gwerthuso gwasanaethau'r gwelyau asesu eto - gan roi sylw penodol i lwyddiant y gwelyau hyn wrth gefnogi pobl â dementia i ddychwelyd adref.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Archwilio sut mae darparu rhagor o welyau asesu'n gweithio, gyda phwyslais ar bobl hŷn â dementia.	I ganfod faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n dychwelyd adref heb fynd yn ôl i ofal preswyl tymor hir.
Archwilio llwybrau gofal integredig.	Wrth geisio helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth, mae'n bwysig archwilio modelau gwahanol o ofal cymdeithasol gyda phartneriaid er mwyn cyflawni manteision megis gwell canlyniadau a chostau llai o bosib.

Ff. Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu drwy hyrwyddo, gweithio gydag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel

Pam mae hwn yn Amcan Gwella

Ceir materion allweddol a chanddynt oblygiadau ar gyfer yr angen i helpu pobl i ailgylchu mwy o'u gwastraff.

1. **Strategaeth Gwastraff Genedlaethol**:

- Mae awdurdodau lleol yn wynebu mesurau polisi a deddfwriaethol sylweddol gan gynnwys y Cynllun Lwfans Tirlenwi (CLT), y Treth Tirlenwi a thargedau ailgylchu a chompostio mae'n rhaid eu cyflawni.

- Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth gwastraff genedlaethol ddiwygiedig, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, sy'n amlinellu sut i reoli gwastraff yn gynaliadwy a thargedau lleihau gwastraff i awdurdodau.

- Mae safleoedd tirlenwi'n cael eu rheoleiddio drwy hawlenni amgylcheddol a roddir i'r gweithredwr. Mae dyluniad, gweithredu, monitro, cau a gofal ar ôl cau safleoedd tirlenwi'n destun gofynion Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE a dylai tirlenwi fod yn ddewis olaf ar gyfer y rhan fwyaf o wastraff, yn enwedig gwastraff bioddiraddadwy a gwastraff y gellir ei ailgylchu.

- Mae safleoedd tirlenwi bron yn llawn a bydd treth tirlenwi'r DU'n cynyddu £8 y tunnell tan 2014, nes bod cost tirlenwi a'r dewisiadau amgen yn gyfartal; ymhen amser, bydd tirlenwi'n ddrutach na dulliau gwaredu eraill.

- Y targedau statudol ar gyfer cynyddu swm y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2013/14 yw 52%; bydd hyn yn cynyddu i 58% erbyn 2015/16.

2. **Perfformiad lleol a chenedlaethol**:

- Mae cyfraddau ailgylchu'r cyngor wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, o 31.57% yn 2008/09 i 48% yn 2012/13.

- Fodd bynnag, o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae perfformiad Abertawe wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru, sef 52.26% (2012/13) ac mae'r cyngor yn yr 20fed safle ymysg awdurdodau lleol Cymru.

- Os nad ydym yn bwrw targedau Llywodraeth Cymru, byddwn yn wynebu dirwy o £200 am bob tunnell sy'n llai na'r targed. Byddai hyn yn golygu £250,000 ychwanegol am bob 1% mae'r cyfanswm yn llai na'r targed.

- Mae strategaeth datblygu gwasanaeth gwastraff y cyngor yn rhychwantu 15 mlynedd i ddangos sut byddwn yn cyflawni'r gyfradd ailgylchu uwch o 70% erbyn 2025.

- Cyn mis Awst, roedd prif safle tirlenwi'r cyngor, Tir John, ynghyd â safleoedd ailgylchu eraill yn y ddinas, yn cael eu rheoli gan Gwmni Gwaredu Gwastraff Abertawe, cwmni a chanddo berthynas hyd braich â'r cyngor.

- Fodd bynnag, ers mis Awst, y cyngor sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r cyngor i ddatblygu a gwella ei wasanaethau ailgylchu, cynyddu'r potensial ar gyfer bwrw targedau ailgylchu cenedlaethol a lwfansau tirlenwi heriol, drwy reoli'r gwasanaethau gwastraff o fewn y cyngor.

- Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i gynghorau greu cwmnïau hyd braich at ddiben rheoli gwasanaethau gwaredu gwastraff oherwydd deddfwriaeth, ond mae'r rheolau wedi newid ers hynny ac anogir cynghorau i fanteisio ar y newidiadau.

Cyfraniad y cyngor at welliant

- Mae'r cyngor wedi bod yn annog pobl i ailgylchu, ailddefnyddio ac arbed eu gwastraff cartref.
- Mae'r cyngor wedi rhoi nifer o fentrau ar waith mewn ymgais i hwyluso hyn ac mae wedi llwyddo i gyflawni cynnydd blynyddol yn y gyfradd ailgylchu a lleihau swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.
- Fodd bynnag, mae bwrw'r targedau statudol wedi bod yn her a bydd angen rhagor o waith er mwyn eu cyflawni o fewn yr amserlenni.

Ff1. Ailgylchu mwy o wastraff, anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi

Nod: Cynyddu canran y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio.

Mesur: (WMT009b) % y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio.
(WMT/004) - % y gwastraff dinesig a anfonwyd i safleoedd tirlenwi

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
(WMT009b) % y gwastraff dinesig sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio.								
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
31.57%	34.55%	40.47%	45.15%	47.87% (Targed statudol - 52%)	**52%** i'w gadarnhau	**54%**	**58% - Targed statudol**	**61%**

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
(WMT/004) % y gwastraff dinesig a anfonir i safleoedd tirlenwi.								
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
67.67%	64.93%	59.26%	54.54%	49.5%	**46%** i'w gadarnhau	**46%**	**42%**	**39%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Bydd lleihau swm y gwastraff a gynhyrchir, ynghyd â chynyddu lefelau'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu/gompostio yn gwella'n sylweddol ein gallu i fodloni targedau Llywodraeth Cymru, osgoi dirwyon a helpu i ddiogelu adnoddau prin.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Mae'r awdurdod wedi gweld cynnydd blynyddol yng nghanran y deunyddiau sy'n cael eu hailddefnyddio/hailgylchu/compostio. Fodd bynnag, er i ni gyflwyno nifer o fentrau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a llwyddo i gynyddu'r gyfradd ailgylchu gwastraff 2.72%, methodd yr awdurdod gyflawni'r gyfradd ailgylchu statudol ar gyfer 2012/13, sef 52%.

- Cyfradd ailgylchu gyffredinol yr awdurdod yn 2012/13 oedd 47.87% o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, 52.5%, sy'n golygu bod Abertawe yn yr 20fed safle ymysg awdurdodau lleol yng Nghymru. Y gyfradd gompostio yn Abertawe yw 16.55% o'i chymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 18.62%, sy'n golygu bod Abertawe yn y 14eg safle. Mae Abertawe'n ailgylchu 31.14% o'i wastraff sych o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, 32.02% sy'n golygu bod perfformiad Abertawe unwaith eto yn y 14eg safle.

- Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae'r awdurdod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed ailgylchu statudol o 52% erbyn 2013/14, ac mae'r cofnodion diweddaraf ar gyfer gwastraff yn dangos cynnydd o dros 4,500 yng nghyfanswm y tunelli a ailgylchwyd dros y 3 chwarter cyntaf o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mewn ymgais i sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni, mae Abertawe wedi parhau i ddatblygu a hyrwyddo nifer o fentrau ac mae wedi cyflwyno nifer o rai newydd, gan gynnwys:

  - Ymgyrch barhaus i annog preswylwyr a busnesau i leihau swm y gwastraff maent yn ei gynhyrchu.
  - Ehangu'r gwasanaeth ailgylchu ymyl y ffordd i gynnwys casglu cardbord.
  - Ehangu'r gwasanaeth casglu gwastraff cegin a gardd i'r sir gyfan.
  - Cyflwyno gwasanaeth casglu plastigion cymysg ymyl y ffordd i'r holl breswylwyr a busnesau.
  - Cyflwyno casgliadau bob yn ail wythnos ar gyfer sachau du.
  - Ymgyrch curo ar ddrysau barhaus i annog preswylwyr i fanteisio ar yr cynlluniau ailgylchu amrywiol sydd ar gael.

- Datblygu cyfleuster 'ailddefnyddio' ar y safle byrnu sy'n arbed eitemau rhag mynd i safle tirlenwi ac yn eu gwerthu i'r cyhoedd.
- Cyflwyno swyddogion 'cwrdd a chyfarch' yng nghanolfannau ailgylchu gwastraff cartref i gynnig cyngor a chymorth i helpu preswylwyr i ailddefnyddio/ailgylchu/compostio'r pethau maent yn eu cludo i'r safleoedd.
- Cyflwyno cyfleusterau ailgylchu malurion yn y canolfannau ailgylchu gwastraff cartref.
- Didoli gwastraff a gludir i'r canolfannau ailgylchu gwastraff cartref i arbed deunyddiau y gellir eu hailgylchu.
- Treialu cynllun i ddidoli gwastraff masnachol a chartref i arbed deunyddiau y gellir eu hailgylchu.
- Sicrhau cyfleuster i ailgylchu/ailddefnyddio gwastraff o'r strydoedd.
- Cyflwyno cyfleusterau ailgylchu ar gyfer fflatiau.

- Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau hyn wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella perfformiad cyffredinol yr awdurdod, ond mae'n amlwg bod angen rhagor o waith datblygu er mwyn cael y budd mwyaf o rai o'r cynlluniau. Yn benodol, mae angen gwneud mwy i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu cyfleusterau ailddefnyddio ac mae angen hyrwyddo arfer lleihau gwastraff cartref a masnachol.

- Y targed statudol presennol ar gyfer ailddefnyddio/ailgylchu gwastraff dinesig yw 52% a fydd yn cynyddu i 58% yn 2015/16 a 64% yn 2019/20. Os na lwyddir i gyflawni'r targedau a bennir, gallai'r awdurdod gael dirwy hyd at £200 am bob tunnell mae'r cyfanswm yn llai na'r targed, sy'n gyfwerth â bron £225k ar gyfer pob pwynt canran islaw'r targed. Mae'r awdurdod wedi rhoi strategaeth ar waith i geisio cyflawni'r targedau hyn, sy'n rhai heriol gan ystyried yr hinsawdd economaidd a'r gostyngiad yn arian grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyflwyno'r mentrau angenrheidiol.

- Er ei bod yn anodd llunio amcangyfrif manwl o effaith pob menter ar ein perfformiad cyffredinol, rhagwelir y bydd cyfradd ailgylchu/compostio gyffredinol y cyngor yn cynyddu i 54% (gan gyflawni'r targed statudol) yn 2014/15 pan fydd yr holl fentrau a ddisgrifir ar y dudalen nesaf (yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud) ar waith. Drwy ddatblygu'r mentrau presennol ac ariannu a gweithredu'r mentrau ychwanegol sydd yn yr arfaeth, dylai'r awdurdod gyflawni'r targed statudol o 58% yn ystod 2015/16.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Bu'r ymgyrch curo ar ddrysau barhaus yn llwyddiannus wrth ddarbwyllo preswylwyr nad oeddent yn ailgylchu/compostio eu gwastraff cartref i ddechrau gwneud hynny. Mae llwyddiant y cynllun wedi denu sylw awdurdodau eraill sydd wedi gofyn am ein cyngor ar gyflwyno cynlluniau tebyg. Hyd yn hyn, ymwelwyd â thua 36,000 o gartrefi ac mae arolygon yn dangos cynnydd o 10% i 15% yng nghyfanswm y tunelli o ddeunyddiau ailgylchu a gesglir o'r ardaloedd a dargedwyd. Mae hyn yn cynrychioli tua 1,500 o dunelli'r flwyddyn sy'n cael eu hailgylchu yn hytrach na mynd i safle tirlenwi, sy'n gyfwerth â chynnydd o 1.3% yn ein perfformiad cyffredinol.

- Mae cyflwyno cyfleusterau ailgylchu ar gyfer fflatiau wedi bod yn effeithiol hefyd a chydnabuwyd ein gwasanaeth fel model o arfer da gan y Rhaglen Weithredu ar Wastraff ac Adnoddau (WRAP), sefydliad annibynnol a ariennir gan y llywodraeth. Darparwyd cyfleusterau ailgylchu i dros 10,000 o aelwydydd nad oedd ganddynt unrhyw gyfleusterau neu ychydig iawn cyn i ni ddatblygu'r cynllun.
- Mae'r siop 'ailddefnyddio' ar y safle byrnu wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae nifer o awdurdodau wedi gofyn am ein cyngor ar gyflwyno cyfleusterau tebyg. Mae'r cyfleuster wedi galluogi'r awdurdod i ailddefnyddio tua 200 o dunelli o ddeunyddiau a fyddai wedi mynd i safle tirlenwi fel arall.
- Mae'r swyddogion 'cwrdd a chyfarch' newydd yn y canolfannau ailgylchu gwastraff cartref wedi bod yn boblogaidd iawn, ynghyd â chyflwyno cyfleusterau i ailgylchu malurion. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yng nghanran y deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu ar y safleoedd, gyda'r cyfraddau'n cynyddu o 55.8% ar gyfartaledd ar gyfer 3 chwarter cyntaf 2012/13 i 61.3% ar gyfer yr un cyfnod yn 2013/14.
- Mae'r gwasanaeth ailgylchu gwastraff masnachol yn un o'r rhai mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru a bu'n gyfrifol am ailgylchu mwy na 2,500 o dunelli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Parhau â'r ymgyrch curo ar ddrysau.	I ddarbwyllo preswylwyr nad ydynt yn manteisio ar y cynlluniau ailgylchu ar hyn o bryd i wneud hynny, gan alluogi'r awdurdod i gynyddu ei gyfraddau ailgylchu a lleihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae arolygon wedi dangos cynnydd mewn cyfranogiad yn yr ardaloedd a dargedwyd a chynnydd o 10% i 15% o ran tunelli a gesglir yn yr ardaloedd hyn.
Cyflwyno uchafswm o 3 sach ddu yr aelwyd bob pythefnos.	I annog preswylwyr i leihau swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac ailgylchu cymaint â phosib. Dylai hyn leihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a chynyddu'r ffigurau ailgylchu cyffredinol.
Sefydlu gorsaf ddidoli ar y safle byrnu.	I wella cyfraddau'r deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu harbed o wastraff masnachol a chartref, lleihau swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Beth?	Pam?
Cyflwyno gwelliannau yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref	I wella cyfradd y deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu harbed.
Cynnal adolygiad o'r gwasanaeth casglu gwastraff masnachol.	I wella swm y deunydd sy'n cael ei ailgylchu, gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau casglu a lleihau swm y deunydd sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
Cynnal rhaglen addysg/ymwybyddiaeth barhaus.	I annog preswylwyr a busnesau i leihau swm y gwastraff maent yn ei gynhyrchu ac ailgylchu lle bynnag y bo modd.
Gosod arwyddion newydd ar y safleoedd casglu gwastraff cartref a gwella trefn y safleoedd.	I roi gwell gwybodaeth i breswylwyr am y cyfleusterau sydd ar gael ar bob safle a sicrhau mynediad diogel i'r cyfleusterau. Dylai hyn gynyddu swm y deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu, lleihau'r swm sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a gwella'n perfformiad ailgylchu.
Ymchwilio i gyfleuster ailgylchu hen garpedi ac isgarpedi.	I atal carpedi rhag cael eu llosgi a hybu'n perfformiad ailgylchu.
Ymchwilio i gostau a manteision didoli gwastraff gweddilliol cyn ei waredu drwy droi gwastraff yn ynni.	I gynyddu swm y deunyddiau ailgylchu o ddeunydd a fyddai fel arall wedi cael ei waredu a lleihau canran y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
Datblygu partneriaethau â sefydliadau'r trydydd sector ymhellach.	I annog pobl i ailddefnyddio eitemau cartref gan leihau swm y gwastraff sy'n cael ei waredu.

Ff2. Clirio tipio anghyfreithlon yn brydlon

Nod: Cynyddu canran yr achosion o dipio anghyfreithlon sy'n cael eu clirio'n brydlon.

Mesur: (STS/006) % yr achosion o dipio anghyfreithlon wedi'u clirio o fewn 5 niwrnod gwaith ar ôl cael ein hysbysu amdanynt.

Perfformiad Blaenorol						Rhagamcaniad		
(STS/006) % yr achosion o dipio anghyfreithlon wedi'u clirio o fewn 5 niwrnod gwaith.								
2008-09	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
93.03%	96.39%	92.50%	86.08%	92.9 %	**93%** i'w gadarnhau	**95%**	**95%**	**95%**

Pam mae hyn yn bwysig:

- Os byddwn yn gwella'n trefniadau ar gyfer casglu ac ailgylchu gwastraff, dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar leihau'r achosion o dipio anghyfreithlon a chyflymu'r broses o ddelio â digwyddiadau o'r fath.

Cefndir perfformiad blaenorol a thueddiadau a ragwelir:

- Gwelwyd tuedd ostyngol yn y perfformiad ers 2009/10, o 96.39% yn 2009/10 i 86.1% yn 2011/12, er bod hyn wedi gwella yn 20112-13 i 92.9%.

- Yn ystod 2011/12, newidiodd y sylfaen ar gyfer cyfrifo'r ffigurau a bu hyn yn gyfrifol yn rhannol am y canlyniad is yn y flwyddyn honno. Mae'r diffiniad o fesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer tipio anghyfreithlon (STS/006) yn caniatáu i awdurdodau amrywio eu dehongliad o'r hyn a ystyrir yn achos sengl o dipio anghyfreithlon wrth gasglu data ac ymddengys fod canlyniadau'n amrywio'n sylweddol ar draws Cymru.

- Yn ystod 2011/12, rhoddwyd newidiadau gweithredol/trefniadaethol ar waith yn y gwasanaethau Strydlun; roedd y rhain wedi dylanwadu ar berfformiad yn y cyfnod hwn hefyd.

- Yn ystod 2012/13, archwiliwyd dulliau gwaith, gan ddefnyddio'r ymagwedd 'meddwl drwy systemau' a chyflwynwyd newidiadau er mwyn lleihau gwastraff ac oedi. Mae'r newidiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r ffigurau go iawn wedi dychwelyd i'r lefelau cyn cyfuno gwasanaethau, er gwaethaf gweithlu llai a chyfyngiadau ar gyflenwi gan asiantaethau.

- Ar y cyd ag ymagwedd gymunedol, dylai'r newidiadau hyn, wella safon y gwasanaeth yn y dyfodol.

- Gwnaed ymdrechion i hysbysu gweithwyr perthnasol am ganlyniad eu gwaith er mwyn eu helpu i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r cyfarwyddyd i chwilio am dystiolaeth ac er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

- Mae pob sach bellach yn cael ei harchwilio am dystiolaeth er mwyn hysbysu ac erlyn y rhai sy'n gyfrifol, gyda'r nod o leihau tipio anghyfreithlon. Mae'r prosesau a gyflwynwyd y llynedd yn sefydledig bellach ac mae staff yn ymwybodol o'r ystadegau sy'n gysylltiedig ag archwilio sachau a sut mae hyn yn berthnasol i hysbysiadau a llythyrau rhybuddio.

- Gwnaed arbedion o ran cerbydau (craen mawr ar gefn lori) sy'n effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad; mae'r cyngor yn hurio cerbyd yn achlysurol i ymdrin ag eitemau gwastraff mawr. Ni fydd hyn yn cyflawni targedau ond mae'n effeithiol o ran cost (i dynnu oergell o ffos er enghraifft).

- Mae llai o adnoddau ar gael oherwydd bod swyddi gwag yn cael eu rhewi wrth aros am benderfyniad ynglŷn â cholli swyddi mewn rhan arall o'r gwasanaeth. Mae'r gwaith gyda'r timau talu'n ôl i'r gymuned yn parhau er na fydd hyn wedi cael llawer o effaith ar berfformiad. Aed i'r afael ag ardaloedd lle ceir problemau mynych drwy mwy o orfodi.

- Yn ôl ffigurau 2012/13 cofnodwyd y trydydd nifer uchaf o achosion i'w clirio yn Abertawe. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â gwastraff cartref a roddwyd allan ar yr adeg anghywir. Gan ystyried y pwysau mawr ar y gwasanaeth, byddai perfformiad Abertawe'n uwch yn y rhestr pe bai perfformiad yn seiliedig ar nifer yr achosion a gliriwyd yn hytrach na'r ganran. Sylwer hefyd bod rhai o'r awdurdodau sy'n perfformio'n dda iawn wedi ymdrin â nifer isel iawn o achosion.

- Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn y band 90%+ gyda chyfraddau o 92-96% yn gyffredin. Gellir disgwyl i ganlyniadau amrywio o chwarter i chwarter ac mae canlyniadau Abertawe wedi amrywio o 91% yn Chwarter 1 i 96% yn Chwarter 3.

- Ni ellir llunio rhagamcaniadau manwl oherwydd bod y ffigurau hyn yn dibynnu ar natur y gwastraff i raddau helaeth. Fodd bynnag, disgwylir 93% yn gyffredinol. Pan ddaw'r rheolau arfaethedig i rym sy'n cyfyngu sachau gwastraff cartref i 3, bydd angen adolygu'r galw ond ni ddisgwylir newid sylweddol i ddechrau.

- Yn gyffredinol, mae'r cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed o 93% er gwaethaf cynnydd yn nifer yr achosion rydym yn cael ein hysbysu amdanynt.

Yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd:

- Fel rhan o'r newidiadau gweithredol a threfniadaethol a gyflwynwyd i'r dulliau gweithio, mae ceisiadau am glirio tipio anghyfreithlon bellach yn mynd yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaeth hwn.

- Rhoi gwybod i weithwyr perthnasol am ganlyniad eu gwaith er mwyn eu helpu i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r cyfarwyddyd i chwilio am dystiolaeth ac er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

- Mae pob sach bellach yn cael ei harchwilio am dystiolaeth er mwyn hysbysu ac erlyn y rhai sy'n gyfrifol, gyda'r nod o leihau tipio anghyfreithlon.

- Creu partneriaethau â grwpiau cymunedol megis Cyfeillion Parc Williams yng Nghasllwchwr Isaf, lle mae gwirfoddolwyr yn gweithredu i leihau nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon.

Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Beth?	**Pam?**
Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus i adolygu rhai meysydd gweithredol gan gynnwys glanhau strydoedd.	I ymchwilio i ffyrdd o leihau'r angen drwy ganolbwyntio ar addysg a gorfodi.
Hyrwyddo egwyddor gwaith partneriaeth â grwpiau cymunedol eraill ar draws Abertawe a'u cefnogi i leihau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.	I leihau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.
Bydd ein tîm gorfodi preifat yn parhau i dargedu ardaloedd â nifer uchel o broblemau.	I leihau ardaloedd â nifer uchel o broblemau/problemau mynych
I barhau i ddatblygu cysylltiadau â'r timau talu'n ôl i'r gymuned.	I fynd i'r afael â materion yr ystyrir eu bod y tu allan i'n cylch gorchwyl (tir heb ei gofrestru, priffordd heb ei mabwysiadu) ond sy'n dal 03i beri pryder i'r cyhoedd.

Ble i gael mwy o wybodaeth

***Gweithredu dros Abertawe* - Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/17**

Lluniwyd y ddogfen hon gan y Gwasanaeth Perfformiad a Chyflwyno ar ran y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu â'r tîm Perfformiad a Chyflwyno drwy: E-bostio : improvement@swansea.gov.uk Ffôn 01792 63685252.

Gellir gweld Cynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol 2013-17 wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2014-15 drwy ddilyn y ddolen we ganlynol: www.abertawe.gov.uk/diweddariadCGC2014

Cynllun Un Abertawe

Os hoffech wybod mwy am *Gynllun Un Abertawe*, ewch i wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

Hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â *Chynllun Un Abertawe* gallwch gysylltu â'r Tîm Strategaeth Gymunedol drwy: scrutiny@swansea.gov.uk

Ffôn 01792 637732

Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Datblygu Cynaliadwy

Adroddiadau'r Bwrdd Craffu

Gellir gweld yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r uchod ar wefan y Cyngor: http://www.abertawe.gov.uk

Adroddiadau Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru

http://www.wao.gov.uk/reportsandpublications/localgovernment_687.asp

Adroddiadau Arolygu Estyn

http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=51&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1

Adroddiadau Arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

http://www.csiw.wales.gov.uk/dataviewer/index.asp?searchtext=Enter+Name&postcode=Postcode&authority=SWA&region=&results=true&settings=1